





# Panel Unigolion **2004**

## Canlyniadau o'r don 1

## PRIF ADRODDIAD

Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid – Adroddiad 4

Sponsored by Welsh Assembly Government

# PANEL UNIGOLION 2004

© ELWa Mawrth 2005. Cyhoeddwyd gan ELWa. Caniateir atgynhyrchu rhannau o'r cyhoeddiad hwn am resymau hyfforddiant neu addysgiadol nad yw yn fasnachol, ar yr amod na chamliwir y ffeithiau a chydnabyddir y ffynhonnell. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn ffurf electronig ar wefan ELWa www.elwa.org.uk




Grŵp ymchwil NOP yw cangen y DU o NOP World, y nawfed o'r asiantaethau ymchwil mwyaf yn y byd.

Yn y DU cyflogir tua 600 o staff gan NOP sydd wedi'i rannu yn adrannau arbenigol. Mae'r tîm sy'n gweithio ar Arolwg Astudiaethau Achos 2004 yn rhan o'r adran sy'n arbenigo mewn Ymchwil Cymdeithasol a mae 20 o ymchwilwyr yn gweithio yn y maes hwn. Mae gan y tîm brofiad perthnasol o arolygon ymchwil cymdeithasol ar raddfa fawr ac o wneud ymchwil i fodlonrwydd cwsmeriaid.

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd | 01 |
| Cyflwyniad | 02 |
| Gweithgarwch dysgu ffurfiol | 05 |
| Gweithgarwch dysgu anffurfiol | 24 |
| Cyfleuoedd dysgu yn y gwaith | 36 |
| Agweddau at dysgu | 40 |
| Symbyliad i ddysgu | 46 |
| Rhwystrau i ddysgu | 54 |
| Cynlluniau'r dyfodol | 62 |
| Segmentu dysgwyr ac eraill | 72 |
| Atodiad | 76 |


Cynhyrchwyd gan ELWa ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC). 01 Ebrill 2006 bydd ELWa yn rhan a LLCC.

## **RHAGAIR Y CADEIRYDD** gan Sheila Drury



Mae gwrando ar unigolion, a deall eu hanghenion dysgu a pha sgiliau sydd eu hangen arnynt, yn elfen bwysig wrth weithredu agenda moderneiddio ELWa ar gyfer dysgu ôl-16. Rydym yn ymgymryd â rhaglen ymchwil enfawr er mwyn canfod barn dysgwyr a'r rhai nad ydynt yn ymwneud â dysgu. Amcan yr ymchwil yw deall anghenion dysgu pobl Cymru, a'r symbyliad a'r boddhad y mae dysgu yn ei roi i bobl. Mae'r Panel Unigolion wedi'i seilio ar farn dros 2,000 o unigolion drwy Gymru gyfan, ac mae ganddo rôl ganolog o gynyddu'r ddealltwriaeth hon. Rwy'n falch o gael cyflwyno canlyniadau'r don gyntaf.

Gofynnwyd llawer o gwestiynau i unigolion, gan gynnwys cwestiynau am eu rhan mewn dysgu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, am eu rhesymau dros ymgymryd â'r dysgu, ac am y ffyrdd y mae'r dysgu wedi effeithio ar eu bywydau. Roedd hanner yr ymatebwyr wedi ymgymryd â rhyw gymaint o ddysgu ffurfiol yn ystod y deuddeng mis diwethaf, ac roedd y symbyliad yn ymwneud yn bennaf â gwaith neu yrfa. Roedd yn galonogol fod y rhan fwyaf o'r unigolion yn cytuno bod dysgu er ei fwyn ei hun yn rhoi boddhad iddynt. Serch hynny, roedd 40% o'r rhai a gafodd eu cyfweld heb ymwneud â dysgu o gwbl yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, a hwn yw'r grŵp y mae'n rhaid inni ei dargedu. Trwy ddeall yr hyn sy'n rhwystro'r bobl yma rhag ymgymryd â dysgu, a pha ddigwyddiadau sydd wedi annog eraill i ymwneud â dysgu, gall ELWa ddechrau datblygu mentrau i ehangu a dwysáu cyfranogiad mewn dysgu.

Bydd sefydlu panel yn galluogi ELWa i fesur unrhyw newid yn y farn gyda llawer iawn mwy o gywirdeb na chyfres o arolygon unwaith ac am byth, a bydd yn galluogi ELWa i olrhain a deall cyfranogiad ar draws ystod lawn o ddysgwyr. Bydd y canlyniadau'r ail don yn dangos a yw'r unigolion wedi newid eu statws o fod yn ddysgwyr i beidio â bod yn ddysgwr (neu fel arall), gan roi i ELWa well dealltwriaeth o'r rhesymau pam y bydd pobl yn dewis dysgu neu adael dysgu, a beth yw ffurf y cyfeiriadau hyn.

Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r miloedd o unigolion am roi o'u hamser ac am ganiatáu i ymchwilwyr ddod i'w cartrefi, a rhoi eu barn ar ddysgu fel y gallwn wella cyfleoedd dysgu yn y dyfodol er mwyn 'gwneud i ddysgu weithio' i Gymru.

**Sheila Drury** – Cadeirydd
Mawrth 2005

# 1.0 CYFLWYNIAD

ELWa sy'n gyfrifol am gynllunio, cyllido a hyrwyddo darpariaeth ddysgu ôl 16 yng Nghymru ac eithrio Addysg Uwch. Mae hyn yn cynnwys Addysg Bellach, Addysg Barhaus i Oedolion, Chweched Dosbarth Ysgolion a rhaglenni Dysgu yn Seiliedig ar Waith.

Mae cwsmeriaid ELWa yn cynnwys pawb sy'n dysgu ar hyn a bryd a holl ddarpar ddysgwyr y dyfodol – mae hyn yn cynnwys pob unigolyn, busnes a chymuned ar hyd a lled Cymru. Un rhan bwysig o swyddogaeth ELWa yw deall beth yw safbwyntiau unigolion ym mhob rhan o Gymru mewn perthynas â dysgu, a defnyddio'r wybodaeth hon i saernïo gwahanol flaengareddau i annog mwy o bobl i ymgymryd â dysgu yn y dyfodol. O'r herwydd, comisiynodd ELWa arolwg o unigolion 16+ er mwyn gallu deall yn well beth oedd eu barn am ddysgu a'u profiad ohono a beth, hefyd, oedd yn eu cymell yn y cyfeiriad hwn.

Mae'r ymarferiad hwn yn rhan o Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid ELWa, sy'n rhan o ymdrech gyffredinol ELWa i:

- hybu polisi sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth a hybu cynllunio sy'n cael ei arwain gan y galw
- rhoi'r "cwsmer" yng nghanol y llwyfan

Mae'r Strategaeth yn cwmpasu tri phrif fath o weithgaredd:

- Deall beth sy'n cymell cwsmeriaid i ddysgu er mwyn lledu a dyfnhau eu cyfranogiad mewn dysgu
- Deall beth mae cwsmeriaid yn ei feddwl o'r addysg a'r gwasanaethau dysgu y maent yn eu derbyn
- Olrhain a deall sut mae'r grwpiau cwsmeriaid (unigolion, busnesau a chymunedau) yn cyfranogi

Mae arolwg y Panel Unigolion yn cwmpasu'r olaf o'r rhain. Mae gwaith arall wedi cael ei wneud, neu'n bwriadu cael ei wneud, o dan y Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid, amlinellwyd yn tabl 1.1.

## 1.1 Nodau

Ar gyfer yr Arolwg o Unigolion mabwysiadwyd trefn Banel, oedd yn golygu bod yr ymatebwyr yn cael eu gwahodd i ymuno â Phanel ar ôl bod trwy'r cyfweliad. Roedd hynny'n golygu eu bod yn cytuno y gellid cysylltu â nhw rywbryd yn y dyfodol i gael cyfweliad arall ynglŷn â phynciau tebyg. Mae'r adroddiad yn delio â'r don gyntaf yn y Panel Unigolion. Bydd yr ail don yn olrhain a yw barn yr unigolion wedi newid yn ystod y flwyddyn, ac a ydynt wedi newid statws o fod yn un sy'n dysgu i fod yn un sydd ddim yn dysgu (neu fel arall).

Prif nodau'r Panel Unigolion yw:

- sefydlu peirianwaith i olrhain newidiadau yn amgyffrediad pobl ynglŷn â dysgu a'u profiad ohono
- rhoi darlun llawn, ar draws y bwrdd o ymddygiad ac agweddau mewn perthynas â dysgu
- darparu data meintiol am oedolion o oed gweithio
- darparu data meintiol am bobl sydd ddim yn dysgu

Un o fanteision gweithredu trwy Banel yw bod hynny'n ei gwneud yn haws mesur newid mewn agweddau na phe baem yn cynnal cyfres o arolygon unwaith ac am byth. Y mae hefyd yn ein galluogi i olrhain newid mewn unigolion dros gyfnod o amser ac yn rhoi mewnwelediad i'r hyn sy'n ysgogi ac yn symbylu dysgu.

## 1.2 Cwmpas yr Arolwg – Dyluniad y Panel

Roedd y rhesymwaith tu ôl i ddylunio'r panel yn seiliedig ar yr angen i gael sampl cenedlaethol oedd yn cynrychioli Cymru gyfan. Ond gan na fyddai sampl cynrychioliadol trwy Gymru gyfan yn gallu cynnwys sampl digon cadarn mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf penderfynwyd rhoi mwy o sylw i'r ardaloedd hyn yn y sampl olaf. Er

## Tabl 1.1 Crynodeb o'r Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid

| Ymarferiad Ymchwil | Nodau |
|---|---|
| Arolwg Cenedlaethol Bodlonrwydd Dysgwyr yng Nghymru 2003 | Arolwg ffôn o 6,000 o ddysgwyr mewn Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Barhaus i Oedolion achredediq, a fu'n fodd i ELWa gael mesur o fodlonrwydd dysgwyr gyda'r ddarpariaeth a gyllidir gan ELWa drwy Gymru, ac i sefydlu meincnodau a fydd, dros gyfnod, yn dangos y tueddiadau mewn bodlonrwydd dysgwyr. |
| Arolwg Cenedlaethol Chweched Dosbarth Ysgolion yng Nghymru 2004 | Estyniad o'r Arolwg Cenedlaethol o Fodlonrwydd Dysgwyr a oedd yn archwilio barn myfyrwyr chweched dosbarth a pha mor fodlon oeddent gyda'u profiad o ddysgu. Cynhaliwyd 12 grŵp ffocws mewn 8 ysgol yng Nghymru ac anfonwyd holiaduron i'w llenwi i bob ysgol oedd yn cymryd rhan, er mwyn cael deall beth sy'n cymell myfyrwyr chweched dosbarth i ddysgu a pha mor fodlon ydynt gyda'r broses o ddysgu. |
| Astudiaethau Achos Cyflogwyr | Cynhaliwyd 28 o astudiaethau achos unigol ymhlith ystod o gyflogwyr trwy Gymru er mwyn deall pa fath o ddysgu y mae cyflogwyr yn ymgymryd ag ef, a sut y gellir annog cyflogwyr i fod yn gyfrannog mewn dysgu a'i gynnig yn fwy eang i'w gweithlu. Cynhaliwyd cyfweliadau mewn dyfnder gyda pherchenogion/ cyfarwyddwyr sefydliadau mawr, cynhaliwyd cyfweliadau gyda rheolwyr llinell, a dosbarthwyd holiaduron i gael eu llenwi gan y gweithwyr. |
| Panel Cyflogwyr | Panel o 2000 o gyflogwyr trwy Gymru a fydd dros gyfnod yn olrhain barn am ddysgu a hyfforddi o fewn eu busnesau eu hunain. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn ffordd a fydd yn mesur ac olrhain rhai o'r themâu fydd yn codi o'r astudiaethau achos hyn. Yn arbennig, bydd yn edrych ar lefelau gweithgarwch hyfforddiant ac yn cael adborth ynglŷn â gwahanol ffyrdd o ymestyn a dyfnhau'r gweithgarwch hwnnw. |

bod ardaloedd cymunedau'n Gyntaf wedi cael mwy o sylw yn y sampl cawsant eu pwysoli yn ôl i lawr ar gyfer y dadansoddiad terfynol.

## 1.3 Cwmpas yr Arolwg – Meysydd Holi

Roedd y prif bynciau a drafodwyd gan y Panel Unigolion fel a ganlyn (y rhai gyda * yw'r cwestiynau craidd fydd yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol):

- Hyfforddiant a gafwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf*
- Hyfforddiant a gafwyd yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf
- Cyrsiau a chymwysterau a gafwyd*
- Dull dysgu – rhan amser ynteu llawn amser*
- Darparwyr cyrsiau*
- Rhesymau dros ddysgu*
- Effeithiau ymgymryd â dysgu*

- Rhesymau dros beidio â gwneud unrhyw ddysgu yn ystod y flwyddyn neu yn y dyfodol*
- Y tebygolrwydd o ymgymryd â dysgu'r flwyddyn nesaf*
- Cyfleoedd i ddysgu yn y gwaith*
- Dyheadau at y dyfodol*
- Canfyddiadau o'r ffyrdd y gall dysgu eu helpu i gyflawni dyheadau *
- Cynlluniau ar gyfer dysgu yn y dyfodol*

## 1.4 Methodoleg a Samplo

Cynhaliwyd yr arolwg trwy gyfweliad wyneb-yn-wyneb, yn para 20 munud ar gyfartaledd, gyda 2,009 o unigolion yn eu tai. Digwyddodd y cyfweliadau rhwng mis Rhagfyr 2003 a mis Ionawr 2004.

### 1.4.1 Peilot

Cynhaliwyd arolwg peilot er mwyn rhoi prawf ar yr holiadur ar gyfer eglurder, y ffordd yr oedd yn llifo, a'i hyd. Yn gyffredinol cynhaliwyd 18 cyfweliad peilot gan 3 cyfwelydd mewn diwrnod. Roedd y sylwadau'n cael eu bwydo'n ôl i ELWa a gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'r holiadur yn sgil hynny.

### 1.4.2 Cyfweliadau yn Gymraeg

Roedd yr ymatebwyr yn cael y dewis o gael cynnal y cyfweliad yn Gymraeg. Gofynnwyd iddynt ar ddechrau'r cyfweliad a fyddai'n well ganddynt ei gael yn Gymraeg. Ni ofynnodd yr un o'r ymatebwyr am y trefniant hwnnw.

### 1.4.3 Samplo

Roedd dau gam yn y broses o samplo; yn gyntaf dewis y prif sampl ac yn ail dewis sampl ategol o ardaloedd difreintiedig.

Dewiswyd y prif sampl er mwyn sicrhau y byddai trawstoriad cynrychioliadol o'r boblogaeth yn cael eu cyfweld. Dewiswyd ardaloedd cyfrifo yng Nghymru o ddata Cyfrifiad 1991 yna eu trefnu yn ôl wardiau yn gyntaf ac wedyn yn ôl dangosydd geo-ddemograffig (sef canran y dosbarthiadau AB yn yr ardal). Wedyn dewiswyd 190 o ardaloedd cyfrifo o'r rhestr gyda'u maint yn adlewyrchu'r tebygolrwydd y caent eu dewis. Wedyn cynhyrchwyd cwotâu a rhestrau cyfeiriadau ar gyfer pob ardal a ddetholwyd.

Detholwyd y sampl ategol o ardaloedd difreintiedig allan o'r 100 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Wedyn tynnwyd oddi ar y rhestr unrhyw ardaloedd cyfrifo oedd wedi cael eu dethol yn y prif sampl, a threfnu'r rhestr eto yn ôl ward ac yn ôl dangosydd geo-demograffig cyn mynd ati i ddethol.

## 1.5 Adrodd yn ôl

Bwriad yr adroddiad hwn yw tanlinellu'r canfyddiadau pwysicaf a gafwyd gan y Panel Unigolion yn y don gyntaf.

Roedd pawb a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect yn awyddus i weld bod defnydd llawn yn cael ei wneud o'r data a gasglwyd. Gyda hynny mewn golwg bydd y data ar gael ar wefan ELWa: http://www.elwa.org.uk.

# 2.0 GWEITHGARWCH DYSGU FFURFIOL





## 2.1 Cyflwyniad

At ddiben yr adroddiad yr ydym wedi diffinio dysgu ffurfiol a dysgu anffurfiol fel a ganlyn:

- Mae dysgu ffurfiol yn golygu dysgu gyda hwylusydd. Gall fod yn cael ei ddarparu gan ddarparwr dysgu ond yr hyn sy'n ei wneud yn wahanol yw bod athro, tiwtor, mentor neu asesydd yn cymryd rhan yn y dysgu. Yr ydym wedi galw'r rhain yn gyrsiau addysgu.
- Mae dysgu anffurfiol yn sefyllfa lle mae'r ymatebydd yn ei helpu ei hunan neu yn helpu eraill (plant er enghraifft) i ddysgu. Nid oes rôl bwysig i athro, tiwtor, mentor neu asesydd.

Mae'r bennod hon yn edrych ar ddysgu ffurfiol, gan archwilio pa bryd oedd y tro diwethaf i ymatebwyr gymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu a pha fath o ddysgu y mae pobl yn ei wneud. Mae'r ymatebwyr wedi cael eu categoreiddio yn ôl eu cyfranogiad mewn dysgu neu hyfforddiant:

- yn ystod y 12 mis diwethaf;
- yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf;
- dros 3 blynedd yn ôl.

## 2.2 Cyfranogiad mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y 12 mis diwethaf

Nid oedd hanner yr ymatebwyr (50%) wedi cymryd rhan mewn unrhyw fath o hyfforddi na dysgu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd oedran a statws cyflogaeth yn ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o gymryd rhan mewn dysgu; ymatebwyr hŷn (74%) a phobl oedd naill ai ddim mewn gwaith (68%) neu oedd wedi ymddeol (83%) oedd fwyaf tebygol o fod heb gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant na dysgu yn ystod y 12 mlynedd diwethaf.

O blith yr ymatebwyr oedd wedi bod yn gyfrannog mewn hyfforddiant, roedd dau allan o ddeg wedi ymgymryd ag un neu fwy o'r canlynol:

- Cyrsiau cyffredinol yn y gwaith e.e. cyrsiau sefydlu staff, iechyd a diogelwch neu hyfforddiant cymorth cyntaf (21%).
- Cyrsiau addysgu sydd wedi eu cynllunio er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau y gellwch eu defnyddio mewn swydd (20%).
- Treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau yn y math o waith yr ydych yn ei wneud, er enghraifft darllen llyfrau, llawlyfrau neu fynychu seminarau (20%)

  Ac roedd rhwng 10% a 20% wedi bod yn ymwneud â:

- Cyrsiau addysgu oedd i fod i arwain at gymwysterau(18%).
- Derbyn hyfforddiant dan oruchwyliaeth wrth gyflawni swydd (15%).
- Cwrs addysgu, cyfarwyddiadau neu hyfforddiant arall, er enghraifft dosbarth nos (10%).

Roedd rhai gwahaniaethau amlwg o ran demograffeg bersonol:

- Roedd ymatebwyr ifanc yn fwy tebygol o fod wedi bod yn gyfrannog mewn hyfforddiant – roedd pobl ifanc 16 i 18 oed yn arbennig o debygol o fod wedi cymryd cwrs a fyddai'n arwain at gymhwyster (65%).
- Roedd ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd AB yn llawer mwy tebygol na phobl o grwpiau cymdeithasol economaidd is o fod wedi bod ar gwrs addysgu yn ystod y 12 mis a oedd yn arwain at gymhwyster (28%), o dreulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau yn y math o waith y maent yn ei wneud (38%) neu wedi bod ar ryw gwrs addysgu neu hyfforddiant arall, er enghraifft e-ddysgu (9%).
- Yr uchaf eu grŵp cymdeithasol economaidd, y lleiaf tebygol oedd ymatebwyr o ddweud nad oeddent wedi cymryd rhan mewn unrhyw ddysgu yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Roedd ymatebwyr y bu digwyddiad mawr yn eu bywydau yn ddiweddar (er enghraifft cael babi, newid swydd, neu fynd trwy ysgariad) gryn dipyn yn fwy tebygol o fod wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, er enghraifft, cyrsiau sefydlu staff ac yn y blaen (24%), wedi bod ar gwrs addysgu a gynlluniwyd i

bod ar gwrs addysgu a gynlluniwyd i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio yn eich swydd (22%), treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau yn y math o waith y maent yn ei wneud (22%), derbyn hyfforddiant dan oruchwyliaeth pan maent wrthi yn gwneud eu gwaith (18%) neu wedi cael credyd/cam tuag at gymhwyster na phobl oedd heb gael digwyddiad mawr yn eu bywydau yn ddiweddar (6%).

- O gymharu â phobl oedd â lefel is o gymwysterau, roedd ymatebwyr oedd wedi eu cymhwyso at lefel gradd neu lefel gyfatebol (CGC lefel 4) yn dipyn mwy tebygol o fod wedi mynychu cyrsiau addysgu neu gyrsiau cyffredinol, neu o fod wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau yn y math o waith yr oeddent yn ei wneud. Dim ond 25% oedd heb ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn cymharu ag 82% o'r rhai oedd heb ddim cymwysterau a 56% o'r rhai oedd â chymwysterau CGC lefel 1 neu gyfatebol.

### 2.2.1 Pynciau a astudiwyd yn ystod y 12 mis diwethaf

Gofynnwyd i ymatebwyr oedd wedi bod yn gyfrannog mewn dysgu neu hyfforddi yn ystod y 12 mis diwethaf (ac eithrio rhai oedd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn y gwaith neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau) pa bynciau y buont yn eu hastudio. Astudiwyd amrediad eang o bynciau ond roedd dros eu chwarter (27%) wedi dilyn rhyw fath o hyfforddiant technoleg gwybodaeth. Roedd cyrsiau eraill a astudiwyd gan 5% neu fwy o'r rhai a fu'n gyfrannog mewn unrhyw hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Iechyd a Diogelwch/cymorth cyntaf (13%).
- Dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol, er enghraifft seicoleg, hanes, llenyddiaeth Saesneg (9%).
- Crefftau, er enghraifft coginio, gwnio, crochenwaith, DIY (7%).
- Gofal Iechyd, cymdeithasol a gofal plant (6%).
- Gwyddoniaeth a mathemateg (5%).

Roedd y math o bwnc oedd yn cael ei astudio yn cael ei effeithio gan oedran, rhyw a statws cyflogaeth yr ymatebydd.

- Roedd dynion yn dipyn mwy tebygol na merched o fod wedi astudio gwaith crefftau adeiladu, er enghraifft gwaith plymio, addurno (6%) a sgiliau peirianneg a gweithgynhyrchu (6%).
- Roedd merched yn fwy tebygol na dynion o fod wedi astudio pwnc yn ymwneud â'r proffesiwn meddygol (6%), trin gwallt neu therapi harddwch (3%), iechyd a ffitrwydd (2%) a sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid (2%) (nid oedd unrhyw ddynion wedi astudio trin gwallt na therapi harddwch, iechyd a ffitrwydd na sgiliau gwasanaethau cwsmeriaid).
- Roedd ymatebwyr a oedd naill wedi ymddeol (30%) neu a oedd yn 55 oed neu fwy (20%) yn arbennig o debygol o fod wedi astudio crefft, er enghraifft coginio, gwnio, crochenwaith neu DIY.
- Roedd ymatebwyr ifanc (hynny yw pobl 16 i 18 oed) yn dipyn mwy tebygol na'u hynafiaid o fod wedi astudio gwyddoniaeth a mathemateg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (36%), Saesneg (29%) neu Hamdden, teithio a thwristiaeth (19%).
- Roedd Iechyd a Diogelwch neu gymorth cyntaf yn llawer mwy tebygol o gael ei astudio gan bobl mewn gwaith na gan ymatebwyr sydd ddim mewn gwaith

### 2.2.2 A yw'r cyrsiau yn arwain at gymhwyster neu dystysgrif

Roedd mwy na dau o bob tri (68%) o'r cyrsiau a ddilynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf yn gallu arwain at gymhwyster neu dystysgrif. Roedd oedran, statws cyflogaeth a phrofi digwyddiad mawr yn eich bywyd yn ffactorau a oedd yn dylanwadu ar ymatebwyr, o ran dilyn cwrs a fyddai'n arwain at gymhwyster.





**Tabl 2.1: Cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y 12 mis diwethaf yn ôl oedran a statws cyflogaeth**

| | | Oed | | | | | | Statws Gwaith | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser | Hunan gyflogedig | Ddim mewn gwaith | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 87 | 175 | 343 | 385 | 281 | 732 | 603 | 229 | 98 | 451 | 517 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | **75 | 176 | 370 | 383 | 280 | 723 | 746 | 263 | **125 | 306 | 472 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar unrhyw gyrsiau cyffredinol yn y gwaith, e.e. sefydlu staff, iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf | 21 | 21 | 37 | 36 | 27 | 24 | 7 | 39 | 26 | 17 | 8 | 1 |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd | 20 | 23 | 30 | 35 | 27 | 23 | 6 | 35 | 22 | 16 | 11 | 2 |
| Wedi treulio amser yn cadw i fyny gyda'r datblygiadau yn y math o waith yr ydych yn ei wneud | 20 | 16 | 25 | 28 | 26 | 25 | 9 | 34 | 23 | 18 | 9 | 3 |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu oedd i fod i arwain at gymwysterau | 18 | 65 | 36 | 22 | 20 | 16 | 6 | 24 | 18 | 11 | 11 | 3 |
| Wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth pan oeddech yn gwneud eich gwaith | 15 | 25 | 32 | 25 | 17 | 16 | 3 | 27 | 21 | 3 | 6 | 1 |
| Wedi bod ar unrhyw gwrs addysgu, hyfforddiant neu gyfarwyddyd arall, e.e. dosbarth nos | 10 | 11 | 12 | 12 | 9 | 7 | 10 | 12 | 7 | 7 | 7 | 9 |
| Wedi cael credyd/cam tuag at gymhwyster | 5 | 10 | 9 | 6 | 8 | 7 | 1 | 9 | 8 | – | 2 | * |
| Wedi astudio am gymwysterau heb gymryd rhan mewn cwrs addysgu | 4 | 10 | 6 | 8 | 6 | 2 | 1 | 8 | 2 | 1 | 3 | * |
| Unrhyw gwrs addysgu neu hyfforddiant arall, e.e. e-ddysgu | 4 | 4 | 3 | 6 | 7 | 5 | 2 | 7 | 3 | 5 | 4 | 1 |
| Dim un o'r rhain | 50 | 10 | 25 | 35 | 42 | 45 | 74 | 31 | 34 | 53 | 68 | 83 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 4% neu fwy. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

**Tabl 2.2: Cyfranogiad mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y 12 mis diwethaf yn ôl grŵp cymdeithasol economaidd a digwyddiad mawr yn eu bywyd**

| | | Grŵp cymdeithasol economaidd | | | | Digwyddiad mawr yn eu bywydnt | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE | Oes | Nac oes |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 336 | 452 | 463 | 758 | 1172 | 835 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 399 | 499 | 479 | 633 | 1165 | 842 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar unrhyw gyrsiau cyffredinol yn y gwaith, e.e. sefydlu staff, iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf | 21 | 30 | 26 | 24 | 11 | 24 | 17 |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd | 20 | 30 | 24 | 21 | 11 | 22 | 18 |
| Wedi treulio amser yn cadw i fyny gyda'r datblygiadau yn y math o waith yr ydych yn ei wneud | 20 | 38 | 25 | 14 | 8 | 22 | 16 |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu oedd i fod i arwain at gymwysterau | 18 | 28 | 20 | 15 | 12 | 17 | 19 |
| Wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth pan oeddech yn gwneud eich gwaith | 15 | 19 | 16 | 18 | 9 | 18 | 11 |
| Wedi bod ar gwrs addysgu, hyfforddiant neu gyfarwyddyd arall, e.e. dosbarth nos | 10 | 16 | 12 | 8 | 6 | 10 | 10 |
| Wedi cael credyd/cam tuag at gymhwyster | 5 | 9 | 6 | 5 | 2 | 6 | 4 |
| Wedi astudio am gymwysterau heb gymryd rhan mewn cwrs addysgu | 4 | 8 | 5 | 3 | 2 | 5 | 4 |
| Unrhyw gwrs addysgu neu hyfforddiant arall, er enghraifft e-ddysgu | 4 | 9 | 5 | 3 | 3 | 5 | 3 |
| Dim un o'r rhain | 50 | 31 | 42 | 52 | 67 | 47 | 53 |

Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 4% neu fwy. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'





**Tabl 2.3: Cyfranogiad mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y 12 mis diwethaf yn ôl lefel cymwysterau**

| | | Lefel cymwysterau*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Dim cymwysterau | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 229 | 397 | 322 | 391 | 51 | 404 | 215 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 219 | 393 | 344 | 451 | **64 | 337 | 201 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar unrhyw gyrsiau cyffredinol yn y gwaith, e.e. sefydlu staff, iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf | 21 | 18 | 25 | 26 | 35 | 28 | 4 | 8 |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd | 20 | 21 | 24 | 22 | 33 | 24 | 4 | 8 |
| Wedi treulio amser yn cadw i fyny gyda'r datblygiadau yn y math o waith yr ydych yn ei wneud | 20 | 11 | 16 | 21 | 40 | 49 | 3 | 5 |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu oedd i fod i arwain at gymwysterau | 18 | 11 | 22 | 24 | 28 | 26 | 5 | 4 |
| Wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth pan oeddech yn gwneud eich gwaith | 15 | 14 | 19 | 17 | 22 | 12 | 5 | 5 |
| Wedi bod ar gwrs addysgu, hyfforddiant neu gyfarwyddyd arall, e.e. dosbarth nos | 10 | 9 | 10 | 11 | 15 | 17 | 4 | 6 |
| Wedi cael credyd/cam tuag at gymhwyster | 5 | 3 | 5 | 7 | 11 | 6 | * | 2 |
| Wedi astudio am gymwysterau heb gymryd rhan mewn cwrs addysgu | 4 | 3 | 3 | 6 | 8 | 14 | 1 | * |
| Unrhyw gwrs addysgu neu hyfforddiant arall, e.e. e-ddysgu | 4 | 2 | 3 | 5 | 9 | 11 | * | 3 |
| Dim un o'r rhain | 50 | 56 | 42 | 44 | 25 | 22 | 82 | 79 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Mae'r lefel cymwysterau yn cyfateb i lefelau CGC 1 – 5.
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 4% neu fwy. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

**Tabl 2.4: Pynciau a astudiwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ôl rhyw**

| | | Rhyw | |
|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf | Cyfanswm | Dynion | Merched |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 584 | 267 | 317 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 596 | 298 | 298 |
| | % | % | % |
| Tech Gwyb/ Cyfrifiaduron | 27 | 26 | 28 |
| Iechyd a Diogelwch | 13 | 13 | 13 |
| Dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol, e.e. seicoleg, hanes, llenyddiaeth Saesneg | 9 | 6 | 12 |
| Crefftau, er enghraifft, coginio, gwnio, crochenwaith, DIY | 7 | 5 | 9 |
| Gofal iechyd, cymdeithasol a gofal plant | 6 | 2 | 10 |
| Gwyddoniaeth a mathemateg | 5 | 4 | 6 |
| Ieithoedd – Saesneg | 4 | 3 | 5 |
| Ieithoedd –Cymraeg | 4 | 3 | 5 |
| Ieithoedd – Arall | 4 | 5 | 3 |
| Sgiliau rheoli | 4 | 5 | 3 |
| Cwrs hyfforddiant cysylltiedig â gwaith | 4 | 5 | 4 |
| Gweinyddu busnes, er enghraifft cyfrifon/cadw llyfrau | 3 | 3 | 3 |
| Adeiladu, gan gynnwys crefftau cysylltiedig fel gwaith plymio, addurno | 3 | 6 | 1 |
| Sgiliau peirianyddol a gweithgynhyrchu | 3 | 6 | * |
| Hamdden, teithio a thwristiaeth (gan gynnwys chwaraeon) | 3 | 5 | 2 |
| Y Gyfraith | 3 | 3 | 3 |
| Y proffesiwn meddygol | 3 | 1 | 6 |
| Sgiliau perthnasol i addysgu | 3 | 3 | 3 |
| Y Celfyddydau perfformio, dawns, drama, cerddoriaeth | 3 | 5 | 2 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% neu fwy. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'





## Tabl 2.5: Pynciau a astudiwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl oed a statws cyflogaeth

| | | Oed | | | | | | Statws cyflogaeth | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi cael unrhyw hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser | Ddim mewn gwaith | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 584 | 61 | 78 | 114 | 124 | 81 | 123 | 203 | 82 | 109 | 77 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 596 | **53 | **81 | 122 | 124 | **83 | 134 | 244 | **94 | **77 | **72 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Tech Gwyb/Cyfrifiaduron | 27 | 28 | 24 | 17 | 26 | 29 | 36 | 28 | 21 | 28 | 30 |
| Iechyd a Diogelwch | 13 | 2 | 14 | 22 | 15 | 13 | 8 | 20 | 17 | 9 | – |
| Dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol, e.e. seicoleg, hanes, llenyddiaeth Saesneg | 9 | 28 | 13 | 5 | 3 | 6 | 11 | 4 | 8 | 9 | 13 |
| Crefftau, er enghraifft, coginio, gwnio, crochenwaith, DIY | 7 | 10 | 5 | 3 | * | 5 | 20 | 2 | 3 | 8 | 30 |
| Gofal iechyd, cymdeithasol a gofal plant | 6 | 10 | 9 | 4 | 10 | 6 | 1 | 5 | 9 | 10 | – |
| Gwyddoniaeth a mathemateg | 5 | 36 | 5 | 2 | 4 | – | 1 | 4 | 3 | 7 | 2 |
| Ieithoedd – Saesneg | 4 | 29 | 3 | 2 | 1 | – | 1 | 2 | 1 | 5 | 2 |
| Ieithoedd – Cymraeg | 4 | 10 | 2 | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 | 1 | 6 | 5 |
| Ieithoedd – Arall | 4 | 9 | 1 | * | 7 | 1 | 5 | 3 | 1 | 2 | 9 |
| Sgiliau rheoli | 4 | – | 4 | 6 | 4 | 2 | 5 | 8 | 2 | 2 | – |
| Cwrs hyfforddiant cysylltiedig â gwaith | 4 | – | 1 | 13 | 6 | 2 | 1 | 7 | 4 | 2 | – |
| Gweinyddu busnes, er enghraifft cyfrifon/cadw llyfrau | 3 | 3 | 4 | 2 | 3 | 7 | 1 | 3 | 6 | 6 | 1 |
| Adeiladu, gan gynnwys crefftau cysylltiedig fel gwaith plymio, addurno | 3 | 2 | 4 | 5 | 2 | 4 | 1 | 4 | – | 3 | – |
| Sgiliau peirianyddol a gweithgynhyrchu | 3 | 3 | 5 | 4 | 2 | 2 | 3 | 3 | 1 | 5 | 5 |
| Hamdden, teithio a thwristiaeth (gan gynnwys chwaraeon) | 3 | 19 | 3 | 1 | 1 | 2 | * | 1 | – | 5 | 1 |
| Y Gyfraith | 3 | 4 | 6 | 1 | 1 | 5 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Y proffesiwn meddygol | 3 | – | 3 | 6 | 7 | 1 | 2 | 4 | 8 | – | – |
| Sgiliau perthnasol i addysgu | 3 | – | – | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 | 4 | 2 | 3 |
| Y Celfyddydau perfformio, dawns, drama, cerddoriaeth | 3 | 6 | 5 | – | 2 | 2 | 7 | 2 | 2 | 2 | 10 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) *** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi derbyn hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn y gwaith, neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

**Tabl 2.6: A oedd y cyrsiau wedi cael eu dylunio fel eu bod yn arwain at gymhwyster neu dystysgrif – dadansoddiad yn ôl oedran a statws cyflogaeth**

| | | Oed | | | | | | Statws cyflogaeth | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser | Ddim mewn gwaith | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 584 | 61 | 78 | 114 | 124 | 81 | 123 | 203 | 82 | 109 | 77 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 596 | **53 | **81 | 122 | 124 | **83 | 134 | 244 | **94 | 77 | **72 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Oeddent | 68 | 95 | 85 | 71 | 64 | 60 | 53 | 65 | 71 | 72 | 42 |
| Nac Oeddent | 32 | 4 | 15 | 29 | 35 | 38 | 47 | 35 | 28 | 27 | 58 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 1 | – | – | 1 | 2 | – | * | 1 | * | – |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) ***Ac eithrio rhai sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi derbyn hyfforddiant dan oruchwyliaeth neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau.
Nodyn: Cwestiwn ymateb sengl.

**Tabl 2.7: A oedd y cyrsiau i fod i arwain at gymhwyster neu dystysgrif oherwydd digwyddiad mawr yn eich bywyd**

| | | Digwyddiad diweddar yn eich bywyd | |
|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm | Oedd | Nac oedd |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 584 | 332 | 251 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 596 | 343 | 252 |
| | % | % | % |
| Oedd | 68 | 63 | 75 |
| Nac oedd | 32 | 36 | 25 |
| Ddim yn gwybod | 1 | * | 1 |

***Ac eithrio rhai sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi derbyn hyfforddiant dan oruchwyliaeth neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau. Nodyn: Cwestiwn ymateb sengl.

- Roedd ymatebwyr 25 mlwydd oed (88%) yn dipyn mwy tebygol o fod wedi dilyn cwrs a oedd yn arwain at gymhwyster neu dystysgrif nag ymatebwyr hŷn (62%).
- Roedd ymatebwyr oedd heb brofi digwyddiad mawr yn eu bywyd (75%) dipyn mwy tebygol na'r rhai a oedd heb brofi hynny (63%) o fod ar gwrs a fyddai'n arwain at gymhwyster.
- Ymatebwyr oedd wedi ymddeol oedd leiaf tebygol o fod yn dilyn cwrs a fyddai'n arwain at gymwysterau (58%).

### 2.2.3 Y mathau o gymwysterau yr ymgymerwyd â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf

Roedd yr ymatebwyr wedi dilyn amrywiaeth o gyrsiau a oedd yn arwain naill ai at gymhwyster neu at dystysgrif. Roedd dau o bob deg (21%) ymatebydd wedi astudio CGC, gydag un arall o bob deg naill ai yn gwrs gradd (11%), TGAU (11%) neu gymhwyster City and Guilds (9%).

Roedd gwahaniaethau mewn oedran, rhyw ac amgylchiadau cymdeithasol economaidd yn amlwg.





## Tabl 2.8: Y cymwysterau a enillwyd neu yr astudir ar eu cyfer, yn ôl rhyw ac oedran

| | | Rhyw | | Oed | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd i fod i arwain at gymhwyster neu dystysgrif | Cyfanswm | Dynion | Merched | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 403 | 178 | 225 | 57 | 67 | 82 | 79 | 53 | 64 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 405 | 200 | 205 | **50 | **69 | **87 | **79 | **50 | **70 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| CGC – Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol | 21 | 17 | 24 | 17 | 22 | 22 | 19 | 31 | 14 |
| Cymhwyster galwedigaethol proffesiynol arall | 12 | 14 | 10 | – | 3 | 17 | 20 | 14 | 11 |
| Gradd (BA, BSc) | 11 | 13 | 10 | 8 | 32 | 10 | 8 | 6 | 3 |
| TGAU | 11 | 11 | 10 | 20 | 15 | 11 | 12 | 2 | 4 |
| Cymhwyster City & Guild | 9 | 12 | 5 | 6 | 6 | 3 | 10 | 5 | 21 |
| Trwydded Yrru | 8 | 8 | 7 | 2 | 3 | 14 | 12 | 2 | 7 |
| Safon Uwch | 7 | 6 | 8 | 21 | 6 | 3 | 5 | 5 | 5 |
| Diploma mewn Addysg Uwch | 5 | 5 | 5 | 4 | 10 | 4 | 8 | 1 | 2 |
| Cymhwyster addysgu, gan gynnwys TAR | 4 | 2 | 5 | 3 | 2 | 6 | 3 | – | 2 |
| Gradd uwch (e.e. PhD, MSc) | 4 | 3 | 4 | – | 2 | 6 | 8 | – | 3 |
| CGCC – Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffrol | 4 | 3 | 5 | 7 | 6 | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Cymwysterau academaidd proffesiynol eraill (nad ydynt wedi eu cynnwys uchod) | 4 | 4 | 4 | – | 2 | 2 | 6 | 4 | 7 |
| Safon Uwch/Uwch Gyfrannol | 3 | 4 | 3 | 13 | 3 | – | 2 | 3 | 3 |
| Cymhwyster BTEC, BEC, TEC, SCOTBEC, SCOTEC neu SCOTVEC | 3 | 2 | 4 | 7 | 5 | 1 | 4 | 4 | 2 |
| Cymhwyster RSA/OCR | 3 | – | 5 | 2 | 3 | 4 | 4 | 2 | – |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero  ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

### Tabl 2.9: Y cymwysterau a enillwyd gan y grŵp cymdeithasol economaidd


| Sylfaen: Pawb sydd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd i fod i arwain at gymhwyster neu dystysgrif | Cyfanswm | Grŵp cymdeithasol economaidd AB | C1 | C2 | DE |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen heb ei bwysoli | 403 | 87 | 106 | 94 | 116 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 405 | **101 | 116 | **93 | 95 |
| | % | % | % | % | % |
| CGC – Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol | 21 | 12 | 14 | 30 | 28 |
| Cymhwyster galwedigaethol proffesiynol arall | 12 | 13 | 14 | 15 | 4 |
| Gradd (BA, BSc) | 11 | 11 | 19 | 5 | 8 |
| TGAU | 11 | 7 | 9 | 13 | 15 |
| Cymhwyster City & Guild | 9 | 9 | 10 | 7 | 8 |
| Trwydded Yrru | 8 | 9 | 6 | 7 | 8 |
| Safon Uwch | 7 | 8 | 7 | 3 | 7 |
| Diploma mewn Addysg Uwch | 5 | 4 | 9 | 4 | 2 |
| Cymhwyster addysgu, gan gynnwys TAR | 4 | 9 | 2 | 2 | 1 |
| Gradd uwch (e.e. PhD, MSc) | 4 | 11 | 2 | – | 2 |
| CGCC – Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffrol | 4 | 4 | 3 | 1 | 7 |
| Cymwysterau academaidd proffesiynol eraill (nad ydynt wedi eu cynnwys uchod) | 4 | 6 | 5 | – | 2 |
| Safon Uwch/ Uwch Gyfrannol | 3 | 4 | 1 | 4 | 5 |
| Cymhwyster BTEC, BEC, TEC, SCOTBEC, SCOTEC neu SCOTVEC | 3 | 3 | 4 | 2 | 5 |
| Cymhwyster RSA/OCR | 3 | 2 | 3 | 3 | 2 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'



O ran ennill cymhwyster, yr oedd bron i un o bob tri o'r ymatebwyr (32%) yn dal i ddilyn y cwrs, ond roedd 57% wedi ennill y cymhwyster.

**Siart 2.1: A enillwyd y cymhwyster**




Sylfaen: Pob ymatebydd sydd wedi bod ar unrhyw hyfforddiant neu ddysgu sydd yn arwain at gymhwyster neu dystysgrif yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (heb ei bwysoli = 403; wedi ei bwysoli = 405)

- Roedd dynion (12%) a phobl 55 oed a throsodd (22%) yn arbennig o debygol o fod wedi dilyn cymhwyster City and Guilds.
- Fel y gellid disgwyl, roedd pobl ifanc 16 – 18 oed yn fwy tebygol o fod wedi dilyn cwrs Safon Uwch/Uwch Gyfrannol (13%) neu Safon Uwch (21%) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na phobl o grŵp oedran hŷn. Roedd pobl 19 – 24 oed yn fwy tebygol o fod wedi dilyn cwrs gradd (32%).
- Roedd grŵp cymdeithasol economaidd yr ymatebydd yn effeithio ar gymwysterau a ddilynwyd hefyd, gyda thipyn mwy o ymatebwyr yn y categori AB yn cymryd gradd uwch (11%) neu Dystysgrif Addysg i Raddedigion (7%) na phobl yn y grwpiau cymdeithasol economaidd is. Ar y llaw arall roedd ymatebwyr yn grŵp C2 (30%) neu DE (28%) yn fwy tebygol o ddilyn CGC.

### 2.2.4 Ai rhan amser ynteu llawn amser oedd y dysgu neu'r hyfforddiant

Roedd hyn yn weddol gyfartal ar draws y bwrdd, gyda bron i dri o bob deg (29%) yn dilyn cyrsiau llawn amser ac ychydig dros draean yn dilyn cwrs rhan amser o fwy na thair awr yr wythnos (35%) neu gwrs o deirawr neu lai yr wythnos (36%). Fel y gallech ddisgwyl roedd oed a statws cyflogaeth yn dylanwadu ar y math o gwrs y byddid yn ei ddilyn.

- Roedd mwy o'r ymatebwyr oedd o dan 25 oed (72%) yn cymryd rhan mewn cyrsiau llawn amser nag o'r rhai hŷn (16%).
- Roedd ymatebwyr oedd wedi ymddeol yn arbennig o debygol o fod wedi cymryd cwrs rhan amser o dair awr neu lai yr wythnos (63%). Ond roedd nifer y bobl 55 oed a throsodd oedd yn dilyn cyrsiau o lai na 3 awr yr wythnos yn cyfateb yn weddol gyfartal i'r nifer oedd ar gyrsiau o fwy na thair awr.

### 2.2.5 Darparwyr Cyrsiau

Dangoswyd rhestr o ddarparwyr cyrsiau i'r ymatebwyr oedd wedi bod yn gwneud unrhyw ddysgu neu hyfforddi yn ystod y 12 mis diwethaf (ac eithrio rhai oedd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn y gwaith, neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau) a gofynnwyd iddynt a oedd y cwrs yn cael ei redeg gan un o'r darparwyr posib hynny. Dywedodd mwy na'u chwarter (28%) mai eu cyflogwr oedd yn rhedeg y cwrs y buont arno, a dim ond mewn dau achos o bob deg (19%) yr oedd y cwrs yn cael ei ddarparu gan Brifysgol neu goleg addysg uwch.

Roedd y darparwyr eraill a ddefnyddiwyd gan yr ymatebwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Coleg addysg bellach neu goleg trydyddol (14%).
- Corff proffesiynol (10%).

**Tabl 2.10: A oedd y dysgu yn llawn amser ynteu'n rhan amser, yn ôl oed a statws cyflogaeth**

| | | Oed | | | | | | Statws cyflogaeth | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser | Ddim mewn gwaith | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 584 | 61 | 78 | 114 | 124 | 81 | 123 | 203 | 82 | 109 | 77 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 596 | **53 | **81 | 122 | 124 | **83 | 134 | 244 | **94 | 77 | **72 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Llawn amser | 29 | 86 | 63 | 28 | 18 | 16 | 4 | 20 | 20 | 33 | 4 |
| Rhan amser – mwy na 3 awr yr wythnos | 35 | 14 | 24 | 32 | 42 | 45 | 42 | 40 | 35 | 44 | 33 |
| Rhan amser – 3 awr neu lai yr wythnos | 36 | 1 | 13 | 41 | 40 | 40 | 54 | 40 | 45 | 23 | 63 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) *** Ac eithrio rhai sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi derbyn hyfforddiant dan oruchwyliaeth neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau
Nodyn: Cwestiwn ymateb sengl. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

- Canolfan addysg oedolion/athrofa/coleg preswyl (10%).
- Cyngor lleol/Awdurdod lleol (10%).

Roedd oedran, statws cyflogaeth a grŵp cymdeithasol-economaidd hefyd yn dylanwadu ar y darparwr a ddewiswyd ar gyfer hyfforddiant neu ddysgu:

- Roedd ymatebwyr oedd mewn gwaith yn dipyn mwy tebygol na grwpiau eraill o fynd ar gwrs oedd yn cael ei ddarparu gan eu cyflogwr (45%) neu gorff proffesiynol (15%).
- Roedd ymatebwyr 19 – 24 oed yn llawer mwy tebygol o fod wedi bod mewn prifysgol neu goleg addysg uwch (41%).
- Roedd ymatebwyr 16 – 18 mlwydd oed (47%) yn arbennig o debygol o fod wedi mynychu ysgol neu sefydliad addysgol.
- Roedd ymatebwyr oedd wedi ymddeol yn fwy tebygol na grwpiau eraill o fod ar gyrsiau a ddarperir gan ganolfan addysg oedolion (27%) neu gyngor lleol/awdurdod lleol (20%).
- Roedd ymatebwyr yn grŵp cymdeithasol economaidd AB yn arbennig o debygol o fod wedi cael hyfforddiant a ddarparwyd gan gorff proffesiynol (20%).
- Roedd ymatebwyr yn y grŵp cymdeithasol economaidd AB a C1 hefyd yn fwy tebygol o fod wedi mynd i brifysgol neu goleg addysg uwch (26%) na rhai yn y categori C2 neu DE (11%).
- Roedd ymatebwyr yn y grŵp cymdeithasol economaidd DE yn dipyn mwy tebygol o fod wedi derbyn hyfforddiant trwy'r ganolfan waith/clwb gwaith (7%) neu sefydliad cymunedol (7%) nag yr oedd ymatebwyr yn grwpiau AB, C1 neu C2 (1%).





**Tabl 2.11: A oedd y cwrs yn cael ei redeg gan unrhyw un o'r darparwyr ar y rhestr hon, yn ôl oedran a statws cyflogaeth**

| | | Oed | | | | | | Statws cyflogaeth | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser | Ddim mewn gwaith | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 584 | 61 | 78 | 114 | 124 | 81 | 123 | 203 | 82 | 109 | 77 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 596 | **53 | **81 | 122 | 124 | **83 | 134 | 244 | **94 | **77 | **72 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Eich cyflogwr | 28 | 5 | 21 | 41 | 44 | 31 | 14 | 47 | 38 | 12 | 4 |
| Prifysgol neu goleg addysg uwch | 19 | 11 | 41 | 15 | 20 | 9 | 17 | 13 | 17 | 21 | 16 |
| Coleg addysg bellach neu drydyddol | 14 | 25 | 21 | 15 | 8 | 11 | 12 | 13 | 15 | 18 | 9 |
| Canolfan addysg i oedolion/athrofa/ coleg preswyl | 10 | 2 | 7 | 6 | 12 | 13 | 16 | 6 | 11 | 15 | 27 |
| Cyngor lleol/Awdurdod lleol | 10 | 10 | 7 | 7 | 6 | 10 | 20 | 9 | 6 | 13 | 20 |
| Corff proffesiynol | 10 | – | 3 | 13 | 13 | 18 | 8 | 18 | 8 | 2 | 3 |
| Ysgol neu sefydliad addysgol arall | 7 | 47 | 3 | 4 | 1 | 5 | 5 | 3 | 4 | 9 | 6 |
| Canolfan waith/clwb gwaith | 3 | 5 | 7 | 3 | * | 2 | 2 | 1 | 1 | 13 | – |
| Corff gwirfoddol | 2 | – | – | 1 | * | 4 | 5 | 1 | 5 | – | 4 |
| Corff cymunedol | 2 | – | 2 | 3 | 2 | 3 | 4 | 2 | 3 | 6 | 4 |
| Cymdeithas Addysg y Gweithwyr | 2 | – | – | 2 | – | 1 | 8 | 2 | – | 3 | 7 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi derbyn hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn y gwaith, neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 2% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

**Tabl 2.12: A oedd y cwrs yn cael ei redeg gan unrhyw un o'r darparwyr ar y rhestr hon yn ôl grŵp cymdeithasol economaidd**

| | | Grŵp cymdeithasol economaidd | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf*** | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 584 | 129 | 153 | 130 | 172 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 596 | 151 | 170 | 132 | 143 |
| | % | % | % | % | % |
| Eich cyflogwr | 28 | 23 | 31 | 33 | 26 |
| Prifysgol neu goleg addysg uwch | 19 | 28 | 24 | 8 | 13 |
| Coleg addysg bellach neu drydyddol | 14 | 10 | 16 | 15 | 14 |
| Canolfan addysg i oedolion/athrofa/coleg preswyl | 10 | 11 | 7 | 12 | 12 |
| Cyngor lleol/Awdurdod lleol | 10 | 11 | 7 | 14 | 9 |
| Corff proffesiynol | 10 | 20 | 10 | 3 | 4 |
| Ysgol neu sefydliad addysgol arall | 7 | 9 | 4 | 7 | 10 |
| Canolfan waith/clwb gwaith | 3 | – | 1 | 3 | 7 |
| Corff gwirfoddol | 2 | 4 | – | 3 | 2 |
| Corff cymunedol | 2 | 1 | 1 | 1 | 7 |
| Cymdeithas Addysg y Gweithwyr | 2 | 3 | 1 | 3 | 3 |

Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 2% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'
*** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi derbyn hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn y gwaith, neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau

## 2.3 Cyfranogiad mewn hyfforddiant neu ddysgu dros y tair blynedd ddiwethaf

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi cymryd rhan mewn unrhyw fath o hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Roedd chwech o bob deg (60%) heb fod yn gyfrannog mewn unrhyw fath o'r dysgu a restrwyd, yn ystod y tair blynedd. Hefyd roedd y grŵp hwn o ymatebwyr yn dipyn mwy tebygol o fod yn 55 oed neu fwy (65%), wedi ymddeol (73%) yn grŵp cymdeithasol economaidd DE (57%) ac wedi ymadael â'r ysgol yn 16 oed neu lai (51%).





**Tabl 2.13: Cymryd rhan mewn unrhyw fath o hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, yn ôl oedran a statws cyflogaeth**

| | | Oed | | | | | | Statws cyflogaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser | Hunan gyflogedig | Ddim mewn gwaith | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 87 | 175 | 343 | 385 | 281 | 732 | 603 | 229 | 98 | 451 | 517 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | **75 | 176 | 370 | 383 | 280 | 723 | 746 | 263 | **125 | 306 | 472 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu oedd i fod i arwain at gymwysterau | 27 | 84 | 55 | 34 | 32 | 23 | 9 | 35 | 33 | 21 | 20 | 6 |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd | 29 | 35 | 46 | 46 | 37 | 34 | 8 | 46 | 36 | 21 | 19 | 3 |
| Wedi bod ar unrhyw gwrs cyffredinol yn y gwaith, er enghraifft sefydlu staff, hyfforddiant, lechyd a diogelwch, neu gymorth cyntaf | 28 | 32 | 44 | 48 | 36 | 31 | 9 | 49 | 35 | 22 | 13 | 3 |
| Wedi bod ar gwrs addysgu, hyfforddiant neu gyfarwyddyd arall, e.e. dosbarth nos | 17 | 13 | 16 | 20 | 17 | 14 | 17 | 19 | 16 | 17 | 10 | 17 |
| Wedi treulio amser yn cadw i fyny gyda'r datblygiadau yn y math o waith yr ydych yn ei wneud | 25 | 19 | 33 | 33 | 32 | 32 | 12 | 40 | 30 | 21 | 11 | 7 |
| Wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth pan oeddech yn gwneud eich gwaith | 20 | 27 | 40 | 33 | 27 | 20 | 5 | 35 | 29 | 9 | 10 | 2 |
| Wedi cael credyd/cam tuag at gymhwyster | 8 | 12 | 11 | 12 | 12 | 8 | 2 | 14 | 10 | 2 | 3 | 1 |
| Unrhyw gwrs addysgu neu hyfforddiant arall, e.e. e-ddysgu | 7 | 4 | 5 | 10 | 10 | 6 | 4 | 11 | 4 | 9 | 5 | 3 |
| Wedi astudio am gymwysterau heb gymryd rhan mewn cwrs addysgu | 6 | 11 | 9 | 12 | 9 | 4 | 2 | 12 | 4 | 4 | 4 | 1 |
| Dim un o'r rhain | 40 | 5 | 16 | 24 | 31 | 31 | 65 | 22 | 23 | 42 | 56 | 73 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 2% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

## 2.4 Cyfranogiad mewn hyfforddiant neu ddysgu fwy na thair blynedd yn ôl

Gofynnwyd i ymatebwyr oedd heb wneud unrhyw ddysgu yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf pa bryd yr oedd y tro diwethaf iddynt gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant neu ddysgu. Dywedodd bron i saith o bob deg (69%) y bu'n fwy na 10 mlynedd yn ôl – roedd yr ymatebwyr hyn yn arbennig o debygol o fod yn 55+ oed (80%), wedi ymddeol (81%) a heb gael digwyddiad mawr diweddar yn eu bywyd (76%). Roedd ychydig o dan ddau o bob deg (19%) wedi bod yn gyfrannog mewn unrhyw hyfforddiant neu ddysgu ddiwethaf fwy na 5 mlynedd yn ôl ond llai na 10 mlynedd yn ôl, ac roedd 9% yn gyfrannog fwy na 3 blynedd yn ôl ond llai na 5 mlynedd yn ôl.

### 2.4.1 Y mathau o ddysgu neu hyfforddiant yr oeddent yn gyfrannog ynddynt (fwy na thair blynedd yn ôl)

Roedd bron i chwarter yr ymatebwyr oedd heb gymryd rhan mewn unrhyw ddysgu yn ystod y tair blynedd flaenorol wedi cymryd rhan cyn hynny mewn cyrsiau addysgu oedd i fod i arwain at gymhwyster (24%) neu gyrsiau addysgu oedd wedi eu cynllunio er mwyn eu helpu i ddatblygu sgiliau y gallent eu defnyddio yn eu gwaith (24%).

Roedd mwy na 5% o'r ymatebwyr wedi:

- Cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth tra roeddent wrthi yn gwneud eu gwaith (19%)
- Bod ar unrhyw gwrs cyffredinol yn y gwaith, er enghraifft cyrsiau sefydlu staff, iechyd a diogelwch neu hyfforddiant cymorth cyntaf (14%)

**Tabl 2.14: Y tro diwethaf iddynt gymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu, yn ôl oedran, statws cyflogaeth a digwyddiad mawr diweddar yn eu bywyd**

| | | Oed*** | | | | Statws cyflogaeth | | | | | Digwyddiad diweddar yn eich bywyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb oedd ddim wedi cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf. | Cyfanswm | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser | Hunan gyflogedig | Ddim mewn gwaith | Wedi ymddeol | Oes | Nac oes |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 869 | 89 | 132 | 100 | 505 | 131 | 53 | 41 | 249 | 385 | 463 | 405 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 799 | **90 | 120 | 88 | 468 | 163 | **61 | **52 | 171 | 344 | 411 | 388 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mwy na 3 blynedd yn ôl ond llai na 5 mlynedd yn ôl | 9 | 15 | 13 | 7 | 6 | 11 | 14 | 3 | 14 | 6 | 12 | 7 |
| Mwy na 5 mlynedd yn ôl ond llai na 10 mlynedd yn ôl | 19 | 40 | 25 | 21 | 11 | 27 | 27 | 20 | 26 | 9 | 23 | 14 |
| Mwy na 10 mlynedd yn ôl | 69 | 45 | 59 | 68 | 80 | 61 | 58 | 71 | 57 | 81 | 63 | 76 |
| Ddim yn gwybod | 3 | * | 3 | 4 | 3 | 1 | 1 | 5 | 3 | 3 | 3 | 3 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) *** Mae maint y samplau yn rhy fychan i gynnwys grwpiau oedran 16 – 18 a 19 – 24 oed Nodyn: Cwestiwn ymateb sengl





- Bod ar gwrs dysgu, hyfforddiant neu diwtoriaeth arall, e.e. dosbarth nos (8%).
- Treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau yn y math o waith y maent yn ei wneud, er enghraifft darllen llyfrau, llawlyfrau neu fynychu seminarau (8%)

**Tabl 2.15: Mathau o hyfforddi neu ddysgu y cymerwyd rhan ynddo ddiwethaf (dros dair blynedd yn ôl) yn ôl rhyw a grŵp cymdeithasol economaidd**


| | | Rhyw | | Grŵp cymdeithasol economaidd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd heb gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddi na dysgu yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf | Cyfanswm | Dynion | Merched | AB | C1 | C2 | DE |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 869 | 411 | 457 | 73 | 161 | 201 | 434 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 799 | 400 | 398 | **77 | 171 | 190 | 360 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd | 24 | 27 | 20 | 30 | 28 | 25 | 20 |
| Wedi bod ar gyrsiau addysgu oedd i fod i arwain at gymwysterau | 24 | 24 | 24 | 30 | 27 | 23 | 22 |
| Wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth pan oeddech yn gwneud eich gwaith | 19 | 22 | 17 | 19 | 16 | 23 | 19 |
| Wedi bod ar unrhyw gyrsiau cyffredinol yn y gwaith, e.e. sefydlu staff, iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf | 14 | 20 | 9 | 20 | 17 | 14 | 12 |
| Wedi treulio amser yn cadw i fyny gyda'r datblygiadau yn y math o waith yr ydych yn ei wneud | 8 | 10 | 6 | 27 | 11 | 7 | 3 |
| Wedi bod ar gwrs addysgu, hyfforddiant neu gyfarwyddyd arall, e.e. dosbarth nos | 8 | 6 | 11 | 15 | 11 | 5 | 8 |
| Wedi cael credyd/cam tuag at gymhwyster | 2 | 2 | 2 | 6 | 1 | 2 | 1 |
| Wedi astudio am gymwysterau heb gymryd rhan mewn cwrs addysgu | 2 | 3 | 1 | 11 | 1 | 1 | 1 |
| Unrhyw gwrs addysgu neu hyfforddiant arall, e.e. e-ddysgu | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 3 | 1 |
| Dim un o'r rhain | 28 | 24 | 31 | 23 | 21 | 24 | 33 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 2% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

Hefyd roedd gwahaniaethau rhyw a gwahaniaethau cymdeithasol economaidd:

- Roedd dynion yn fwy tebygol na merched o fod wedi bod ar gyrsiau addysgu a fwriadwyd er mwyn datblygu sgiliau y gellid eu defnyddio mewn gwaith (27% o ddynion ac 20% o ferched) ac ar gyrsiau cyffredinol yn y gwaith e.e. cyrsiau sefydlu staff, iechyd a diogelwch neu hyfforddiant cymorth cyntaf (20% a 9% yn y drefn honno).
- Ar y llaw arall roedd merched yn fwy tebygol o fod wedi dilyn cwrs addysgu arall, hyfforddiant neu diwtoriaeth, er enghraifft dosbarth nos (11% and 6% yn y drefn honno).
- Roedd ymatebwyr oedd wedi ymddeol (14%) dipyn llai tebygol na grwpiau eraill o fod wedi bod ar gyrsiau addysgu oedd i fod i arwain at gymhwyster.
- Roedd ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd AB yn llawer mwy tebygol na phobl o grwpiau C1, C2 neu DE o fod wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau yn y math o waith y maent yn ei wneud (27%) neu o fod wedi astudio am gymwysterau heb gymryd rhan mewn cwrs addysgu (11%).

**Siart 2.2 Cyfranogiad mewn hyfforddiant ffurfiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ôl grŵp demograffig**





## 2.5 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Roedd hanner yr ymatebwyr (50%) heb fod yn gyfrannog mewn unrhyw fath o ddysgu neu hyfforddi yn ystod y 12 mis diwethaf. O'r rhai oedd wedi bod yn gyfrannog mewn dysgu:

- Roedd 21% wedi cael cyrsiau cyffredinol yn y gwaith
  (e.e. cyrsiau sefydlu staff, iechyd a diogelwch neu hyfforddiant cymorth cyntaf);
- Roedd 20% wedi bod ar gyrsiau addysgu i ddatblygu sgiliau;
- Roedd 20% wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau yn y math o waith y maent yn ei wneud (e.e. darllen llyfrau, llawlyfrau neu fynychu seminarau);
- Roedd 18% wedi bod ar gyrsiau addysgu sy'n arwain at gymhwyster;
- Roedd 15% wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth wrth wneud y gwaith ac;
- Roedd 10% wedi bod ar fath arall o gwrs addysgu, cwrs hyfforddi neu gyfarwyddyd.

Siart 2.2 yn dangos pa grwpiau demograffig oedd â chyfraddau cyfranogi uwch na'r cyfartaledd, o'u cymharu â grwpiau demograffig oedd o dan y cyfartaledd.

Roedd cyfranogwyr oedd wedi cymhwyso hyd at lefel gradd neu gyfatebol (CGC lefel 4) yn dipyn mwy tebygol na rhai gyda chymwysterau is o fod wedi bod ar gyrsiau addysgu neu gyrsiau cyffredinol, neu o fod wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau yn eu math nhw o waith. Dim ond 25% oedd heb ymgymryd ag unrhyw fath o hyfforddiant (o gymharu ag 82% o'r rhai oedd heb unrhyw gymwysterau).

Astudiwyd amrediad eang o gyrsiau ond y pwnc mwyaf poblogaidd o lawer oedd hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth/cyfrifiaduron a oedd wedi cael ei astudio gan dros chwarter yr ymatebwyr yn ystod y 12 mis diwethaf. Fel y gallech ddisgwyl, roedd dynion yn dipyn mwy tebygol na merched o fod wedi astudio cwrs crefft neu weithgynhyrchu a merched yn fwy tebygol o astudio pynciau meddygol, trin gwallt a harddwch, iechyd a ffitrwydd a sgiliau gofal cwsmeriaid.

Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn gwneud/wedi gwneud cyrsiau a fyddai'n arwain at gymwysterau (68%) ac roedd 3 o bob 10 (29%) yn dysgu llawn amser. O'r gweddill, roedd 35% yn dysgu yn rhan amser am fwy na 3 awr yr wythnos ac roedd 36% yn dysgu yn rhan amser am lai na thair awr yr wythnos.

Rhwng popeth, roedd 60% o'r ymatebwyr wedi dilyn hyfforddiant ffurfiol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae hyn yn gadael 40% oedd heb ddilyn hyfforddiant ffurfiol yn ystod y tair blynedd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dipyn mwy tebygol o fod yn grŵp cymdeithasol economaidd DE (57%) nag yn unrhyw grŵp cymdeithasol economaidd arall, wedi ymddeol (73%) neu ddim mewn gwaith (56%) ac o fod wedi gadael addysg yn 16 oed neu lai (51%). Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhain (69%) wedi gwneud dim ag unrhyw ddysgu ffurfiol am o leiaf 10 mlynedd.

# 3 GWEITHGARWCH DYSGU ANFFURFIOL

## 3.1 Cyflwyniad

At ddibenion yr adroddiad hwn yr ydym wedi diffinio dysgu ffurfiol ac anffurfiol fel a ganlyn:

- Roedd dysgu ffurfiol yn cael help gan hwylusydd. Gallai ddigwydd yn y gwaith neu gyda darparwr ond yr hyn oedd yn ei nodweddu oedd bod yr athro, y tiwtor y mentor neu’r asesydd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd dysgu.
- Roedd dysgu anffurfiol yn sefyllfa lle'r oedd yr ymatebydd yn helpu ei hunan neu’n helpu eraill (plant er enghraifft) i ddysgu. Nid oedd unrhyw swyddogaeth bwysig i athro, tiwtor, mentor neu asesydd.

Mae’r adran hon yn edrych yn fanwl ar ddysgu anffurfiol, sef yr ail o’r diffiniadau uchod.

Roedd yr holiadur yn ceisio edrych sut yr oedd unigolion yn helpu eraill i ymgymryd â dysgu (gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent wedi ymgymryd â gweithgareddau gyda’u plant oedd yn ymwneud â dysgu mewn rhyw ffordd) ac a oeddent wedi ceisio gwella eu gwybodaeth eu hunain neu ddysgu sgiliau iddynt eu hunain:

## 3.2 Gweithgareddau/dysgu a wnaethpwyd gyda phlant

### 3.2.1 Gweithgareddau a wnaethpwyd gyda phlant tair i saith oed

Gofynnwyd i’r ymatebwyr pa weithgareddau yr oeddent wedi eu cynnal gyda phlant bach yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd. Anelwyd y cwestiwn hwn at ymatebwyr gyda phlant rhwng 3 a 7 mlwydd oed.

Roedd bron pob ymatebydd wedi chwarae gyda’u plant a/neu edrych ar lyfrau gyda nhw neu ddarllen storïau iddynt yn ystod y 12 mis diwethaf (95% a 93% yn y drefn honno). Roedd o leiaf 8 o bob 10 wedi gwneud y canlynol:

- Ei helpu gyda lluniadu/peintio/crefftau
- Ei helpu i adnabod/dysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau
- Ei helpu i ddarllen

Roedd ychydig llai (77%) wedi eu helpu gyda gwaith ysgol arall ac/neu wedi eu dysgu am

Cael eraill i ymgymryd â dysgu →

a) Pa weithgareddau sydd wedi cael eu cynnal gyda’ch plant yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn eu hannog i ddatblygu sgiliau newydd? Anelwyd y cwestiwn hwn at bobl oedd â phlant ifanc iawn (3 i 7 oed).

b) Pa weithgareddau sydd wedi cael eu cynnal i gefnogi dysgu eich plant? Anelwyd y cwestiwn hwn at bobl oedd â phlant hŷn (8 – 17 mlwydd oed)

Dysgu er mwyn gwella eu hunain →

Yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf a ydych wedi ceisio gwella eich gwybodaeth am unrhyw beth neu ddysgu sgil i chi’ch hun heb gymryd rhan mewn cwrs addysgu?





natur, er enghraifft mynd â nhw i'r sw, allan i'r wlad neu i'r fferm. Roedd llai o'r ymatebwyr wedi ymweld ag amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (46%).

Roedd lleiafrif pwysig o'r ymatebwyr (23%) wedi gwirfoddoli ym meithrinfa, grŵp chwarae neu ysgol eu plentyn. Roedd cyfanswm o 5% wedi bod ar gwrs gyda'u plentyn.

Nod oedd gwahaniaethau o bwys o ran oed a rhyw'r ymatebydd.

### 3.2.2 Gweithgareddau a wnaethpwyd gyda phlant wyth i un deg saith oed

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent wedi cynnal unrhyw weithgareddau gyda'u plant hŷn er mwyn cefnogi eu dysgu yn ystod y 12 mis diwethaf. Rhoddwyd rhestr oedd wedi ei pharatoi'n barod iddynt a gofynnwyd pa weithgaredd ar y rhestr oedd yn berthnasol.

Roedd 8 o bob 10 ymatebydd (80%) wedi helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd oddeutu 6 o bob deg wedi:

- Eu helpu i ddarllen neu chwilio trwy lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd (64%)
- Trafod y newyddion neu raglen ddogfen gyda nhw (60%)
- Eu helpu i chwilio am wybodaeth ar y cyfrifiadur neu'r rhyngrwyd (60%).

Roedd nifer llai o ymatebwyr wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:

- Mynd gyda nhw i achlysur o chwaraeon (58%)
- Trafod crefydd gyda nhw (45%)
- Mynd â nhw i'r amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (44%)
- Rhoi cyngor iddynt ar ddysgu, hyfforddi neu swyddi posib (37%).

**Tabl 3.1: Gweithgareddau a wnaethpwyd gyda phlant yn ystod y 12 mis diwethaf i'w hannog i ddysgu pethau newydd a datblygu sgiliau newydd (plant 3 – 7 oed)**

| Sylfaen: Pawb oedd â phlant 3 – 7 oed | Cyfanswm |
|---|---|
| Sylfaen heb ei bwysoli | 288 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 288 |
| | % |
| Chwarae gyda'r plentyn | 95 |
| Edrych ar lyfrau/darllen stori | 93 |
| Eu helpu gyda lluniadu/peintio/crefftau | 89 |
| Eu helpu i adnabod/dysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau | 86 |
| Eu helpu i ddarllen | 84 |
| Eu dysgu am natur, e.e. ymweld â'r sw, cefn gwlad neu fferm | 77 |
| Eu helpu gyda gwaith ysgol arall | 77 |
| Mynd â nhw am dro i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol | 46 |
| Helpu fel gwirfoddolwr yn y cylch meithrin, grŵp chwarae neu ysgol | 23 |
| Mynychu cwrs gyda'r plentyn, e.e. cwrs llythrennedd | 5 |
| Arall | 1 |
| Dim un o'r rhain | 1 |

Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog

**Tabl 3.2: Gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y 12 mis gyda'ch plant er mwyn cefnogi eu dysgu (8 i 17 oed)**

| Sylfaen: Pawb sydd â phlant 8 – 17 oed | Cyfanswm |
|---|---|
| Sylfaen heb ei bwysoli | 482 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 473 |
| | % |
| Eu helpu gyda'u gwaith cartref | 80 |
| Eu helpu i ddarllen neu i droi at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd | 64 |
| Trafod y newyddion neu raglen ddogfen gyda nhw | 60 |
| Eu helpu i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu ar y we | 60 |
| Mynd i weithgarwch chwaraeon gyda nhw | 58 |
| Trafod crefydd gyda nhw | 45 |
| Mynd â nhw i'r amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol | 44 |
| Eu cynghori ynglŷn â'u dewis o ran dysgu, hyfforddiant neu swyddi | 37 |
| Helpu fel gwirfoddolwr yn eu hysgol | 19 |
| Mynd ar gwrs gyda nhw, er enghraifft llythrennedd | 5 |
| Arall | 1 |
| Ddim yn gwybod | 1 |
| Dim un o'r rhain | 9 |

Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog

Roedd merched yn llawer mwy tebygol na dynion o fod wedi gwneud y canlynol gyda'u plant:

- Eu helpu i ddarllen neu i droi at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd (70% o gymharu â 57% of dynion)
- Trafod y newyddion neu raglen ddogfen gyda nhw (71% o gymharu â 49%)
- Trafod crefydd gyda nhw (52% o gymharu â 37%)
- Helpu fel gwirfoddolwr yn eu hysgol (24% o gymharu â 15%).

Dyma bwyntiau eraill y dylid eu nodi:

- Roedd gweithwyr rhan amser yn dipyn mwy tebygol na gweithwyr llawn amser neu bobl oedd ddim mewn gwaith, i ymgymryd â'r gweithgareddau a restrir yn y pwyntiau bwled uchod
- Roedd y grŵp cymdeithasol economaidd yn dylanwadu ar yr ymateb. Roedd ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd AB yn dipyn mwy tebygol na neb o unrhyw grŵp cymdeithasol economaidd arall o fod wedi mynd â'u plant i amgueddfeydd, orielau neu adeiladau hanesyddol, o fod wedi trafod y newyddion neu raglenni dogfen gyda nhw neu o fod wedi eu helpu i ddarllen llyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd. Ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd DE oedd leiaf tebygol o ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau hynny.
- roedd yr ymatebwyr oedd â chymwysterau CGC lefel 1 neu uwch yn dipyn mwy tebygol o gyflawni gweithgareddau gyda'u plant hŷn (er enghraifft ymweld ag amgueddfeydd, neu drafod crefydd) nag oedd pobl heb gymwysterau. Roedd y lefel gweithgaredd yn codi'n serth fel yr oedd lefel cymwysterau'r ymatebydd yn codi, er enghraifft roedd 89% o'r ymatebwyr oedd wedi eu cymhwyso at lefel gradd yn helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol o gymharu â dim ond 49% o'r rhai oedd heb ddim cymwysterau





**Tabl 3.3: Gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis diwethaf gyda'ch plant er mwyn cefnogi eu dysgu (8 – 17 oed) yn ôl amgylchiadau'r aelwyd a grŵp cymdeithasol economaidd**

| | | Amgylchiadau'r aelwyd | | Grŵp cymdeithasol economaidd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd â phlant 8 – 17 oed | Cyfanswm | Unrhyw un yn gweithio | Neb yn gweithio | AB | C1 | C2 | DE |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 482 | 397 | 85 | 81 | 91 | 126 | 184 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 473 | 422 | **51 | **99 | **101 | 129 | 144 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Eu helpu gyda'u gwaith cartref | 80 | 81 | 67 | 83 | 81 | 81 | 75 |
| Eu helpu i ddarllen neu i droi at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd | 64 | 66 | 47 | 81 | 60 | 63 | 56 |
| Trafod y newyddion neu raglen ddogfen gyda nhw | 60 | 62 | 41 | 78 | 61 | 61 | 47 |
| Eu helpu i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu ar y we | 60 | 63 | 36 | 69 | 68 | 67 | 43 |
| Mynd i weithgarwch chwaraeon gyda nhw | 58 | 61 | 36 | 71 | 61 | 55 | 50 |
| Trafod crefydd gyda nhw | 45 | 46 | 36 | 65 | 51 | 44 | 27 |
| Mynd â nhw i'r amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol | 44 | 47 | 22 | 63 | 47 | 41 | 33 |
| Eu cynghori ynglŷn â'u dewis o ran dysgu, hyfforddiant neu swyddi | 37 | 39 | 23 | 52 | 38 | 38 | 25 |
| Helpu fel gwirfoddolwr yn eu hysgol | 19 | 21 | 4 | 33 | 14 | 20 | 13 |
| Mynd ar gwrs gyda nhw, er enghraifft llythrennedd | 5 | 5 | 5 | 4 | 7 | 4 | 4 |
| Arall | 1 | 1 | – | – | 2 | * | 1 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 1 | – | 1 | – | 1 | – |
| Dim un o'r rhain | 9 | 8 | 14 | 5 | 6 | 11 | 11 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog

**Tabl 3.4: Gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis diwethaf gyda'ch plant er mwyn cefnogi eu dysgu (8 – 17 oed) yn ôl lefel cymwysterau**

| | | Lefel cymhwyster*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb gyda phlant 8 – 17 oed | Cyfanswm | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Dim cymwysterau | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 482 | 61 | 123 | 74 | 104 | 8 | 64 | 39 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 473 | **60 | 118 | **80 | 119 | **10 | **47 | **39 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Eu helpu gyda'u gwaith cartref | 80 | 81 | 78 | 86 | 89 | 100 | 49 | 75 |
| Eu helpu i ddarllen neu i droi at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd | 64 | 59 | 61 | 65 | 84 | 68 | 32 | 51 |
| Trafod y newyddion neu raglen ddogfen gyda nhw | 60 | 62 | 62 | 66 | 77 | 88 | 22 | 25 |
| Eu helpu i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu ar y we | 60 | 55 | 67 | 65 | 76 | 47 | 16 | 47 |
| Mynd i weithgarwch chwaraeon gyda nhw | 58 | 57 | 59 | 63 | 73 | 62 | 35 | 32 |
| Trafod crefydd gyda nhw | 45 | 41 | 39 | 45 | 70 | 73 | 16 | 16 |
| Mynd â nhw i'r amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol | 44 | 40 | 37 | 52 | 66 | 74 | 19 | 17 |
| Eu cynghori ynglŷn â'u dewis o ran dysgu, hyfforddiant neu swyddi | 37 | 32 | 32 | 32 | 55 | 32 | 26 | 29 |
| Helpu fel gwirfoddolwr yn eu hysgol | 19 | 21 | 14 | 15 | 31 | 34 | 8 | 17 |
| Mynd ar gwrs gyda nhw er enghraifft llythrennedd | 5 | 5 | 3 | 3 | 6 | 15 | 10 | 1 |
| Arall | 1 | 2 | * | 1 | * | * | 4 | * |
| Ddim yn gwybod | 1 | * | 2 | * | * | * | * | * |
| Dim un o'r rhain | 9 | 5 | 6 | 11 | 3 | * | 27 | 15 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Mae lefelau cymwysterau yn cyfateb i CGC lefel 1 – 5.
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog





## 3.3 Gwella gwybodaeth/dysgu sgiliau newydd i chi'ch hun

Rhwng popeth, roedd bron i dri o bob deg o'r ymatebwyr (29%) yn dweud eu bod wedi ceisio gwella eu gwybodaeth am rywbeth neu wedi ceisio dysgu sgil newydd iddyn nhw'u hunan yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf.

Mae'r data yn dangos fod hyn yn fwy perthnasol i rai grwpiau nag i eraill:

- Y grŵp ieuengaf (16 – 18 mlwydd oed) oedd fwyaf tebygol a'r grŵp 55+ oedd leiaf tebygol (39% o gymharu â 24%)
- Roedd dynion yn fwy tebygol na merched i wneud hynny (32% o gymharu â 25%). Roedd dynion ifanc yn llawer mwy tebygol na merched ifanc i ddysgu sgiliau iddyn nhw'u hunain (41% o ddynion 16 – 24 oed o gymharu â 28% o ferched 16 – 24 oed)
- Nid oedd yn syndod fod pobl mewn addysg llawn amser yn dipyn mwy tebygol (41%) na rhai o'r grwpiau eraill i ddweud eu bod wedi ceisio dysgu sgiliau newydd iddyn nhw'u hunain. Dim ond 22% o ymatebwyr wedi ymddeol ddywedodd yr un peth.
- Roedd unigolion oedd wedi cael hyfforddiant ffurfiol yn ystod y flwyddyn a/neu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn fwy tebygol o ddysgu sgiliau newydd iddyn nhw'u hunain na phobl oedd heb ymgymryd â dysgu ffurfiol (38% a 37% o gymharu â 16% oedd heb ddysgu o gwbl)
- Ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd AB (41% o gymharu â 21% yn DE)
- Unigolion mewn cartrefi lle'r oedd rhywun yn gweithio (31% o gymharu ag unigolion mewn cartrefi lle nad oedd neb mewn gwaith 23%)
- Pobl yn siarad Saesneg yn y cartref ac yn y gwaith (30%) o gymharu ag ymatebwyr oedd yn siarad Cymraeg yn y cartref ac yn y gwaith (19%)
- Ymatebwyr oedd wedi profi digwyddiad mawr yn eu bywyd yn ddiweddar, megis cychwyn swydd newydd neu gael teulu (32% o gymharu â 24%).
- Roedd pobl oedd wedi cymhwyso at lefel gradd (CGC lefel 4) yn llawer mwy tebygol (45% o gymharu ag 11% o bobl heb gymwysterau ac 20% o'r rhai oedd wedi eu cymhwyso at CGC lefel 1 yn unig).

Mae'r tablau isod yn tanlinellu rhai o'r canfyddiadau uchod mewn perthynas â demograffeg bersonol a statws gwaith/dysgu.

**Tabl 3.5: Gwella eich gwybodaeth/dysgu sgil newydd, yn ôl rhyw ac oed**

| | | Rhyw | | Oed yr ymatebydd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Dynion | Merched | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 946 | 1061 | 87 | 175 | 343 | 385 | 281 | 732 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 1011 | 996 | **75 | 176 | 370 | 383 | 280 | 723 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Do | 29 | 32 | 25 | 39 | 33 | 30 | 32 | 30 | 24 |
| Naddo | 71 | 68 | 74 | 61 | 67 | 70 | 67 | 70 | 75 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'. Dim ond cod sengl

## Tabl 3.6: Gwella eich gwybodaeth/dysgu sgil newydd, yn ôl statws cyflogaeth/dysgu

| | | Statws cyflogaeth | | | | | | Statws dysgu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gweithio'n llawn amser | Gweithio'n rhan amser | Hunan gyflogedig | Ddim mewn gwaith | Addysg llawn amser | Wedi ymddeol | Dysgu yn y flwyddyn | Dysgu yn ystod y 3 blynedd | Dim dysgu yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 603 | 229 | 98 | 451 | 89 | 517 | 934 | 1139 | 869 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 746 | 263 | **125 | 306 | **79 | 472 | 1008 | 1209 | 799 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Do | 29 | 31 | 32 | 35 | 26 | 41 | 22 | 38 | 37 | 16 |
| Naddo | 71 | 69 | 67 | 64 | 74 | 58 | 78 | 61 | 63 | 83 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'. Dim ond cod sengl

## Tabl 3.7: Gwella eich gwybodaeth/dysgu sgil newydd, yn ôl Lefel cymwysterau

| | | Lefel cymwysterau*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Dim cymwysterau | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 229 | 397 | 322 | 391 | 51 | 404 | 215 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 219 | 393 | 344 | 451 | **64 | 337 | 201 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Do | 29 | 20 | 31 | 30 | 45 | 63 | 11 | 15 |
| Naddo | 71 | 79 | 69 | 69 | 55 | 37 | 89 | 84 |


** Yn dynodi sylfaen isel (Sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) *** Mae lefelau cymwysterau yn cyfateb i CGC lefel 1 – 5.
Nodyn: Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'. Dim ond cod sengl





Roedd y rhan fwyaf o'r bobl oedd wedi ceisio dysgu sgiliau newydd iddyn nhw'u hunain (77%) wedi gwneud hynny trwy ddefnyddiau printiedig, fel llyfrau, cylchgronau neu lawlyfrau. Roedd bron eu hanner wedi edrych ar y rhyngrwyd ac/neu wedi eu dysgu eu hunain trwy fwrw iddi a dysgu o'u camgymeriadau (47%). Roedd 39% o'r bobl a ddysgodd eu hunain wedi defnyddio teledu, fideo a CD Rom. Llai cyffredin oedd defnyddio person arall, er enghraifft cydweithiwr neu bobl mewn lle oedd yn gallu rhoi gwybodaeth (30% and 24% yn y drefn honno).

**Siart 3.1: Defnyddiau a ddefnyddiwyd neu gymorth y chwiliwyd amdano wrth wella eich gwybodaeth eich hun neu wrth ddysgu sgil newydd i chi eich hun**




Sylfaen: Pawb oedd wedi ceisio gwella eu gwybodaeth neu ddysgu eu hunain heb gymryd rhan mewn cwrs (heb eu pwysoli =538; wedi eu pwysoli =579)

**Tabl 3.8: Deunyddiau a ddefnyddiwyd neu gymorth y chwiliwyd amdano wrth wella eich gwybodaeth/dysgu sgil newydd, yn ôl grŵp cymdeithasol economaidd a statws dysgu**

| | | Grŵp cymdeithasol economaidd | | | | Statws dysgu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi ceisio gwella gwybodaeth/dysgu sgil newydd | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE | Dysgu yn y flwyddyn | Dysgu yn ystod y 3 blynedd | Dim dysgu yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 538 | 134 | 147 | 108 | 149 | 340 | 401 | 137 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 579 | 162 | 164 | 123 | 130 | 387 | 448 | 131 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Darllen deunyddiau printiedig megis llyfrau, cylchgronau neu lawlyfrau | 77 | 86 | 80 | 72 | 68 | 79 | 79 | 71 |
| Defnyddio gwybodaeth oddi ar y rhyngrwyd | 47 | 56 | 50 | 47 | 32 | 55 | 53 | 27 |
| Gwylio'r teledu, fideos, defnyddio CD Roms | 39 | 42 | 41 | 29 | 40 | 38 | 38 | 41 |
| Ymweld â lle sy'n darparu gwybodaeth | 24 | 28 | 30 | 18 | 16 | 28 | 27 | 13 |
| Ceisio cyngor/cymorth gan gydweithiwr | 30 | 36 | 36 | 27 | 19 | 37 | 35 | 16 |
| Trwy dreialu neu arbrofi | 47 | 51 | 45 | 47 | 46 | 47 | 47 | 50 |
| Dim un o'r rhain | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 4 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

Roedd y sylwadau a roddwyd ynglŷn â'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

- Roedd yr ymatebwyr hŷn yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd ac i ofyn am gyngor gan gydweithwyr (29% o'r grŵp oedran 55+ o gymharu â 58% o'r rhai 25 – 34 oed)
- Roedd grŵp cymdeithasol economaidd AB (86%) yn dipyn mwy tebygol o ddefnyddio deunyddiau darllen na phobl o grwpiau C2 a DE (72% a 68%). Roedd grwpiau cymdeithasol economaidd AB, C1 a C2 yn dipyn mwy tebygol na grŵp DE o ddefnyddio'r rhyngrwyd (56%, 50% a 47% o gymharu â 32%).
- Roedd unigolion oedd wedi ymgymryd â dysgu ffurfiol yn ystod y flwyddyn neu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn dipyn mwy tebygol nag unigolion eraill o fod wedi:
  - defnyddio'r rhyngrwyd (55% a 53% o gymharu â 27%)

**Tabl 3.9: Deunyddiau a ddefnyddiwyd neu gymorth y chwiliwyd amdano wrth wella eich gwybodaeth/dysgu sgil newydd, yn ôl lefel cymwysterau**

| | | Lefel cymwysterau*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sydd wedi ceisio gwella gwybodaeth/dysgu sgil newydd | Cyfanswm | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Dim cymwysterau | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 538 | 49 | 115 | 92 | 175 | 30 | 42 | 35 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 579 | **44 | 123 | **104 | 201 | **40 | **36 | **31 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Darllen deunyddiau printiedig megis llyfrau, cylchgronau neu lawlyfrau | 77 | 72 | 71 | 71 | 85 | 92 | 67 | 75 |
| Defnyddio gwybodaeth oddi ar y rhyngrwyd | 47 | 42 | 40 | 53 | 57 | 55 | 8 | 34 |
| Gwylio'r teledu, fideos, defnyddio CD Roms | 39 | 41 | 38 | 31 | 42 | 34 | 39 | 47 |
| Ymweld â lle sy'n darparu gwybodaeth | 24 | 16 | 21 | 19 | 29 | 30 | 13 | 28 |
| Ceisio cyngor/cymorth gan gydweithiwr | 30 | 19 | 30 | 27 | 39 | 51 | 4 | 7 |
| Trwy dreialu neu arbrofi | 47 | 44 | 53 | 44 | 49 | 46 | 28 | 57 |
| Dim un o'r rhain | 2 | 6 | * | 3 | 1 | * | 3 | * |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) *** Mae lefelau cymwysterau yn cyfateb i CGC lefel 1 – 5.
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

- ymweld â rhywle i gael gwybodaeth (28% a 27% o gymharu â 13%)
- ac/neu wedi gofyn am help gan gydweithiwr (37% a 35% o gymharu â 16%).

- Roedd pobl oedd â chymwysterau hyd at lefel gradd ac uwch (CGC lefel 4 a 5) yn dipyn mwy tebygol o ddarllen deunyddiau printiedig (85% a 92%), o ofyn am gyngor gan gydweithwyr (39%) ac o ddefnyddio'r rhyngrwyd (57%) na phobl oedd wedi eu cymhwyso at CGC lefel 2 neu lai.

## 3.4 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahanol fathau o ddysgu anffurfiol a wnaethpwyd gyda phlant o dan y penawdau canlynol: darllen, dysgu cyffredinol, gweithgareddau tu allan i'r cartref a Thechnoleg Gwybodaeth neu'r Rhyngrwyd.

Y pwyntiau allweddol i'w nodi ar gyfer gweithgareddau a wnaethpwyd gyda phlant 3 i 7 oed oedd:

- Roedd y mewnbwn yn eang o safbwynt gweithgareddau a wnaethpwyd er mwyn datblygu sgiliau. Roedd chwarae a darllen neu edrych ar lyfrau yn weithgareddau pwysig gyda bron pob ymatebydd oedd â phlant 3 i 7 oed wedi gwneud hynny yn ystod y 12 mis diwethaf (95% a 93% yn y drefn honno)
- Roedd wyth allan o bob deg ymatebydd oedd â phlentyn 3 i 7 oed wedi cymryd rhan mewn 'lluniadu/crefftau' (89%), 'adnabod rhifau/llythrennau/siapiau (86%) ac/neu 'helpu eu plant i ddarllen' (84%)

Y pwyntiau allweddol i'w nodi ar gyfer plant 8 i 17 oed oedd:

- Roedd nifer o weithgareddau craidd (a grybwyllwyd gan o leiaf 6 o bob 10 ymatebydd). Y rhain oedd 'helpu gyda gwaith ysgol' (80%) 'edrych mewn llyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd (64%), 'trafod newyddion neu raglenni dogfen (60%), 'defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am wybodaeth (60%).

**Tabl 3.10 Dysgu a wnaethpwyd gyda'r plant**

| Oedran | Darllen | | Dysgu cyffredinol | | Tu allan i'r cartref | | Tech.Gwyb/ Rhyngrwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 – 7 oed | Edrych ar lyfrau/darllen iddynt | 93% | Chwarae gyda nhw | 95% | Dysgu am natur/sw/fferm | 77% | | |
| | Eu helpu i ddarllen | 84% | Lluniadu/celf a chrefft | 89% | Amgueddfa/ oriel/adeilad hanesyddol | 46% | | |
| | | | Adnabod rhifau/siapiau | 86% | Gwirfoddoli yn y feithrinfa/ grŵp chwarae | 23% | | |
| | | | Helpu gyda gwaith ysgol | 77% | | | | |
| 8 – 17 oed | Eu helpu i ddarllen/troi at lyfrau | 64% | Gwaith ysgol | 80% | Chwaraeon | 58% | Chwilio am wybodaeth ar y rhyngrwyd/ cyfrifiadur | 60% |
| | | | Trafod y newyddion/ rhaglenni dogfen | 60% | Amgueddfa/ oriel/adeilad hanesyddol | 44% | | |
| | | | Trafod crefydd | 45% | | | | |
| | | | Cynghori ar ddysgu/ hyfforddiant | 37% | | | | |





- Nid oedd 9% o'r ymatebwyr oedd â phlant 8 – 17 oed byth yn ymgymryd â'r gweithgareddau a restrwyd. Er nad yw'r ffigur hwn yn arwyddocaol yn ystadegol roedd yr unigolion hyn yn fwy tebygol o fod mewn cartrefi lle nad oedd neb mewn gwaith (14% o gymharu â 8%) ac yn grŵp cymdeithasol economaidd DE (11% o gymharu â 5% yn grŵp cymdeithasol economaidd AB) ac yn ddynion (11% o gymharu â 7% o ferched).
- Nodwyd y gweithgareddau eraill gan lai na 60% o ymatebwyr, roedd y rhain yn cynnwys 'mynychu gweithgaredd chwaraeon gyda nhw' (58%), 'trafod crefydd gyda nhw' (45%), 'mynd â nhw i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (44%), 'eu cynghori ynglŷn â'u dewis o ran dysgu, hyfforddiant neu swyddi' (37%)

O safbwynt demograffeg, roedd rhai gwahaniaethau pwysig:

- Roedd merched yn dipyn mwy tebygol na dynion o gymryd rhan yn rhai o'r gweithgareddau (yn arbennig 'helpu plant i ddarllen neu ymgynghori â llyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd', 'trafod y newyddion/rhaglenni dogfen', 'trafod crefydd' a/neu 'helpu trwy wirfoddoli yn yr ysgol')
- Roedd ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd AB yn dipyn mwy tebygol nag unrhyw grŵp arall i 'fynd â'u plant i amgueddfeydd/orielau ac adeiladau hanesyddol', i drafod y newyddion neu raglenni dogfen' neu 'i'w helpu i ddarllen llyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd'. Ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd DE oedd leiaf tebygol o wneud unrhyw un o'r gweithgareddau a nodwyd.
- Roedd ymatebwyr oedd â chymwysterau CGC lefel 1 neu uwch yn dipyn mwy tebygol o gynnal gweithgareddau gyda'u plant hŷn (er enghraifft ymweld ag amgueddfeydd neu drafod crefydd) nag yr oedd pobl oedd heb ddim cymwysterau. Roedd y lefel gweithgaredd yn codi'n siarp fel yr oedd lefel cymwysterau'r ymatebwyr yn codi, er enghraifft roedd 89% o'r ymatebwyr oedd a chymwysterau lefel gradd yn helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol o gymharu â dim ond 49% o'r rhai oedd heb ddim cymwysterau.

Roedd y lefel gweithgarwch yn llawer uwch ymhlith ymatebwyr oedd â phlant ifanc nag ymhlith ymatebwyr oedd â phlant hŷn. Roedd pump o'r gweithgareddau yr holwyd amdanynt yn cael eu cyflawni gan o leiaf 80% o'r ymatebwyr ond gyda phlant hŷn dim ond un gweithgaredd oedd yn cael y lefel honno o gefnogaeth ('helpu gyda gwaith ysgol' 80%).

### 3.4.1 Hunan welliant:

Roedd bron i dri o bob deg ymatebydd (29%) wedi ceisio gwella eu gwybodaeth neu ennill sgiliau newydd yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf. Y rhai oedd fwyaf tebygol o wneud hynny oedd:

- ymatebwyr iau (39% o'r ymatebwyr 16 – 18 oed o gymharu â 24% o'r ymatebwyr 55+)
- dynion (yn fwy tebygol o fod rhwng 16 a 24 oed)
- ymatebwyr sydd ar hyn o bryd yn ymgymryd â dysgu ffurfiol (38% o'r rhai sy'n dysgu yn ystod y flwyddyn o gymharu ag 16% o'r rhai sydd ddim yn dysgu)
- grŵp cymdeithasol economaidd AB
- ymatebwyr sydd â rhywun yn y cartref mewn gwaith
- rhai y bu rhyw ddigwyddiad mawr yn eu bywyd yn ddiweddar (hynny yw cael babi, dechrau ar swydd newydd ac yn y blaen)
- rhai sydd â chymwysterau yn cyfateb i lefel gradd (47% o gymharu ag 11% o'r rhai sydd heb ddim cymwysterau)

# 4.0 CYFLEOEDD DYSGU YN Y GWAITH

## 4.1 Cyflwyniad

Rhoddwyd cyfres o ddatganiadau i ymatebwyr oedd mewn swydd (ac eithrio rhai hunan gyflogedig) gyda'r bwriad o edrych ar y cyfleoedd dysgu oedd yn y gwaith. Wedyn gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno â phob datganiad.

Y datganiadau oedd:


- Nid yw pobl yn fy rôl i yn cael cyfle i fynd yn eu blaenau
- Nid yw pobl yn fy rôl i yn cael cynnig llawer o hyfforddiant
- Mae llawer o gyfleoedd i mi ddysgu, ac nid yn unig mewn perthynas â'm swydd bresennol
- Rwy'n cael digon o hyfforddiant ar gyfer fy swydd bresennol
- Rwy'n credu fod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi
- Rwy'n credu nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'n rhinweddau personol

## 4.2 Cyfleoedd i ddysgu yn y gwaith

Roedd dau o bob tri ymatebydd (66%) yn teimlo, i ryw raddau, bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi. Er bod hyn yn galonogol roedd 17% yn anghytuno â'r datganiad, ac 17% arall ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hyn yn golygu bod lleiafrif sylweddol oedd ddim yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

O safbwynt hyfforddi yn y gwaith, roedd 72% yn teimlo eu bod nhw yn bersonol yn cael y maint priodol o hyfforddiant ond roedd 31% yn cytuno nad oedd pobl yn yr un rôl â nhw yn gyffredinol yn cael cynnig llawer o hyfforddiant. Roedd teimlad ymhlith llawer o'r

**Siart 4.1: Cyfleoedd i ddysgu yn y gwaith**




Sylfaen: Pawb mewn gwaith ac eithrio rhai hunan gyflogedig (sylfaen heb ei bwysoli 851 sylfaen wedi ei bwysoli 1024)





ymatebwyr nad oedd eu gwir botensial yn cael ei wireddu. Roedd ychydig dros ddau o bob pump (44%) yn teimlo nad oedd eu cyflogwr yn gwneud y gorau o'u galluoedd a'u priodoleddau personol ac roedd 36% yn cytuno nad oedd pobl yn eu rôl nhw yn cael y cyfle i fynd yn eu blaenau.

Wrth gymharu'r data gyda demograffeg bersonol roedd y materion canlynol yn dod i'r amlwg:

- Roedd ymatebwyr oedd yn gweithio'n rhan amser yn llai tebygol o deimlo eu bod nhw a'u cydweithwyr yn cael digon o hyfforddiant ar gyfer eu rôl bresennol (69% o gymharu â 75% o weithwyr llawn amser) ac yr oeddent yn llawer mwy tueddol o gredu nad oedd pobl yn eu rôl nhw yn cael cyfle i fynd yn eu blaenau (43% o gymharu â 33% o weithwyr llawn amser). Serch hynny, yn ddiddorol iawn yr oeddent yn llawer mwy tebygol o deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cyflogwr (72% o gymharu â 63% o weithwyr llawn amser)
- Roedd merched yn dipyn mwy tebygol na dynion o gytuno bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi (72% o gymharu â 60% o ddynion).

**Tabl 4.1: Cyfleoedd i ddysgu yn y gwaith yn ôl rhyw, oed a gweithio llawn amser/rhan amser (mae'r canran yn cyfuno'r nifer sy'n cytuno/cytuno'n gryf)**

| | | Rhyw | | Oed | | | | | Statws cyflogaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio (heblaw hunan gyflogedig) | Cyfanswm | Dynion | Merched | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 851 | 446 | 405 | 82 | 224 | 250 | 164 | 111 | 603 | 229 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 1024 | 542 | 482 | **101 | 282 | 284 | 188 | 147 | 746 | 263 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Nid yw pobl yn fy rôl i yn cael cyfle i fynd yn eu blaenau | 35 | 36 | 35 | 31 | 37 | 35 | 37 | 37 | 33 | 43 |
| Nid yw pobl yn fy rôl i yn cael cynnig\| llawer o hyfforddiant | 31 | 33 | 29 | 20 | 33 | 36 | 28 | 32 | 31 | 34 |
| Mae llawer o gyfleoedd i mi ddysgu, ac nid yn unig mewn perthynas â'm swydd bresennol | 58 | 58 | 58 | 65 | 59 | 58 | 58 | 50 | 60 | 50 |
| Rwy'n cael digon o hyfforddiant ar gyfer fy swydd bresennol | 72 | 73 | 70 | 77 | 75 | 67 | 74 | 67 | 75 | 69 |
| Rwy'n credu fod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 65 | 60 | 72 | 69 | 65 | 63 | 63 | 72 | 63 | 72 |
| Rwy'n credu nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'n rhinweddau personol | 44 | 44 | 44 | 41 | 44 | 49 | 43 | 37 | 43 | 48 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)

**Tabl 4.2: Cyfleoedd i ddysgu yn y gwaith yn ôl lefel cymwysterau (mae'r canran yn cyfuno'r nifer sy'n cytuno/cytuno'n gryf)**

| | | Lefel cymwysterau*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb sy'n gweithio (heblaw hunan gyflogedig) | Cyfanswm | Level 1 | Level 2 | Level 3 | Level 4 | Level 5 | Dim cymwysterau | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 851 | 102 | 195 | 159 | 229 | 34 | 74 | 58 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 1024 | 115 | 233 | 191 | 298 | **45 | **77 | **65 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Nid yw pobl yn fy rôl i yn cael cyfle i fynd yn eu blaenau | 35 | 45 | 32 | 37 | 31 | 21 | 44 | 44 |
| Nid yw pobl yn fy rôl i yn cael cynnig llawer o hyfforddiant | 31 | 35 | 31 | 30 | 27 | 15 | 39 | 49 |
| Mae llawer o gyfleoedd i mi ddysgu, ac nid yn unig mewn perthynas â'm swydd bresennol | 58 | 58 | 56 | 56 | 64 | 71 | 41 | 47 |
| Rwy'n cael digon o hyfforddiant ar gyfer fy swydd bresennol | 72 | 71 | 71 | 78 | 66 | 78 | 73 | 74 |
| Rwy'n credu fod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi | 65 | 65 | 64 | 72 | 62 | 72 | 60 | 72 |
| Rwy'n credu nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'n rhinweddau personol | 44 | 45 | 47 | 43 | 41 | 27 | 55 | 44 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Mae lefelau cymwysterau yn cyfateb i CGC lefel 1 – 5.

- Roedd ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd DE yn llai tebygol o gytuno fod cyfleoedd iddynt yn eu gwaith na phobl yn grŵp cymdeithasol economaidd AB. Er enghraifft, roedd 47% o ymatebwyr DE yn cytuno nad oedd pobl yn eu rôl nhw yn cael cyfle i fynd yn eu blaen o gymharu â 32% o ymatebwyr yn grŵp cymdeithasol economaidd AB
- Roedd y grŵp oedran 55+ yn fwy tebygol o ddweud bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi na phobl oedd fymryn yn iau (72% yn cytuno o gymharu â 63% yn y grŵp oedran 45 – 54).
- Serch hynny roedd ymatebwyr hŷn (oed 55+) yn fwy negyddol ynglŷn â'r cyfleoedd dysgu oedd ddim yn gysylltiedig â'u swydd bresennol (50% yn cytuno o gymharu â 71% yn y grŵp 16 – 18 oed). Roeddent hefyd yn llai tebygol o gytuno eu bod yn cael y maint priodol o hyfforddiant yn eu swydd bresennol (67% yn cytuno o gymharu â 87% o'r grŵp oedran 16 – 18)
- Roedd pobl oedd wedi ymadael â'r ysgol yn 16 oed neu lai, a phobl oedd â chymwysterau CGC lefel 1 neu lai, hefyd yn llai tebygol o gytuno fod ganddynt ddigon o gyfleoedd dysgu neu gyfleoedd digonol i fynd ymlaen yn

eu gwaith. Er enghraifft roedd 45% o'r ymatebwyr oedd wedi eu hyfforddi at CGC lefel 1 yn cytuno nad oedd pobl yn eu rôl nhw yn cael y cyfle i fynd yn eu blaen, o gymharu â dim ond 31% o'r rhai oedd wedi cymhwyso at lefel gradd neu gyfatebol.

## 4.3 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Roedd dau ymatebydd o bob tri (66%) yn teimlo i ryw raddau fod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi ond roedd lleiafrif sylweddol (17%) yn anghytuno â'r datganiad hwn. Yn gyffredinol roedd 72% yn teimlo eu bod yn cael y maint priodol o hyfforddiant yn y gwaith ond roedd 31% yn teimlo nad oedd pobl yn eu swydd nhw yn cael cynnig llawer o hyfforddiant.

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo nad oedd eu gwir botensial wedi cael ei wireddu. Roedd ychydig dros ddau o bob pump (44%) yn dweud nad oedd eu cyflogwr yn gwneud y gorau o'u galluoedd neu briodoleddau personol ac roedd 36% yn cytuno nad oedd pobl yn eu rôl nhw yn cael y cyfle i fynd yn eu blaen.

O safbwynt demograffeg allweddol y grwpiau canlynol oedd leiaf tebygol o gytuno fod ganddynt gyfleoedd i ddysgu ac i gael dyrchafiad swydd yn eu gwaith.

- gweithwyr rhan amser;
- pobl a adawodd yr ysgol yn 16 oed neu lai;
- pobl oedd heb gymwysterau ar o leiaf CGC lefel 1;
- pobl yn grŵp cymdeithasol economaidd DE a;
- pobl oed 55+

Ar yr wyneb, mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiadau cadarnhaol yn galonogol, ond ni allwn anwybyddu'r ffaith bod cyfran yr ymatebwyr oedd yn cytuno'n gryf gydag unrhyw un o'r datganiadau hyn yn fychan iawn (rhwng 6% ac 14%). O safbwynt cyfleoedd dysgu yn y gwaith mae hyn yn awgrymu bod llawer o le i wella er bod rhai negeseuon cadarnhaol.

# 5.0 AGWEDDAU AT DDYSGU

## 5.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn edrych ar agweddau'r panel tuag at ddysgu. Cafodd pob ymatebydd gyfres o ddatganiadau ynglŷn â dysgu a gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno â phob datganiad.
Y datganiadau oedd:

- Mae dysgu yn bleser ynddo'i hun
- Rwy'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd
- Dwi ddim yn gweld pam y dylwn i dalu am ddysgu ar gyfer fy swydd neu yrfa
- Nid oes digon o gymorth a chyngor ynglŷn â'r gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ei wneud
- Byddwn yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth
- Doedd gen i mo'r cymhelliad i ddilyn cwrs
- Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfa yn eu hamser eu hunain
- Rwy'n adnabod llawer o bobl yn fy ardal i sy'n dysgu
- Does gan weddill fy nheulu ddim llawer o ddiddordeb mewn dysgu

Diben y datganiadau oedd datgelu barn pobl am ddysgu a chanfod rhwystrau i ddysgu a fyddai ddim efallai yn cael eu hamlygu trwy holi mwy uniongyrchol.

## 5.2 Agweddau at ddysgu

Roedd lefelau uwch o gytuno gyda dau o'r datganiadau hyn na gyda'r un o'r lleill. Y rhain oedd bod dysgu yn bleser ynddo'i hun (cyfanswm o 86% yn cytuno i ryw raddau) ac 'Rwy'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd' (77% yn cytuno). Mae hyn yn awgrymu fod gan y rhan fwyaf o ymatebwyr agwedd gadarnhaol at ddysgu.

Roedd rhai o'r datganiadau yn ymwneud â rhwystrau i ddysgu. Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiadau hyn,

**Tabl 5.1: Agweddau at ddysgu**

| Sylfaen: Pob ymatebydd (2009) | Cytuno'n gryf | Cytuno | Y naill na'r llall | Anghytuno | Anghytun o'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleser ynddo'i hun | 20 | 66 | 8 | 5 | * |
| Rwy'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd | 20 | 57 | 7 | 13 | 2 |
| Dwi ddim yn gweld pam y dylwn i dalu am ddysgu ar gyfer fy swydd neu yrfa | 10 | 42 | 18 | 23 | 4 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ynglŷn â'r gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ei wneud | 6 | 32 | 12 | 37 | 8 |
| Byddwn yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth | 6 | 20 | 6 | 45 | 23 |
| Does gen i mo'r cymhelliad i ddilyn cwrs | 6 | 22 | 8 | 41 | 22 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfa yn eu hamser eu hun | 4 | 24 | 16 | 45 | 9 |
| Rwy'n adnabod llawer o bobl yn fy ardal i sy'n dysgu | 4 | 34 | 11 | 37 | 9 |
| Nid oes gan weddill fy nheulu lawer o ddiddordeb mewn dysgu | 2 | 15 | 10 | 49 | 22 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero





roedd lleiafrif sylweddol yn cytuno â'r canlynol:

- Nid oes digon o gymorth a chyngor ynglŷn â'r gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ei wneud (38% yn cytuno i ryw raddau)
- Byddwn yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth (26% yn cytuno i ryw raddau)
- Does gen i mo'r cymhelliad i ddilyn cwrs (28% yn cytuno i ryw raddau)
- Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfa yn eu hamser eu hunain (28% yn cytuno i ryw raddau)

Mae'r ddau ddatganiad sydd ar ôl yn ymwneud â bod yn gyfarwydd â dysgu trwy fod mewn cysylltiad â phobl eraill sy'n dysgu ac agweddau cynhenid aelodau o'r teulu. Ar yr ochr gadarnhaol, roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad 'does gan weddill fy nheulu ddim diddordeb mewn dysgu'. Serch hynny, dim ond 34% oedd yn cytuno bod llawer o bobl yn yr ardal leol yn dysgu. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod gan ymatebwyr a'u teuluoedd agwedd gadarnhaol at yr egwyddor o ddysgu, ond nad oedd llawer ohonynt yn gwybod am ddysgwyr (nac am ddysgu) o'u cwmpas.

Mae Tabl 5.2 yn crynhoi agweddau at ddysgu yn ôl y newidynnau allweddol. O ddadansoddi'r ymatebwyr oedd yn cytuno'n gryf â'r gwahanol ddatganiadau am ddysgu, rhai o'r negeseuon cryfaf oedd:

- Bod gwahaniaethau rhwng dynion a merched ynglŷn â faint o fwynhad oedd mewn dysgu, ac ynglŷn â'u hyder mewn dysgu sgiliau newydd:
  - Roedd merched (22%) dipyn mwy tebygol na dynion (18%) o deimlo fod dysgu yn bleser ynddo'i hun
  - Roedd dynion (23%) dipyn mwy tebygol na merched (16%) o fod yn hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd

- Er bod yr ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o gredu bod dysgu yn bleser ynddo'i hun (roedd 23% o'r grŵp oedran 55+ yn cytuno'n gryf o gymharu â 14% o ymatebwyr 19 – 24 oed) yr oeddent hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddieithr mewn ystafell ddosbarth (11% o gymharu â 6% rhwng pawb) ac nad oedd ganddynt y symbyliad i ddilyn cwrs (13% o gymharu â 6% rhwng pawb).
- Roedd ymatebwyr 19 – 24 oed yn dipyn mwy tebygol o deimlo nad oedd help a chyngor ar gael nag yr oedd grwpiau eraill (13% o gymharu â 6% rhwng pawb).

- Roedd grŵp cymdeithasol economaidd DE yn dipyn mwy tebygol na'u cymheiriaid yn grŵp AB o fod wedi teimlo'n ddieithr mewn ystafell ddosbarth (12% o gymharu â 3%), heb symbyliad i ddysgu (9% o gymharu â 4%) ac yn llai tebygol o adnabod pobl sy'n dysgu (3% o gymharu â 7%). Hefyd roedd llawer yn cytuno nad oedd gan eu teuluoedd lawer o ddiddordeb mewn dysgu ac roeddent yn fwy tebygol o ddweud nad oedd help a chyngor ar gael yn gyffredinol. Nhw oedd leiaf tebygol o ddweud bod dysgu yn bleser ynddo'i hun (16% o gymharu â 31% yn grŵp cymdeithasol economaidd AB) a'u bod yn hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd (14% o gymharu â 29% ar gyfer grŵp cymdeithasol economaidd AB).

- Roedd dysgwyr diweddar (a fu'n dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf) yn dipyn mwy cadarnhaol ynglŷn â phob agwedd ar ddysgu. Roeddent yn fwy tebygol o ddweud bod dysgu yn bleser ynddo'i hun (22% o gymharu ag 17% o'r rhai oedd ddim yn ddysgwyr) ac roeddent yn fwy hyderus ynglŷn â dysgu nag yr oedd ymatebwyr oedd heb fod yn dysgu (28% o gymharu â 10% o bobl oedd ddim yn ddysgwyr), efallai oherwydd eu bod yn dipyn mwy cyfforddus mewn ystafell ddosbarth (roedd 31% yn anghytuno'n gryf y byddent yn teimlo'n ddieithr mewn ystafell ddosbarth o gymharu â 13% oedd ddim yn ddysgwyr). Roedd symbyliad yn uwch ymhlith yr ymatebwyr hyn (dywedodd 12% o'r rhai oedd ddim yn ddysgwyr yn ystod y tair blynedd ddiwethaf nad oedd ganddynt y symbyliad i ddysgu, o gymharu â 2% o'r rhai fu'n dysgu yn ystod y flwyddyn neu'r tair blynedd ddiwethaf.

- Roedd ymatebwyr o aelwydydd lle mae rhywun mewn gwaith yn ymddangos yn fwy hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd (22% yn cytuno o gymharu â 14% o aelwydydd lle nad oes neb mewn gwaith) ond yn llai tebygol

**Tabl 5.2: Agwedd at ddysgu yn ôl rhyw, oedran ac amgylchiadau'r aelwyd (mae'r tabl yn dangos y canran sy'n cytuno'n gryf)**

| | | Rhyw | | Oed | | | | | | Amgylchiadau domestig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Dynion | Merched | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Rhywun yn gweithio | Neb yn gweithio |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 946 | 1061 | 87 | 175 | 343 | 385 | 281 | 732 | 1277 | 732 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 1011 | 996 | **75 | 176 | 370 | 383 | 280 | 723 | 1416 | 593 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleser ynddo'i hun | 20 | 18 | 22 | 19 | 14 | 19 | 16 | 22 | 23 | 18 | 25 |
| Rwy'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd | 20 | 23 | 16 | 37 | 30 | 24 | 21 | 19 | 12 | 22 | 14 |
| Dwi ddim yn gweld pam y dylwn i dalu am ddysgu ar gyfer fy swydd neu yrfa | 10 | 10 | 11 | 15 | 18 | 12 | 13 | 8 | 7 | 12 | 8 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ynglŷn â'r gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ei wneud | 6 | 5 | 7 | 2 | 13 | 5 | 8 | 5 | 5 | 6 | 7 |
| Byddwn yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth | 6 | 6 | 6 | 2 | 2 | 3 | 6 | 3 | 11 | 4 | 11 |
| Does gen i mo'r cymhelliad i ddilyn cwrs | 6 | 7 | 6 | 2 | 1 | 2 | 2 | 4 | 13 | 4 | 11 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfa yn eu hamser eu hun | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 5 | 6 | 2 | 3 | 5 | 3 |
| Rwy'n adnabod llawer o bobl yn fy ardal i sy'n dysgu | 4 | 5 | 4 | 25 | 11 | 4 | 3 | 4 | 2 | 4 | 5 |
| Nid oes gan weddill fy nheulu lawer o ddiddordeb mewn dysgu | 2 | 2 | 2 | 4 | 1 | 2 | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)





o fwynhau dysgu ynddo'i hun (18% o gymharu â 25%). Hefyd yr oedd pobl o aelwydydd lle mae rhywun mewn gwaith yn llai tebygol o deimlo'n ddieithr mewn ystafell ddosbarth (20% o gymharu â 39% o aelwydydd lle nad oes neb mewn gwaith) ac yn llai tebygol o gytuno nad oes ganddynt y symbyliad i ddilyn cwrs (22% o gymharu â 45% o aelwydydd lle nad oes neb mewn gwaith).

- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr a adawodd addysg llawn amser yn 16 oed neu lai, neu rai oedd a chymwysterau CGC lefel 1 neu lai yn llai cadarnhaol, yn arbennig ynglŷn â dysgu sgiliau newydd, teimlo'n ddieithr mewn ystafell ddosbarth a theimlo nad oedd ganddynt y symbyliad i ddilyn cwrs.

**Tabl 5.3: Agweddau at ddysgu yn ôl grŵp cymdeithasol economaidd a gweithgarwch dysgu (mae'r tabl yn dangos y canran sy'n cytuno'n gryf)**

| | | Grŵp cymdeithasol economaidd | | | | Statws dysgu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE | Dysgu yn y flwyddyn | Dysgu yn ystod y 3 blynedd | Dim dysgu yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 336 | 452 | 463 | 758 | 934 | 1139 | 869 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 399 | 499 | 479 | 633 | 1008 | 1209 | 799 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleser ynddo'i hun | 20 | 31 | 20 | 16 | 16 | 22 | 22 | 17 |
| Rwy'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd | 20 | 29 | 21 | 17 | 14 | 28 | 26 | 10 |
| Dwi ddim yn gweld pam y dylwn i dalu am ddysgu ar gyfer fy swydd neu yrfa | 10 | 8 | 10 | 11 | 12 | 12 | 11 | 9 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ynglŷn â'r gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ei wneud | 6 | 4 | 5 | 5 | 9 | 6 | 6 | 6 |
| Byddwn yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth | 6 | 3 | 3 | 5 | 12 | 2 | 2 | 12 |
| Does gen i mo'r cymhelliad i ddilyn cwrs | 6 | 4 | 5 | 5 | 9 | 2 | 2 | 12 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfa yn eu hamser eu hun | 4 | 4 | 5 | 3 | 4 | 5 | 4 | 4 |
| Rwy'n adnabod llawer o bobl yn fy ardal i sy'n dysgu | 4 | 7 | 5 | 3 | 3 | 6 | 6 | 2 |
| Nid oes gan weddill fy nheulu lawer o ddiddordeb mewn dysgu | 2 | 2 | 1 | 3 | 2 | 1 | 2 | 2 |

**Tabl 5.4: Agweddau at ddysgu yn ôl lefel cymwysterau (mae'r tabl yn dangos y canran sy'n cytuno'n gryf)**

| | | Lefel cymwysterau*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Dim cymwysterau | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 229 | 397 | 322 | 391 | 51 | 404 | 215 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 219 | 393 | 344 | 451 | **64 | 337 | 201 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleser ynddo'i hun | 20 | 14 | 14 | 21 | 30 | 32 | 16 | 18 |
| Rwy'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd | 20 | 16 | 20 | 25 | 30 | 18 | 8 | 9 |
| Dwi ddim yn gweld pam y dylwn i dalu am ddysgu ar gyfer fy swydd neu yrfa | 10 | 10 | 13 | 12 | 10 | 3 | 8 | 9 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ynglŷn â'r gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ei wneud | 6 | 5 | 8 | 5 | 7 | 2 | 7 | 5 |
| Byddwn yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth | 6 | 4 | 4 | 5 | 1 | * | 17 | 13 |
| Does gen i mo'r cymhelliad i ddilyn cwrs | 6 | | | | | | | |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfa yn eu hamser eu hun | 4 | 6 | 3 | 3 | 6 | 1 | 4 | 3 |
| Rwy'n adnabod llawer o bobl yn fy ardal i sy'n dysgu | 4 | 1 | 5 | 8 | 6 | 3 | 3 | 2 |
| Nid oes gan weddill fy nheulu lawer o ddiddordeb mewn dysgu | 2 | 2 | 4 | 1 | * | * | 4 | 1 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) *** Mae lefelau cymwysterau yn cyfateb i CGC lefel 1 – 5.

## 5.3 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod dysgu yn bleser ynddo'i hun a'u bod yn hyderus yn eu gallu i ddysgu (86% a 77% yn y drefn honno).

O ran eu hymrwymiad i ddysgu er mwyn mynd ymlaen yn eu gwaith neu yn eu gyrfa roedd 52% yn cytuno na ddylent orfod talu am ddysgu oedd a wnelo a'u gwaith ac roedd 28% yn teimlo na ddylai pobl orfod dysgu sgiliau ar gyfer eu gwaith yn eu hamser eu hunain. Er bod y canrannau hyn yn gymharol uchel, roedd sylfaen gref o ymatebwyr yn derbyn, i ryw raddau, fod yn rhaid iddynt wneud yr ymrwymiad yma er mwyn datblygu gyrfa.

O safbwynt demograffeg allweddol:

- Roedd merched ac ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o gytuno bod 'dysgu yn bleser ynddo'i hun';





**Tabl 5.5: Agweddau at ddysgu yn ôl oed gadael addysg llawn amser (mae'r tabl yn dangos y canran sy'n cytuno'n gryf)**

| | | Oed gadael addysg llawn amser | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | 16 neu lai | Oed 17 | Oed 18 | 19 – 20 | 21+ |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 1290 | 181 | 157 | 105 | 199 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 1208 | 188 | 176 | 121 | 244 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Mae dysgu yn bleser ynddo'i hun | 20 | 17 | 13 | 18 | 21 | 38 |
| Rwy'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd | 20 | 16 | 17 | 18 | 19 | 32 |
| Dwi ddim yn gweld pam y dylwn i dalu am ddysgu ar gyfer fy swydd neu yrfa | 10 | 10 | 9 | 16 | 9 | 9 |
| Nid oes digon o gymorth a chyngor ynglŷn â'r gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ei wneud | 6 | 6 | 7 | 7 | 10 | 4 |
| Byddwn yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth | 6 | 9 | 2 | 1 | 5 | 1 |
| Does gen i mo'r cymhelliad i ddilyn cwrs | 6 | 8 | 3 | 4 | 7 | 2 |
| Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfa yn eu hamser eu hun | 4 | 5 | 2 | 3 | 4 | 6 |
| Rwy'n adnabod llawer o bobl yn fy ardal i sy'n dysgu | 4 | 2 | 2 | 6 | 2 | 7 |
| Nid oes gan weddill fy nheulu lawer o ddiddordeb mewn dysgu | 2 | 3 | 2 | 2 | – | – |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)

- Roedd ymatebwyr hŷn, grŵp cymdeithasol economaidd DE ac ymatebwyr o gartrefi lle nad oedd neb mewn gwaith yn dipyn mwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth;
- Roedd grwpiau cymdeithasol economaidd is hefyd yn fwy tebygol o gytuno nad oedd gan eu teulu unrhyw ddiddordeb mewn dysgu, nad oedd help a chyngor ar gael iddynt a'u bod yn llai hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd;
- Roedd ymatebwyr oedd â chymwysterau CGC lefel 1 neu lai yn llai cadarnhaol yn gyffredinol, yn arbennig ynglŷn â dysgu sgiliau newydd, teimlo'n ddieithr mewn dosbarth a pheidio â theimlo symbyliad i ddilyn cwrs.
- Roedd pobl oedd yn gadael addysg llawn amser yn 21+ oed yn dipyn mwy tebygol o deimlo'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd na neb oedd wedi gadael addysg cyn hynny.
- Roedd dysgwyr diweddar (fu'n dysgu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf) yn dipyn mwy tebygol o fod yn gadarnhaol ynglŷn â phob agwedd ar ddysgu;

# 6.0 SYMBYLIAD I DDYSGU

## 6.1 Cyflwyniad

Dangoswyd i'r ymatebwyr fu'n cymryd rhan mewn unrhyw ddysgu neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (ac eithrio ymatebwyr oedd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol fel iechyd a diogelwch neu gyrsiau sefydlu staff) restr o resymau pam y gallai pobl fod eisiau dysgu am bwnc neu sgil arbennig. Wedyn gofynnwyd iddynt ba rai o'r rhesymau hyn oedd yn disgrifio orau pam yr aethant ati i ddysgu. Gofynnwyd iddynt beth, os unrhyw beth o gwbl, oedd wedi digwydd o ganlyniad i'r dysgu hwnnw.

## 6.2 Rhesymau dros gymryd rhan

Y tri phrif reswm dros ddewis dysgu am bwnc neu sgil arbennig oedd er mwyn helpu yn y swydd bresennol (24%), er mwyn cael swydd (15%) ac er mwyn cael cymhwyster cydnabyddedig (10%).

Atebion eraill a roddwyd gan rhwng 5% a 9% o ymatebwyr oedd:

- Mae gen i ddiddordeb yn y pwnc/diddordeb personol (9%)
- I'm datblygu fy hun fel person (7%)
- I newid y math o waith yr wyf yn ei wneud (6%)

Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng rhesymau dynion a merched dros gymryd rhan mewn unrhyw ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond roedd oedran a statws cyflogaeth yn ymddangos yn ddylanwad ar resymau pobl dros gymryd rhan mewn dysgu:

- Roedd dysgwyr 16 – 18 oed yn dipyn mwy tebygol o ddweud y byddai'n help iddynt gael ar gwrs dysgu arall yn y dyfodol (14% o gymharu â 2% rhwng pawb).
- Roedd ymatebwyr o dan 25 oed yn fwy tebygol o ddilyn cwrs o ddysgu er mwyn cael swydd (38%) ac er mwyn cael cymhwyster cydnabyddedig (18%) o gymharu â 15% and 10% rhwng pawb.
- Roedd ymatebwyr 25 i 54 oed yn meddwl y byddai'n help iddynt yn eu swydd bresennol (32%).
- Roedd ymatebwyr 55+ oed yn fwy tebygol na grwpiau iau o ddweud eu bod wedi cymryd rhan oherwydd bod ganddynt ddiddordeb yn y pwnc neu am fod ganddynt ddiddordeb personol yn y mater (22% o gymharu â 5% o ymatebwyr 19 – 24 oed) neu maent yn mwynhau dysgu/yn rhoi pleser iddynt (12% o gymharu â 2% o ymatebwyr 19 – 24 oed).
- Roedd ymatebwyr oedd ddim mewn gwaith neu oedd mewn addysg llawn amser yn fwy tebygol na grwpiau eraill o fod wedi dechrau dysgu er mwyn eu helpu i gael swydd (21% and 46% yn y drefn honno).
- Roedd pobl sydd wedi ymddeol yn llawer mwy tebygol o ymgymryd â dysgu oherwydd diddordeb personol a mwynhad na grwpiau eraill. Yn arbennig, roeddent yn dysgu gan fod ganddynt ddiddordeb yn y pwnc neu ddiddordeb personol yn y mater (39% o gymharu â 9% rhwng pawb).
- Roedd ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd AB yn dipyn mwy tebygol na grŵp DE o ddechrau dysgu er mwyn helpu gyda'u swydd bresennol (27% o gymharu â 17%), ac roedd ymatebwyr o grŵp C1 yn dipyn mwy tebygol o ddechrau dysgu er mwyn cael dyrchafiad (6% o gymharu â 2% o grŵp DE ac AB)
- Roedd ymatebwyr oedd a chymhwyster lefel gradd neu uwch (lefel 4 neu 5) yn dipyn mwy tebygol o gael eu symbylu trwy fod yn well yn eu swydd bresennol (21% ar gyfer lefel 4; 34% ar gyfer lefel 5) o gymharu â rhai oedd wedi eu cymhwyso at lefel 1 (11%), lefel 2 (13%) neu lefel 3 (12%).
- Roedd pobl oedd â chymhwyster CGC lefel 1 neu gyfatebol (6%) yn dipyn mwy tebygol na phobl oedd â gradd neu gymhwyster cyfatebol (1%) o gael eu symbylu gan yr awydd i gael swydd gyda chyflogwr arall.





**Tabl 6.1: Y prif reswm dros gychwyn prif weithgaredd dysgu/hyfforddi yn ôl rhyw ac oedran.**

| | | Rhyw | | Oed | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd fu'n dysgu/hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm | Dynion | Merched | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 873 | 415 | 458 | 74 | 114 | 194 | 195 | 136 | 157 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 941 | 479 | 462 | **67 | 125 | 223 | 205 | 143 | 177 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| I'm helpu yn fy swydd bresennol | 24 | 23 | 25 | 2 | 13 | 28 | 29 | 39 | 16 |
| Er mwyn cael swydd | 15 | 17 | 12 | 42 | 36 | 15 | 7 | 8 | 2 |
| Er mwyn cael cymhwyster cydnabyddedig | 10 | 10 | 11 | 18 | 18 | 10 | 10 | 6 | 6 |
| Mae gen i ddiddordeb yn y pwnc/diddordeb personol | 9 | 9 | 8 | 5 | 5 | 7 | 4 | 6 | 22 |
| I ddatblygu fy hunan fel person | 7 | 6 | 9 | 6 | 4 | 7 | 5 | 8 | 14 |
| I newid y math o waith rwy'n ei wneud | 6 | 6 | 6 | 2 | 2 | 6 | 13 | 8 | 3 |
| Rwy'n mwynhau dysgu/ mae'n rhoi pleser i mi | 4 | 4 | 4 | – | 2 | 2 | 3 | 2 | 12 |
| Er mwyn cael dyrchafiad | 3 | 3 | 3 | – | 5 | 3 | 7 | 1 | 1 |
| I gael mwy o foddhad yn fy ngwaith | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 2 | 6 | 5 |
| Nid fi sydd i ddewis – y cyflogwr yn mynnu | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Nid fi sydd i ddewis – gofynion y proffesiwn | 2 | 2 | 3 | – | – | 4 | 1 | 3 | 4 |
| I gael codiad cyflog | 2 | 2 | 2 | – | 4 | 4 | 3 | – | 1 |
| Er mwyn cael swydd gyda chyflogwr arall | 2 | 2 | 1 | – | 3 | 2 | 4 | 1 | – |
| Er mwyn cael mynd ar gwrs dysgu yn y dyfodol | 2 | 2 | 2 | 14 | 4 | 1 | 1 | 1 | – |
| I wella fy hunan hyder | 1 | 1 | 2 | 3 | – | 1 | 2 | 1 | 2 |
| Er mwyn helpu neu gadw i fyny â 'r plant/wyrion | 1 | 1 | 2 | – | – | 1 | 1 | * | 4 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero
** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol neu wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn eu gwaith
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'

**Tabl 6.2: Y prif reswm dros gychwyn ar brif weithgaredd dysgu/hyfforddi yn ôl statws cyflogaeth**

| | | Statws cyflogaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd – dysgu/hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm | Gweithio llawn amser | Gweithio rhan amser | Hunan gyflogedig | Ddim mewn gwaith | Addysg llawn amser | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 873 | 381 | 138 | 41 | 132 | 85 | 84 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 941 | 470 | 157 | **54 | 94 | **76 | **79 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| I'm helpu yn fy swydd bresennol | 24 | 30 | 35 | 35 | 5 | 0 | 5 |
| Er mwyn cael swydd | 15 | 11 | 9 | 5 | 31 | 46 | 1 |
| Er mwyn cael cymhwyster cydnabyddedig | 10 | 11 | 10 | 7 | 8 | 21 | 3 |
| Mae gen i ddiddordeb yn y pwnc/diddordeb personol | 9 | 4 | 6 | 9 | 13 | 7 | 39 |
| I ddatblygu fy hunan fel person | 7 | 7 | 6 | 11 | 10 | 3 | 13 |
| I newid y math o waith rwy'n ei wneud | 6 | 8 | 7 | 8 | 4 | 7 | – |
| Rwy'n mwynhau dysgu/ mae'n rhoi pleser i mi | 4 | 2 | 3 | 4 | 3 | 2 | 18 |
| Er mwyn cael dyrchafiad | 3 | 5 | 3 | 1 | * | – | 1 |
| I gael mwy o foddhad yn fy ngwaith | 3 | 3 | 3 | 9 | 1 | – | 3 |
| Nid fi sydd i ddewis – y cyflogwr yn mynnu | 3 | 5 | 2 | – | 2 | – | 1 |
| Nid fi sydd i ddewis – gofynion y proffesiwn | 2 | 3 | 2 | 4 | 1 | – | 1 |
| I gael codiad cyflog | 2 | 4 | 2 | – | 1 | – | – |
| Er mwyn cael swydd gyda chyflogwr arall | 2 | 2 | 1 | – | 2 | 2 | – |
| Er mwyn cael mynd ar gwrs dysgu yn y dyfodol | 2 | 1 | 2 | 2 | 2 | 12 | – |
| I wella fy hunan hyder | 1 | 1 | 3 | – | 1 | – | 4 |
| Er mwyn helpu neu gadw i fyny â'r plant/wyrion | 1 | * | 1 | – | 3 | – | 5 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero
** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol neu wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn eu gwaith
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'. Mae rhai ymatebwyr sydd ddim mewn gwaith wedi nodi cymhellion sy'n gysylltiedig â gwaith. Credwn y gallai hyn fod oherwydd eu bod wedi colli eu gwaith ar ôl y gweithgaredd dysgu neu oherwydd cyfnod o fod yn ddi-waith dros dro.





### Tabl 6.3: Y prif reswm dros gychwyn y prif weithgaredd dysgu/hyfforddiant yn ôl lefel cymwysterau

| | | Lefel cymwysterau**** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd fu'n dysgu/hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf*** | Cyfanswm | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Dim cymhwyster | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 873 | 84 | 209 | 158 | 274 | 37 | 67 | 44 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 941 | **83 | 209 | 174 | 328 | **50 | **57 | **39 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| I'm helpu yn fy swydd bresennol | 24 | 21 | 21 | 19 | 30 | 16 | 26 | 20 |
| Er mwyn cael swydd | 15 | 13 | 20 | 14 | 12 | 15 | 21 | 4 |
| Er mwyn cael cymhwyster cydnabyddedig | 10 | 13 | 10 | 13 | 10 | 9 | 5 | 3 |
| Mae gen i ddiddordeb yn y pwnc/diddordeb personol | 9 | 12 | 5 | 8 | 8 | 12 | 12 | 16 |
| I ddatblygu fy hunan fel person | 7 | 9 | 5 | 7 | 7 | 20 | 5 | 17 |
| I newid y math o waith rwy'n ei wneud | 6 | 2 | 5 | 7 | 8 | 6 | 3 | 10 |
| Rwy'n mwynhau dysgu/ mae'n rhoi pleser i mi | 4 | 2 | 5 | 2 | 4 | 6 | 2 | 8 |
| Er mwyn cael dyrchafiad | 3 | 2 | 4 | 6 | 2 | * | 2 | * |
| I gael mwy o foddhad yn fy ngwaith | 3 | 4 | 2 | 3 | 2 | 2 | 5 | 12 |
| Nid fi sydd i ddewis – y cyflogwr yn mynnu | 3 | 2 | 5 | 3 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Nid fi sydd i ddewis – gofynion y proffesiwn | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | 5 | * | * |
| I gael codiad cyflog | 2 | 3 | * | 4 | 2 | 3 | * | * |
| Er mwyn cael swydd gyda chyflogwr arall | 2 | 6 | 1 | 2 | 1 | * | * | 2 |
| Er mwyn cael mynd ar gwrs dysgu yn y dyfodol | 2 | 1 | 5 | 2 | 1 | * | 1 | * |
| I wella fy hunan hyder | 1 | 1 | 2 | * | 1 | * | 5 | 1 |
| Er mwyn helpu neu gadw i fyny â'r plant/wyrion | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | * | 3 | 1 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol neu wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn eu gwaith
**** Mae lefelau cymwysterau yn cyfateb i CGC lefel 1 – 5.
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'. Mae rhai ymatebwyr sydd ddim mewn gwaith wedi nodi cymhellion sy'n gysylltiedig â gwaith. Credwn y gallai hyn fod oherwydd eu bod wedi colli eu gwaith ar ôl y gweithgaredd dysgu neu oherwydd cyfnod o fod yn ddi-waith dros dro.

## Tabl 6.4: Effeithiau dysgu/hyfforddiant yn ôl rhyw ac oedran

| | | Rhyw | | Oed yr ymatebydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd fu'n dysgu/hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf*** | Cyfanswm | Dynion | Merched | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 873 | 415 | 458 | 74 | 114 | 194 | 195 | 136 | 157 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 941 | 479 | 462 | **67 | 125 | 223 | 205 | 143 | 177 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Enillais hyder yn fy ngallu fy hunan | 34 | 28 | 41 | 40 | 34 | 34 | 31 | 36 | 36 |
| Roeddwn yn gallu gwneud fy swydd yn well | 32 | 32 | 32 | 4 | 27 | 37 | 36 | 48 | 20 |
| Dysgais sgiliau newydd ar gyfer y swydd yr oeddwn yn ei gwneud ar y pryd | 31 | 32 | 29 | 10 | 18 | 40 | 39 | 34 | 23 |
| Cefais fwy o foddhad o'r gwaith yr oeddwn yn ei wneud ar y pryd | 19 | 19 | 18 | 5 | 12 | 16 | 22 | 27 | 21 |
| Datblygais ddiddordebau personol oedd a wnelo ddim â'r gwaith | 15 | 14 | 15 | 14 | 10 | 11 | 11 | 15 | 27 |
| Cefais swydd newydd | 12 | 11 | 14 | 15 | 25 | 18 | 10 | 5 | 3 |
| Cefais fath gwahanol o waith i'w wneud | 10 | 11 | 9 | 2 | 9 | 16 | 16 | 6 | 4 |
| Cefais godiad cyflog yn y swydd yr oeddwn yn ei gwneud ar y pryd | 9 | 10 | 8 | 2 | 11 | 15 | 9 | 6 | 6 |
| Cefais ddyrchafiad yn y cwmni lle roeddwn yn gweithio ar y pryd | 8 | 7 | 8 | – | 13 | 10 | 9 | 4 | 5 |
| Canlyniad arall cysylltiedig â'r gwaith | 4 | 5 | 3 | – | 3 | 9 | 3 | 6 | 1 |
| Helpodd fi gyda phroblemau iechyd/anabledd cysylltiedig â'r gwaith | 3 | 3 | 2 | 3 | – | 3 | 4 | 2 | 2 |
| Sefydlais fusnes/busnes teulu fy hun | 3 | 3 | 2 | 1 | 1 | 3 | 4 | 1 | 3 |
| Arhosais mewn swydd y gallwn fod wedi ei cholli oni bai am yr hyfforddiant | 3 | 3 | 4 | – | * | 6 | 4 | 6 | * |
| Arall | 5 | 5 | 6 | 5 | 12 | 4 | 4 | 4 | 7 |
| Dim un o'r rhain/wnaeth dim byd ddigwydd | 12 | 14 | 10 | 25 | 15 | 7 | 9 | 14 | 12 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 1 | 1 | 4 | 2 | – | 1 | – | 1 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) *** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol neu wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn eu gwaith Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% neu lai.



## 6.3 Effeithiau uniongyrchol dysgu/hyfforddiant

Gofynnwyd i ymatebwyr oedd wedi cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (ac eithrio rhai oedd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith) ynglŷn ag effeithiau posib eu dysgu neu hyfforddiant. Rhoddwyd rhestr o ddewisiadau posib iddynt ac roedd hawl iddynt roi mwy nag un ateb.

Dywedodd ychydig dros un o bob deg (12%) na ddigwyddodd dim o ganlyniad i'w dysgu neu'u hyfforddi. Ond cafodd hyfforddiant effaith gadarnhaol ar lawer o ymatebwyr. Adroddodd ychydig dros draean (34%) eu bod wedi cael hyder yn eu gallu eu hun, roedd 32% yn gallu gwneud eu swydd yn well a dysgodd 31% sgiliau newydd ar gyfer y swydd yr oeddent yn eu gwneud ar y pryd.

Dywedodd o leiaf un o bob deg (10%) ei fod wedi eu galluogi nhw i:

- Gael mwy o fodlonrwydd yn y gwaith yr oeddent yn ei wneud ar y pryd (19%)
- Datblygu diddordebau personol oedd ddim yn berthnasol i'r gwaith (15%)
- I gael swydd newydd (12%)
- I newid i fath gwahanol o waith (10%)

Roedd yr ymatebwyr yn sôn am wahaniaethau pwysig yn effeithiau dysgu:

**Effeithiau yn ymwneud â thwf/datblygiad personol:**

- Roedd merched yn dipyn mwy tebygol o fod wedi ennill hyder (41% o gymharu â 28% o ddynion)
- Dywedodd ymatebwyr mwy aeddfed eu bod wedi dod o hyd i ddiddordeb personol oedd ddim yn berthnasol i'r gwaith (27% o gymharu â 15% rhwng pawb).

**Effeithiau yn ymwneud â'r swydd bresennol/datblygu swydd:**

- Ymddangosai bod ymatebwyr 45 – 54 oed wedi gweld manteision dysgu yn y maes hwn. Roeddent yn dipyn mwy tebygol na llawer grŵp oedran arall o ddweud eu bod yn gallu gwneud eu swydd yn well (48% o gymharu â 32% rhwng pawb) ac/neu i ddweud eu bod yn cael mwy o fodlonrwydd o'u gwaith (27% o gymharu â 19% rhwng pawb).
- Roedd yn ddiddorol bod pobl mewn gwaith llawn amser yn dipyn mwy tebygol na phobl mewn swyddi rhan amser o ddweud bod hyfforddiant neu ddysgu wedi eu helpu i gael codiad cyflog (14% o gymharu â 7%).

**Effeithiau yn ymwneud â newid gyrfa/swydd:**

- Roedd ymatebwyr 25 – 34 a 35 – 44 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi newid i fath arall o waith na'u cymheiriaid hŷn neu ieuengach (16% ar gyfer y ddau grŵp o gymharu â 9% o'r grŵp 19 – 24 oed a 4% o'r grŵp 55+).

### Tabl 6.5: Effeithiau dysgu/hyfforddiant yn ôl statws cyflogaeth

| | | Statws cyflogaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd fu'n dysgu/hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf*** | Cyfanswm | Gweithio llawn amser | Gweithio rhan amser | Hunan gyflogedig | Ddim mewn gwaith | Addysg llawn amser | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 873 | 381 | 138 | 41 | 132 | 85 | 84 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 941 | 470 | 157 | **54 | 94 | **76 | **79 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Enillais hyder yn fy ngallu fy hunan | 34 | 31 | 37 | 17 | 47 | 33 | 46 |
| Roeddwn yn gallu gwneud fy swydd yn well | 32 | 43 | 32 | 37 | 14 | 2 | 10 |
| I learned new skills for the job I was doing at the time | 31 | 40 | 36 | 29 | 15 | 3 | 10 |
| Cefais fwy o foddhad o'r gwaith yr oeddwn yn ei wneud ar y pryd | 19 | 21 | 24 | 19 | 12 | 5 | 12 |
| Datblygais ddiddordebau personol oedd a wnelo ddim â'r gwaith | 15 | 9 | 14 | 24 | 17 | 16 | 42 |
| Cefais swydd newydd | 12 | 17 | 12 | 5 | 11 | 8 | 1 |
| Cefais fath gwahanol o waith i'w wneud | 10 | 14 | 10 | 6 | 6 | 3 | 1 |
| Cefais godiad cyflog yn y swydd yr oeddwn yn ei gwneud ar y pryd | 9 | 14 | 7 | – | 6 | – | 4 |
| Cefais ddyrchafiad yn y cwmni lle roeddwn yn gweithio ar y pryd | 8 | 11 | 7 | 3 | 3 | 2 | 4 |
| Canlyniad arall cysylltiedig â'r gwaith | 4 | 5 | 4 | 7 | 3 | 3 | – |
| Helpodd fi gyda phroblemau iechyd/anabledd cysylltiedig â'r gwaith | 3 | 3 | 2 | – | 4 | 3 | 3 |
| Sefydlais fusnes/busnes teulu fy hun | 3 | 2 | 1 | 11 | 3 | 1 | 3 |
| Arhosais mewn swydd y gallwn fod wedi ei cholli oni bai am yr hyfforddiant | 3 | 4 | 4 | 7 | 1 | – | 1 |
| Arall | 5 | 3 | 6 | 4 | 7 | 20 | 5 |
| Dim un o'r rhain/wnaeth dim byd ddigwydd | 12 | 9 | 15 | 1 | 14 | 29 | 10 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 1 | – | 2 | – | 6 | 1 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero
** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol neu wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn eu gwaith
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% neu lai.





## 6.4 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Roedd symbyliad pobl i ddysgu yn gysylltiedig yn bennaf â'u swydd neu eu gyrfa. Dywedodd bron i'w chwarter (24%) eu bod wedi dechrau dilyn y math o ddysgu a fyddai'n eu helpu yn eu swydd bresennol, aeth 15% i ddysgu er mwyn cael swydd ac roedd 10% eisiau'r cymhwyster. Roedd yr ymatebwyr iau yn cael eu gyrru'n fwy gan eu swydd neu yrfa na'r ymatebwyr hŷn, a oedd yn fwy tebygol o sôn am ddiddordeb personol fel eu rheswm dros fynd ar y cwrs.

O safbwynt demograffeg:

- Roedd yr ymatebwyr oedd yn cael eu symbylu i ddysgu er mwyn cael gwaith, cael cymhwyster cydnabyddedig neu gael ar gwrs hyfforddi arall yn debygol o fod o dan 25 oed, mewn addysg llawn amser neu heb waith ar hyn o bryd.
- Roedd ymatebwyr oedd yn cael eu symbylu gan ddysgu a fyddai'n eu helpu yn eu swydd bresennol yn tueddu i fod rhwng 35 a 54 oed ac yn fwy tebygol o fod yn grwpiau cymdeithasol economaidd AB, C1 neu C2
- Ymatebwyr 35 – 44 oed oedd fwyaf tebygol o ddechrau dysgu er mwyn newid y math o waith yr oeddent yn ei wneud
- Roedd ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd C1 yn dipyn mwy tebygol o ddechrau dysgu er mwyn cael dyrchafiad
- Ymatebwyr 55+ oed a phobl wedi ymddeol oedd fwyaf tebygol o ddysgu am fod ganddynt ddiddordeb yn y pwnc, am ei fod yn rhoi boddhad iddynt neu er mwyn eu datblygu fel person. Nhw hefyd oedd fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn dysgu am ei fod yn cael ei gynnal mewn lleoliad cymunedol cyfarwydd.
- Roedd ymatebwyr oedd â chymhwyster CGC lefel 1 neu gyfatebol yn dipyn mwy tebygol o gael eu symbylu gan yr awydd i gael swydd gyda chyflogwr gwahanol.

O safbwynt yr effaith ar ddysgu, er bod 12% wedi dweud nad oedd dim wedi digwydd o ganlyniad, roedd y mwyafrif yn gweld cysylltiad rhwng dysgu a gwahanol ganlyniadau. Y canlyniad y soniwyd amdano fwyaf oedd mwy o hyder yn eu gallu eu hunain (34%), eu bod yn gallu gwneud eu swydd yn well (32%) a/neu eu bod wedi cael sgiliau newydd ar gyfer swydd yr oeddent yn ei gwneud ar y pryd (31%). Dyma rai pwyntiau i sylwi arnynt:

- Roedd effeithiau oedd yn ymwneud â helpu gyda'r swydd neu yrfa bresennol yn cael eu crybwyll yn benodol gan ymatebwyr yn y grŵp 45 i 54 oed
- Roedd pobl oedd yn gweithio'n llawn amser yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael codiad cyflog o ganlyniad i'r dysgu nag oedd pobl oedd yn gweithio rhan amser
- Roedd merched yn fwy tebygol o sôn am effeithiau yn ymwneud â datblygiad personol (yn arbennig mwy o hyder) a dysgwyr mwy aeddfed (diddordeb personol)
- Yn y grwpiau oed 25 – 25 a 35 – 44 effeithiau yn ymwneud â newid swydd/gyrfa oedd bwysicaf.

# 7.0 RHWYSTRAU I DDYSGU

## 7.1 Cyflwyniad

Gofynnwyd i ymatebwyr oedd heb wneud unrhyw hyfforddiant neu ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu oedd ddim ond wedi cymryd rhan mewn cwrs cyffredinol yn y gwaith neu dreulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau beth, os oedd unrhyw beth o gwbl, oedd wedi eu rhwystro nhw rhag dysgu neu astudio pethau newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cawsant ddewis o blith atebion oedd wedi cael eu codio ymlaen llaw ac fe'u holwyd a oedd rhesymau eraill.

## 7.2 Rhwystrau i ddysgu

Y prif resymau a roddwyd dros beidio â chymryd rhan mewn unrhyw ddysgu neu astudio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd diffyg amser ac ymrwymiadau eraill. Doedd gan ymatebwyr ddim digon o amser (22%), roedd ganddynt ymrwymiadau teuluol neu ofal plant (14%) neu roedd pwysau gwaith/oriau gwaith yn golygu nad oeddent yn gallu dechrau dysgu (11%).

Roedd rhyw ac oedran yn dylanwadu ar y rhesymau a roddwyd:

- Roedd dynion yn llawer mwy tebygol na merched o ddweud bod pwysau gwaith/oriau gwaith wedi eu hatal rhag dysgu (15% o gymharu â 7%).
- Doedd gan ymatebwyr o dan 55 oed ddim digon o amser o gymharu â rhai dros 55 oed (31% o gymharu â 14%).
- Roedd merched (21%) a rhai dan 45 oed (28%) yn dipyn mwy tebygol na dynion (7%) a phobl dros 45 oed (6%) o ddweud bod ymrwymiadau teuluol/gofal plant a gofal henoed yn ffactor.
- Roedd ymatebwyr 19 i 24 oed yn fwy tebygol o ddweud bod cyrsiau yn rhy ddrud (11% o gymharu â 1% ar gyfer ymatebwyr 55+ oed)
- Credai 12% eu bod yn rhy hen ac roedd hyn yn arbennig o wir am bobl 55+ oed (22%).

Yn yr un modd roedd statws cyflogaeth yn rheswm pwysig dros beidio dilyn unrhyw gwrs dysgu yn ystod y flwyddyn.

- Roedd ymatebwyr oedd mewn gwaith (naill ai llawn amser, rhan amser neu hunan gyflogedig) yn dipyn mwy tebygol o ddweud nad oedd ganddynt amser i ymgymryd â dysgu
- Roedd gweithwyr llawn amser (26%) a'r hunan gyflogedig (31%) yn arbennig yn cael eu heffeithio gan bwysau gwaith a'u horiau gwaith
- Roedd ymrwymiadau teuluol a gofal plant yn rhwystrau i ddysgu yn arbennig i weithwyr rhan amser (32%) a phobl oedd ddim mewn gwaith (27%).

Os edrychwn ar yr ymatebion yn ôl lefel cymwysterau'r ymatebydd, daw'r gwahaniaethau canlynol i'r amlwg:

- Mae'r rhai gyda chymwysterau hyd at CGC lefel 2 (24%) yn dipyn mwy tebygol nag ymatebwyr eraill o ddweud bod ymrwymiadau teuluol neu ofal plant yn rhwystr i ddysgu;
- Mae'r rhai gyda chymwysterau hyd at CGC lefel 2 (31%) yn dipyn mwy tebygol o ddweud bod diffyg amser yn rhwystr i ddysgu o gymharu â phobl heb ddim cymwysterau (13%)
- Mae pwysau gwaith neu oriau gwaith yn fwy tebygol o effeithio ar rai sydd â chymwysterau at CGC lefel 3 (20%) yn arbennig o gymharu â rhai sydd heb ddim cymwysterau (4%);
- Mae pobl heb ddim cymwysterau yn dipyn mwy tebygol o ddweud eu bod yn rhy hen (24%) o gymharu â rhai sydd â chymwysterau hyd at CGC lefel 1 – 4 neu gyfatebol. Maent hefyd yn fwy tebygol o ddweud nad yw dysgu yn berthnasol iddynt (11%).





**Tabl 7.1: Rhwystrau i ddysgu yn ôl rhyw ac oedran**

| | | Rhyw | | Oed | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd fu'n dysgu/hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm | Dynion | Merched | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 1136 | 531 | 603 | 61 | 149 | 190 | 145 | 575 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 1068 | 531 | 535 | **51 | 147 | 177 | 137 | 546 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Dim digon o amser | 22 | 22 | 22 | 24 | 35 | 29 | 33 | 14 |
| Ymrwymiadau teuluol/gofal plant | 14 | 7 | 21 | 34 | 33 | 24 | 5 | 6 |
| Teimlo fy mod yn rhy hen | 12 | 11 | 13 | – | 1 | – | 4 | 22 |
| Pwysau gwaith/oriau gwaith | 11 | 15 | 7 | 8 | 22 | 19 | 21 | 3 |
| Dysgu/astudio ddim yn berthnasol i mi | 8 | 9 | 7 | 2 | 4 | 3 | 8 | 11 |
| Pethau gwell i'w gwneud yn fy amser sbâr | 5 | 5 | 4 | 5 | 2 | 2 | 6 | 6 |
| Heb ddod rownd i wneud hynny eto | 4 | 5 | 3 | 2 | 1 | 4 | 5 | 5 |
| Ddim yn gweld y pwynt | 4 | 4 | 3 | 1 | * | 3 | 4 | 5 |
| Rhy ddrud/methu ei fforddio | 3 | 3 | 2 | 11 | 5 | 3 | 2 | 1 |
| Ddim eisiau dysgu pethau newydd | 3 | 3 | 2 | – | 1 | 5 | 2 | 3 |
| Dim cyrsiau o ddiddordeb yn fy ardal leol | 3 | 4 | 2 | 2 | 2 | 5 | 3 | 3 |
| Arall | 17 | 16 | 17 | 14 | 7 | 14 | 14 | 21 |
| Does dim byd yn fy atal | 14 | 15 | 14 | 7 | 13 | 12 | 16 | 15 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero
** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol neu wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn eu gwaith
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'. Heb gynnwys oedran 16 – 18 gan fod maint y grŵp yn rhy fychan.

## Tabl 7.2: Rhwystrau i ddysgu yn ôl statws cyflogaeth

| | | Statws cyflogaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd fu'n dysgu/hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf*** | Cyfanswm | Gweithio llawn amser | Gweithio rhan amser | Hunan gyflogedig | Ddim mewn gwaith | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 1136 | 222 | 91 | 57 | 319 | 433 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 1068 | 275 | **106 | **71 | 212 | 393 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Dim digon o amser | 22 | 32 | 35 | 33 | 16 | 13 |
| Ymrwymiadau teuluol/gofal plant | 14 | 12 | 32 | 7 | 27 | 5 |
| Teimlo fy mod yn rhy hen | 12 | 2 | 7 | 5 | 5 | 26 |
| Pwysau gwaith/oriau gwaith | 11 | 26 | 11 | 31 | 2 | 1 |
| Dysgu/astudio ddim yn berthnasol i mi | 8 | 4 | 7 | 14 | 6 | 10 |
| Pethau gwell i'w gwneud yn fy amser sbâr | 5 | 3 | 3 | 6 | 3 | 7 |
| Heb ddod rownd i wneud hynny eto | 4 | 3 | 2 | – | 6 | 5 |
| Ddim yn gweld y pwynt | 4 | 2 | 2 | – | 4 | 6 |
| Rhy ddrud/methu ei fforddio | 3 | 3 | 3 | 6 | 3 | 2 |
| Ddim eisiau dysgu pethau newydd | 3 | 3 | 5 | 1 | 1 | 3 |
| Dim cyrsiau o ddiddordeb i mi yn fy ardal leol | 3 | 5 | 3 | 2 | 2 | 3 |
| Arall | 17 | 6 | 8 | 9 | 32 | 21 |
| Does dim byd yn fy atal | 14 | 18 | 18 | 14 | 6 | 15 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero
** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol neu wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn eu gwaith
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'





## Tabl 7.3: Rhwystrau i ddysgu yn ôl lefel cymhwyster


| | | Lefel cymhwyster**** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd fu'n dysgu/hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Dim cymwysterau | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 1136 | 145 | 188 | 164 | 117 | 14 | 337 | 171 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 1068 | 136 | 184 | 170 | 123 | **14 | 279 | 162 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Dim digon o amser | 22 | 21 | 31 | 29 | 24 | 29 | 13 | 20 |
| Ymrwymiadau teuluol/gofal plant | 14 | 15 | 24 | 13 | 14 | * | 12 | 10 |
| Teimlo fy mod yn rhy hen | 12 | 4 | 2 | 6 | 9 | 11 | 24 | 18 |
| Pwysau gwaith/oriau gwaith | 11 | 7 | 15 | 20 | 11 | 34 | 4 | 9 |
| Dysgu/astudio ddim yn berthnasol i mi | 8 | 7 | 8 | 4 | 5 | * | 11 | 9 |
| Pethau gwell i'w gwneud yn fy amser sbâr | 5 | 2 | 3 | 6 | 3 | 8 | 4 | 9 |
| Heb ddod rownd i wneud hynny eto | 4 | 6 | 2 | 6 | * | 8 | 5 | 4 |
| Methu gweld y pwynt | 4 | 2 | 3 | 4 | 1 | * | 5 | 5 |
| Rhy ddrud/methu ei fforddio | 3 | 4 | 3 | 1 | 4 | * | 2 | 3 |
| Ddim eisiau dysgu pethau newydd | 3 | 1 | 5 | 1 | 1 | * | 4 | 3 |
| Dim cyrsiau o ddiddordeb i mi yn fy ardal leol | 3 | 3 | 4 | 3 | 3 | * | 3 | 2 |
| Arall | 17 | 20 | 12 | 11 | 19 | 27 | 18 | 22 |
| Does dim byd yn fy atal | 14 | 19 | 12 | 19 | 18 | 8 | 10 | 12 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero
** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Ac eithrio pobl sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol neu wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn eu gwaith
**** Mae lefelau cymwysterau yn cyfateb i CGC lefel 1 – 5.
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% -neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn Gwybod'.

## 7.3 Gwneud penderfyniadau ynglŷn â dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Roedd dau o bob pump o ymatebwyr (20%) oedd heb wneud unrhyw ddysgu na hyfforddiant yn ystod y flwyddyn, neu oedd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith (e.e. iechyd a diogelwch ac yn y blaen) yn dweud eu bod wedi ystyried dechrau dysgu.

**Siart 7.1 Yr ymatebwyr a ystyriodd ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**




Sylfaen: Pob ymatebydd oedd heb wneud unrhyw hyfforddiant na dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu oedd wedi gwneud cwrs cyffredinol yn y gwaith yn unig, neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau (heb ei bwysoli = 1136; wedi ei bwysoli = 1068)

Roedd ymatebwyr iau (rhai dan 35 oed) yn fwy tebygol o fod wedi ystyried dysgu nag oedd ymatebwyr hŷn (40% o gymharu â 15%).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr fu'n ystyried cymryd rhan mewn dysgu yn ystod y flwyddyn pa mor agos y daethant at wneud hynny. Roedd y cwestiwn yn ceisio gosod y broses o benderfynu ar 'risiau' oedd yn codi'n raddol fel a ganlyn:

- Cam 1: Dim ond croesi fy meddwl yr hoffwn astudio rhywbeth, ond doeddwn i ddim yn siŵr beth
- Cam 2: Wedi meddwl astudio pwnc penodol ond heb fynd â'r mater ymhellach
- Cam 3: Mi es i gyn belled a cheisio dod o hyd i rywle i wneud y gwaith
- Cam 4: Fe wnes i ymgeisio am gwrs ond dod ar draws problemau
- Cam 5: Fe es i'r sesiwn gyntaf ond es i ddim yn ôl

Mae'r canlyniadau'n dangos nad oedd un o bob pump o'r ymatebwyr (19%) wedi mynd cyn belled â dewis unrhyw fath o flaenoriaeth, felly buan iawn yr aethant allan o'r broses o benderfynu. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi meddwl dipyn pellach (57%) ac wedi penderfynu ar bwnc a/neu le i astudio. Roedd 16% arall o ymatebwyr wedi cymryd camau at ymuno â chwrs ond fe'u collwyd ar fin y lan cyn gwireddu eu penderfyniad.
Gofynnwyd i ymatebwyr oedd wedi ystyried dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf pam nad aethant â'r mater ymhellach. Dywedodd eu hanner mai oherwydd problemau teithio neu fod y cwrs yn rhy bell i ffwrdd (51%) ac roedd dau arall o bob deg yn rhy brysur neu heb amser (22%) neu roedd amser neu oriau'r cwrs yn anghyfleus iddynt (20%). Dywedodd oddeutu un o bob deg eu bod yn brin o arian, yn methu ei fforddio neu'n ei weld yn rhy ddrud (11%), bod ganddynt ymrwymiadau teuluol (10%) neu fod ganddynt ymrwymiadau ac oriau gwaith (9%).

Roedd ystyriaethau eraill yn cynnwys:


- Salwch/problemau iechyd (4%)
- Y cwrs ddim ar gael/wedi ei ganslo/dim lle arno (4%)
- Cyllid/grant ddim ar gael (1%)






**Siart 7.2: Y canran sydd ddim yn ddysgwyr ar wahanol gamau o’r broses o wneud penderfyniadau**

- Cam 1: Croesodd fy meddwl yr hoffwn ddysgu rhywbeth ond ddim yn siŵr
- Cam 2: Mddwl astudio pwnc arbennig ond heb fynd â'r mater ymhellach
- Cam 3: Mynd cyn belled â chwilio am rywle i wneud y cwrs
- Cam 4: Ceisio gwneud cais am gwrs ond problemau'n codi
- Cam 5: Mynd i'r sesiwn gyntaf ond heb fynd yn ôl wedyn




**Siart 7.3: Rhesymau pam nad ymgymerwyd â dysgu**




Siart 7.2/7.3
Sylfaen: Pawb oedd wedi ystyried dysgu ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (heb ei b wysoli = 218; wedi ei bwysoli = 213)

## 7.4 Gwella gwybodaeth a dysgu sgiliau newydd yn ystod y flwyddyn nesaf


Roedd mwy na hanner (56%) pob ymatebydd (dysgwyr ac eraill) yn dweud na fyddant yn ceisio gwella eu gwybodaeth nac yn dysgu sgiliau newydd yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hyn beth oedd yn eu rhwystro rhag dysgu yn y tymor byr (y flwyddyn nesaf).

Roedd ychydig dros eu chwarter (28%) o'r farn eu bod yn rhy hen. Mae'n werth nodi bod bron i ddau o bob tri (65%) o'r ymatebwyr a ddywedodd na fyddent yn gwella eu gwybodaeth nac yn dysgu sgil newydd yn 55+ oed, a bod y rhan fwyaf o'r bobl a ddywedodd eu bod yn rhy hen yn 55+.

Roedd ymatebwyr iau 35 – 44 oed (39%) a 45 – 54 oed (33%) yn dipyn mwy tebygol nag ymatebwyr hŷn o ddweud mai 'Dim digon o amser' oedd y rheswm dros beidio a dysgu. Roedd y grŵp oedran hwn hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod pwysau gwaith/oriau gwaith yn eu hatal rhag dysgu (22% o ymatebwyr 45 – 54 oed) ond ni soniodd neb 55+ am y rheswm hwn.

Roedd y rhesymau eraill a nodwyd gan fwy na 5% o ymatebwyr yn cynnwys:
- Dim digon o amser (17%)
- Ymrwymiadau teuluol/gofal plant gan gynnwys gofal am yr henoed (11%)
- Nid yw dysgu/astudio yn berthnasol i mi (9%)
- Ddim yn gweld y pwynt (8%)

**Siart 7.4: Beth sy'n atal ymatebwyr rhag gwella eu gwybodaeth a dysgu sgiliau newydd yn ystod y flwyddyn nesaf**




Sylfaen: Pawb fydd ddim yn ceisio gwella eu gwybodaeth na dysgu sgiliau newydd yn ystod y flwyddyn nesaf (heb ei bwysoli=535; wedi ei bwysoli=481)





- Pwysau gwaith/oriau gwaith (7%)
- Ddim eisiau dysgu pethau newydd (6%)
- Diffyg hyder (6%).

Roedd rhai gwahaniaethau yn amlygu eu hunain pan ystyriwyd rhyw a statws cyflogaeth:

- Roedd merched yn dipyn mwy tebygol o ddweud bod ymrwymiadau teuluol/gofal plant a gofal am yr henoed yn eu hatal rhag dysgu neu astudio pethau newydd, (15% o gymharu â 8% o ddynion)
- Roedd dynion yn fwy tebygol na merched o ddweud bod pwysau gwaith ac oriau gwaith yn rhwystrau i ddysgu (10% o gymharu â 3%)
- Nid yw'n syndod fod pobl oedd mewn gwaith yn fwy tebygol o roi rhesymau oedd yn gysylltiedig â diffyg amser a phwysau gwaith, o gymharu â phobl oedd ddim mewn gwaith neu oedd wedi ymddeol.

## 7.5 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Y prif rwystrau i'r ymatebwyr oedd ddim yn dysgu oedd amser, ymrwymiadau gofal plant neu deuluol, pwysau gwaith a theimlad eu bod yn rhy hen (a grybwyllwyd gan 22%, 14%, 11% a 12% yn y drefn honno). Roedd amser a phwysau gwaith yn rhwystrau mawr i weithwyr llawn amser a soniodd gweithwyr rhan amser fwy am ymrwymiadau gofal plant neu deuluol.

O safbwynt demograffeg allweddol:

- Roedd gweithwyr llawn amser neu hunangyflogedig, dynion a phobl wedi eu cymhwyso at lefel gradd neu gyfatebol yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan bwysau gwaith ac oriau gwaith.
- Merched, gweithwyr rhan-amser ac ymatebwyr o dan 45 oed oedd fwyaf tebygol o sôn am ymrwymiadau teuluol neu ofal plant.
- Ymatebwyr 19 – 24 oed oedd fwyaf tebygol o ddweud fod y cyrsiau yn rhy ddrud

Roedd un o bob pump (20%) (oedd heb fod yn dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf) wedi ystyried rhyw ffurf ar ddysgu yn ystod y flwyddyn, ond heb ddilyn y mater i fyny. Roedd yr ymchwil yn ceisio darganfod ar ba bwynt y daeth yr ymatebwyr hyn allan o'r cylch gwneud penderfyniadau. Er bod 19% oedd heb fynd heibio'r 'ysgogiad cyntaf' (dim ond croesi'r meddwl) mae'n siom bod 57% arall wedi mynd cyn belled â meddwl beth yr hoffent ei wneud ac wedi ymchwilio i gyrsiau cyn penderfynu gadael i bethau fod. Yr un mor siomedig oedd bod 16% wedi gwneud cais neu hyd yn oed fynychu sesiwn cyn penderfynu peidio â mynd ymhellach ar hyd llwybr dysgu.

### Ysgogiad cyntaf

Cam 1: Cyfaddefodd bron i un o bob pump (19%) bod y syniad wedi croesi eu meddwl ac/neu yr hoffent ddysgu rhywbeth ond nad oeddent yn siŵr beth.

### Dewis blaenoriaeth

Camau 2 a 3: Dywedodd dros un o bob tri (35%) eu bod wedi meddwl astudio pwnc penodol ond heb fynd â'r mater ymhellach er bod dau o bob deg (22%) wedi mynd cyn belled â chwilio am rywle i wneud y cwrs.

### Gweithredu

Camau 4 a 5: Roedd un arall o bob saith (14%) wedi ymgeisio am gwrs ond wedi dod ar draws problemau ac roedd 2% wedi mynd i un sesiwn ond heb fynd yn ôl eilwaith.

Gofynnwyd i bob ymgeisydd oedd wedi ystyried dysgu pam nad aethant â'r mater ymhellach. Roedd y rheswm a roddwyd gan ymatebwyr dros beidio mynd ar ôl y mater ymhellach yn ymwneud yn bennaf ag anawsterau mynd a dod; teithio, amser, oriau anghyfleus.

# 8.0 CYNLLUNIAU'R DYFODOL

## 8.1 Cyflwyniad

Mae'r adran yma yn canolbwyntio ar amcanion a dyheadau'r ymatebwyr at y flwyddyn i ddod, ac mae'n trafod eu hamgyffrediad o'r effeithiau a gafodd dysgu trwy eu helpu i gyflawni'r amcanion hyn. Yng nghamau olaf yr adran yma bydd yr adroddiad yn trafod pa mor debygol yw'r ymatebwyr o ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf (yn ffurfiol ac yn anffurfiol) ac mae manylion ynglŷn â'r math o bynciau y gallant fod â diddordeb ynddynt.

## 8.2 Dyheadau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Cafodd pob ymatebydd restr o gyflawniadau a gofynnwyd iddynt beth yr hoffent ei wneud yn ystod y flwyddyn nesaf. Roedd y rhestr yn cynnwys dyheadau yn ymwneud â chyflogaeth, dysgu a hunan welliant/hunan ddatblygu.

Nid yw'n syndod efallai bod incwm yn cael ei amlygu fel ffactor bwysig. Byddai bron i un o bob tri ymatebydd (31%) yn hoffi codiad yn eu henillion yn ystod y flwyddyn nesaf. Ond roedd yn ddiddorol sylwi bod y dyheadau eraill a fynegwyd amlaf yn cyfeirio'n benodol iawn at yr unigolyn yn hytrach nag at ddysgu neu at faterion yn ymwneud â chyflogaeth. Er enghraifft, roedd chwarter yr ymatebwyr (26%) eisiau datblygu fel person, 23% eisiau helpu eu plant gyda'u dysgu ac oddeutu un rhan o bump (22%) eisiau cwrdd â phobl a/neu wella eu hunan hyder (21%).

Roedd y nodau canlynol yn gysylltiedig â gwaith ag â dysgu a chawsant eu crybwyll gan rhwng 10% a 20% o unigolion:

- Cael ar gwrs dysgu yn y dyfodol (19%)
- Cael mwy o foddhad yn fy ngwaith (16%)
- Cael cymhwyster cydnabyddedig (16%)
- Newid y math o waith rwy'n ei wneud (13%)
- Gallu gwneud fy swydd bresennol yn well (13%)
- Cael dyrchafiad (10%)

Dywedodd un o bob pum ymatebydd (20%) nad oedd unrhyw beth ar y rhestr yn berthnasol i'r hyn yr oeddent eisiau ei gyflawni y flwyddyn nesaf.

Dangosodd y dadansoddiad:

- Nid oedd y rhan fwyaf o ddyheadau yn benodol i un rhyw. Yr eithriadau oedd bod dynion yn fwy tueddol o sôn am godiad cyflog (38% o gymharu â 23% o ferched) a merched yn fwy tueddol o sôn am ddatblygu eu hunan fel person (29% o gymharu â 23% o ddynion), datblygu hunan hyder (26% o gymharu â 15% o ddynion) a chwrdd â phobl (26% o gymharu â 19%)
- Roedd yr ymatebwyr iau yn fwy tebygol o sôn am gael swydd a chymwysterau/dysgu yn y dyfodol. Roedd pobl ifanc 16 i 18 oed yn llawer mwy tebygol na rhai 19 – 24 oed o sôn am geisio gwella'u hunan hyder
- Roedd y rhestr cyflawniadau yn llawer llai perthnasol i'r grŵp 55+ oed (45% yn dweud nad oedd yr un o'r cyflawniadau yn berthnasol iddynt hwy, o gymharu â 20% ar gyfartaledd). Wrth edrych ar bobl wedi ymddeol roedd y canran yn codi i 51%
- Cwrdd â phobl newydd oedd yr unig ddyhead a grybwyllwyd gan bron gymaint o bobl wedi ymddeol â gan ymatebwyr ar gyfartaledd (21%). Roeddent yn llawer llai tebygol o sôn am unrhyw ddyheadau 'hunan ddatblygu', er enghraifft, dim ond 16% soniodd am ddatblygu eu hunain fel person o gymharu â 26% ar gyfartaledd
- Roedd mwy o ymatebwyr llawn amser na rhai rhan amser â diddordeb mewn newid eu swydd neu eu gallu i ennill pres yn ystod y flwyddyn i ddod, fel a ganlyn:
  - Er mwyn cael dyrchafiad (22% o weithwyr llawn amser o gymharu â 9% o weithwyr rhan amser)
  - I gael codiad cyflog (57% o gymharu â 38%)
  - I gael mwy o foddhad yn y gwaith (28% o gymharu â 22%)





**Tabl 8.1: Dyheadau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn ôl rhyw, oedran a gweithio llawn amser/rhan amser**

| | | Rhyw | | Oed | | | | | | Statws cyflogaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Dynion | Merched | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 946 | 1061 | 87 | 175 | 343 | 385 | 281 | 732 | 603 | 229 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 1011 | 996 | **75 | 176 | 370 | 383 | 280 | 723 | 746 | 263 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Er mwyn cael swydd | 9 | 9 | 9 | 44 | 26 | 11 | 9 | 6 | 2 | 1 | 3 |
| Er mwyn cael swydd gyda chyflogwr arall | 7 | 8 | 6 | 3 | 11 | 16 | 10 | 9 | 1 | 14 | 11 |
| I newid y math o waith rwy'n ei wneud | 13 | 15 | 11 | 6 | 21 | 22 | 20 | 15 | 3 | 23 | 18 |
| Er mwyn cael cymhwyster cydnabyddedig | 16 | 14 | 17 | 55 | 35 | 23 | 17 | 14 | 3 | 18 | 19 |
| Er mwyn gallu gwneud fy swydd bresennol yn well | 13 | 12 | 13 | 9 | 13 | 22 | 18 | 18 | 4 | 22 | 22 |
| Er mwyn cael dyrchafiad | 10 | 13 | 7 | 8 | 14 | 22 | 16 | 6 | * | 22 | 9 |
| I gael codiad cyflog | 31 | 38 | 23 | 26 | 38 | 50 | 48 | 34 | 9 | 57 | 38 |
| I gael mwy o foddhad yn fy ngwaith | 16 | 17 | 15 | 14 | 13 | 26 | 25 | 22 | 5 | 28 | 22 |
| Cael ar gwrs dysgu yn y dyfodol | 19 | 18 | 21 | 41 | 32 | 24 | 23 | 15 | 11 | 19 | 29 |
| I ddatblygu fy hunan fel person | 26 | 23 | 29 | 32 | 30 | 34 | 32 | 25 | 17 | 28 | 31 |
| I wella fy hunan hyder | 21 | 15 | 26 | 33 | 20 | 28 | 23 | 21 | 15 | 18 | 27 |
| Er mwyn cwrdd â phobl | 22 | 19 | 26 | 36 | 25 | 27 | 16 | 19 | 22 | 18 | 24 |
| I helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref | 23 | 21 | 25 | 4 | 13 | 42 | 45 | 23 | 7 | 28 | 38 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 1 | 2 | * | 2 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Dim un o'r rhain | 20 | 20 | 20 | 3 | 4 | 3 | 6 | 13 | 45 | 7 | 10 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero
** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog.

## Tabl 8.3: Dyheadau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn ôl lefel cymwysterau

| | | Lefel cymwysterau*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Dim cymwysterau | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 229 | 397 | 322 | 391 | 51 | 404 | 215 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 219 | 393 | 344 | 451 | **64 | 337 | 201 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Er mwyn cael swydd | 9 | 10 | 14 | 9 | 9 | 7 | 7 | 4 |
| Er mwyn cael swydd gyda chyflogwr arall | 7 | 6 | 10 | 7 | 12 | 9 | 2 | 4 |
| Er mwyn newid y math o waith rwy'n ei wneud | 13 | 12 | 15 | 14 | 20 | 20 | 4 | 7 |
| Er mwyn cael cymhwyster cydnabyddedig | 16 | 15 | 25 | 20 | 17 | 12 | 7 | 5 |
| I wneud fy swydd bresennol yn well | 13 | 11 | 13 | 12 | 21 | 34 | 3 | 8 |
| Er mwyn cael dyrchafiad | 10 | 8 | 11 | 14 | 14 | 20 | 1 | 3 |
| I gael codiad cyflog | 31 | 32 | 35 | 40 | 37 | 49 | 10 | 20 |
| I gael mwy o foddhad yn fy ngwaith | 16 | 15 | 13 | 17 | 27 | 36 | 5 | 8 |
| Er mwyn cael ar gwrs dysgu yn y dyfodol | 19 | 19 | 23 | 21 | 25 | 17 | 9 | 12 |
| I ddatblygu fy hunan fel person | 26 | 26 | 28 | 28 | 36 | 47 | 12 | 14 |
| I wella fy hunan hyder | 21 | 26 | 21 | 19 | 25 | 23 | 15 | 18 |
| I gyfarfod â phobl | 22 | 21 | 20 | 20 | 27 | 23 | 20 | 24 |
| Er mwyn helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref | 23 | 29 | 29 | 21 | 29 | 20 | 12 | 19 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 1 | * | 1 | 2 | * | 4 | 1 |
| Dim un o'r rhain | 20 | 18 | 10 | 18 | 9 | 8 | 45 | 32 |

* Llai na 0.5% ond mwy na sero ** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
*** Mae lefelau cymwysterau yn cyfateb i CGC lefel 1 – 5. Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog.

- Roedd gweithwyr rhan amser yn fwy tebygol o fod yn targedu cyrsiau at y dyfodol (29% o gymharu â 19% o weithwyr llawn amser), gwella hunan hyder (27% o gymharu â 18%), cwrdd â phobl (24% o gymharu â 18%) a helpu plant gyda'u dysgu (38% o gymharu â 28%).
- Mae ymatebwyr gyda chymwysterau CGC lefel 4 neu 5 yn dipyn mwy tebygol nag ymatebwyr eraill (21% a 34% yn y drefn honno). Roedd ymatebwyr gyda chymwysterau CGC lefel 1 neu uwch yn dipyn mwy tebygol o fod eisiau cael dyrchafiad o gymharu ag ymatebwyr heb ddim cymwysterau o gwbl (1% o gymharu â 10% rhwng pawb).
- Mae'r rhai heb ddim cymwysterau yn dipyn mwy tebygol o ddweud na hoffent gyflawni unrhyw un o'r dyheadau (45%). Mae hyn yn cymharu â dim ond 9% o'r rhai sydd â chymwysterau lefel gradd (CGC lefel 4).

## 8.3 Effaith dysgu ar gyflawni dyheadau

Gofynnwyd i bob unigolyn oedd heb ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn ystod y flwyddyn, ar gyfer pob un o'u dyheadau a restrir uchod, a allai cwrs o ddysgu eu helpu i gyflawni eu dyheadau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roeddent yn cael ateb yn ôl graddfa. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys unrhyw ymatebwyr oedd ddim yn ddysgwyr neu a oedd ddim ond wedi gwneud cwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau.

Roedd y meysydd lle'r oedd ymatebwyr yn credu y gallai cwrs o ddysgu 'helpu yn fawr' yn ymwneud yn uniongyrchol â chael mynediad i swydd newydd neu waith gwahanol neu i fath arall o ddysgu. Roedd yn ddiddorol gweld nad oedd ymgymryd â dysgu yn dylanwadu'n fawr ar y math o ddyheadau y soniodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr amdanynt (sef y dyheadau oedd yn ymwneud â datblygu fel person, cyfarfod â phobl a meithrin hunan hyder).

Dywedodd mwy nag un rhan o dair o'r ymatebwyr y gallai dysgu helpu llawer arnynt i wella eu sefyllfa bresennol yn y gwaith:

- rhoi mwy o foddhad iddynt yn eu gwaith (dywedodd 48% y gallai fod yn llawer o help)
- cael dyrchafiad (dywedodd 39% y gallai fod yn llawer o help)
- gwneud eu swydd bresennol yn well (dywedodd 36% y gallai fod yn llawer o help)
- cael codiad yn eu cyflog (dywedodd 36% y gallai fod yn llawer o help)

Roedd yn ddiddorol gweld mai un o'r meysydd lle'r ystyrid bod dysgu yn helpu lleiaf, oedd helpu plant gyda dysgu/gwaith cartref; dywedodd 47% y gallai helpu llawer a dywedodd 30% y gallai helpu ychydig, dywedodd 19% na fyddai'n helpu o gwbl.

**Tabl 8.4: I ba raddau y gallai cwrs o ddysgu helpu i gyflawni'r nodau hyn**

| Sylfaen: Pob ymatebydd sydd heb wneud unrhyw ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf *** | Cyfanswm (Sylfaen wedi ei bwysoli) | Gallai helpu llawer | Gallai helpu ychydig | Dim help o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % |
| I ennill cymhwyster cydnabyddedig | **63 | 85 | 12 | 3 | 1 |
| Er mwyn cael swydd | **67 | 67 | 13 | 14 | 6 |
| Er mwyn newid y math o waith rwy'n ei wneud | **90 | 55 | 26 | 15 | 4 |
| Er mwyn cael swydd gyda chyflogwr arall | **49 | 59 | 30 | 8 | 3 |
| Er mwyn cael ar gwrs dysgu yn y dyfodol | 129 | 52 | 27 | 8 | 13 |
| I ddatblygu fy hunan fel person | 161 | 47 | 34 | 9 | 10 |
| I gwrdd â phobl | 201 | 46 | 35 | 16 | 3 |
| I wella fy hunan hyder | 169 | 44 | 33 | 12 | 11 |
| I gael mwy o foddhad yn fy ngwaith | 79 | 48 | 35 | 10 | 7 |
| Er mwyn cael dyrchafiad | 49 | 39 | 38 | 16 | 8 |
| I fod yn well yn fy swydd bresennol | 60 | 36 | 52 | 12 | 0 |
| Er mwyn helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref | 205 | 45 | 30 | 19 | 5 |
| I gael codiad cyflog | 221 | 36 | 28 | 30 | 6 |

*** Mae'r sylfaen yn cynnwys ymatebwyr sydd wedi bod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith, wedi cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth yn y swydd neu wedi treulio amser yn cadw i fyny â datblygiadau
** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100)
Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Crybwyllwyd gan 3% neu lai. Heb gynnwys 'Ddim yn gwybod'






## 8.4 Y tebygolrwydd o ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf

### 8.4.1 Dysgu ffurfiol

Gofynnwyd i bob ymatebydd am y tebygolrwydd y byddent yn dechrau dysgu yn ystod y tair blynedd nesaf. Dywedodd un o bob tri o'r ymatebwyr (33%) fod hynny'n debygol iawn a chwarter arall (25%) ei fod yn weddol debygol. Dywedodd bron i un o bob pedwar (39%) na fyddant yn dysgu yn ystod y tair blynedd nesaf.

**Siart 8.1: Y tebygolrwydd o ymgymryd â dysgu yn ystod y tair blynedd nesaf**




Sylfaen: Pob ymatebydd (2009)

- Annhebygol iawn 27%
- Gweddol annhebygol 12%
- Gweddol debygol 25%
- Tebygol iawn 33%
- Ddim yn gwybod 4%

O safbwynt crynhoi'r rhai a oedd yn 'debygol iawn' o ddysgu, dangosodd yr arolwg:

- Nad oedd rhyw yn dylanwadu ar ddysgu ond roedd oedran yn gwneud gwahaniaeth. Roedd ymatebwyr 16 – 18 oed yn dipyn mwy tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall o ddweud y byddent yn debygol iawn (71%) o ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf. Roedd y rhai 19 i 24 oed hefyd yn debygol iawn (57%). Mae'r canran sy'n 'debygol iawn' yn gostwng wrth i bobl fynd yn hŷn nes i'r data ddangos mai dim ond 15% o'r grŵp oed 55 + a ddywedodd hynny.
- Roedd ymatebwyr oedd mewn gwaith rhan amser neu lawn amser yn llawer mwy tebygol o ddysgu na phobl oedd ddim yn gweithio neu a oedd wedi ymddeol.
- Roedd ymatebwyr o grŵp cymdeithasol economaidd AB yn dipyn mwy tebygol o ddweud eu bod yn debygol iawn o ddysgu nag ymatebwyr o unrhyw grŵp arall
- Roedd ymatebwyr a oedd wedi cael digwyddiad mawr yn eu bywydau yn ddiweddar (er enghraifft dechrau teulu neu newid swydd) yn dipyn mwy tebygol o ddweud 'tebygol iawn' na phobl oedd heb gael yr un profiad.
- Roedd pobl oedd a chymwysterau CGC lefel 1 neu uwch yn dipyn mwy tebygol o fod 'yn debygol iawn' o ddechrau dysgu na phobl oedd heb gymwysterau. Roedd pobl oedd â chymwysterau gradd (CGC lefel 4) neu lefel 5 yn arbennig o debygol (dywedodd 49% eu bod yn debygol iawn).
- Mewn cymhariaeth, pobl heb unrhyw gymwysterau oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn 'annhebygol iawn' o ymgymryd â dysgu yn ystod y 3 blynedd nesaf. Dywedodd 64% eu bod yn 'annhebygol iawn' o gymharu â dim ond 9% o'r rhai oedd wedi cymhwyso at lefel gradd (CGC lefel 4) a 27% rhwng pawb.

### Tabl 8.5: Y tebygolrwydd o ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf yn ôl oedran a statws cyflogaeth

| | | Oed | | | | | | Statws cyflogaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55+ | Llawn amser | Rhan amser | Hunan gyflogedig | Ddim mewn gwaith | Wedi ymddeol |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 87 | 175 | 343 | 385 | 281 | 732 | 603 | 229 | 98 | 451 | 517 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | **75 | 176 | 370 | 383 | 280 | 723 | 746 | 263 | **125 | 306 | 472 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Tebygol iawn | 33 | 71 | 57 | 46 | 36 | 29 | 15 | 41 | 40 | 30 | 27 | 12 |
| Gweddol debygol | 25 | 15 | 25 | 33 | 29 | 30 | 16 | 30 | 28 | 32 | 28 | 13 |
| Gweddol annhebygol | 12 | 4 | 8 | 13 | 14 | 15 | 11 | 13 | 13 | 12 | 12 | 10 |
| Annhebygol iawn | 27 | 5 | 7 | 5 | 16 | 20 | 54 | 12 | 15 | 22 | 28 | 61 |
| Ddim yn gwybod | 4 | 4 | 4 | 3 | 4 | 5 | 4 | 3 | 5 | 3 | 6 | 4 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) Nodyn: Cwestiwn ymateb sengl.

### Tabl 8.6: Y tebygolrwydd o ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf yn ôl grŵp cymdeithasol economaidd a digwyddiad diweddar yn eich bywyd

| | | Grŵp cymdeithasol economaidd | | | | Digwyddiad bywyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE | Oes | Nac oes |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 336 | 452 | 463 | 758 | 1172 | 835 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 399 | 499 | 479 | 633 | 1165 | 842 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Tebygol iawn | 33 | 48 | 36 | 31 | 22 | 36 | 28 |
| Gweddol debygol | 25 | 22 | 26 | 26 | 24 | 28 | 21 |
| Gweddol annhebygol | 12 | 11 | 14 | 12 | 11 | 11 | 12 |
| Annhebygol iawn | 27 | 15 | 20 | 27 | 39 | 22 | 33 |
| Ddim yn gwybod | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 | 6 |

Nodyn: Cwestiwn ymateb sengl.





**Tabl 8.7: Y tebygolrwydd o ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf yn ôl lefel cymwysterau**

| | Lefel cymwysterau*** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Dim cymwysterau | Arall |
| Sylfaen heb ei bwysoli | 2009 | 229 | 397 | 322 | 391 | 51 | 404 | 215 |
| Sylfaen wedi ei bwysoli | 2009 | 219 | 393 | 344 | 451 | **64 | 337 | 201 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Tebygol iawn | 33 | 24 | 40 | 36 | 49 | 50 | 11 | 13 |
| Gweddol debygol | 25 | 30 | 33 | 23 | 27 | 31 | 10 | 21 |
| Gweddol annhebygol | 12 | 16 | 12 | 12 | 11 | 3 | 8 | 16 |
| Annhebygol iawn | 27 | 24 | 12 | 22 | 9 | 14 | 64 | 48 |
| Ddim yn gwybod | 4 | 5 | 2 | 6 | 3 | 2 | 6 | 3 |

** Yn dynodi sylfaen isel (sylfaen heb ei bwysoli yn llai na 100) *** Mae lefelau cymwysterau yn cyfateb i CGC lefel 1 – 5.
Nodyn: Cwestiwn ymateb sengl.

### 8.4.2 Dysgu anffurfiol

Gofynnwyd i bob ymatebydd oedd wedi dweud na fyddent yn ymgymryd â dysgu yn ystod y tair blynedd nesaf a fyddent yn ceisio gwella eu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw beth neu ddysgu sgiliau newydd yn ystod y tair blynedd nesaf. Dywedodd ychydig dros un o bob tri (34%) y byddent. Dywedodd 56% o'r gweddill na fydden nhw ddim a dywedodd 10% nad oedden nhw'n gwybod.

### 8.4.3 Y pwnc y dymunir ei ddilyn yn ystod y tair blynedd nesaf

Bydd ychydig dros saith o bob deg (71%) o ymatebwyr yn ymgymryd â rhyw fath o ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf (yn ffurfiol a/neu'n anffurfiol). Mae bron i dri o bob deg (29%) fydd ddim yn ymgymryd ag unrhyw ddysgu o gwbl.

Tech Gwyb/Cyfrifiaduron oedd y pwnc oedd yn diddori'r grŵp mwyaf o ddysgwyr posib (25%). O bell ffordd, dyma'r pwnc mwyaf poblogaidd a grybwyllwyd. Iechyd, cymdeithasol a gofal plant oedd yr unig faes arall a grybwyllwyd gan o leiaf 10% o ymatebwyr. Mae Tabl 9.6 yn dangos y pynciau a grybwyllwyd gan o leiaf 3% o'r holl ymatebwyr.

Gan ganolbwyntio ar y meysydd pwnc mwyaf 'poblogaidd' o safbwynt dysgu pellach, mae'r siart isod yn dangos y newidynnau oedd yn bwysig o ran cael pobl i gyfranogi mewn dysgu.

**Tabl 8.8: Y pynciau yr hoffai'r ymatebwyr eu dysgu (yn ffurfiol neu'n anffurfiol)**

| Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n debygol o gymryd rhan mewn dysgu ffurfiol yn ystod y flwyddyn nesaf a/neu wella gwybodaeth/dysgu sgiliau newydd yn anffurfiol yn ystod y 3 blynedd nesaf | |
|---|---|
| Sylfaen heb ei bwysoli | 1387 |
| Sylfan wedi ei bwysoli | 1445 |
| | % |
| Tech Gwyb/Cyfrifiaduron | 25 |
| Iechyd, cymdeithasol a gofal plant | 11 |
| Ieithoedd – ac eithrio Cymraeg/Saesne | 9 |
| Crefftau, er enghraifft coginio, gwnio crochenwaith, DIY | 8 |
| Celf a'r cyfryngau | 6 |
| Dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol | 6 |
| Adeiladu (gan gynnwys crefftau; addurno, gwaith plymio ac yn y blaen) | 5 |
| Ieithoedd – Cymraeg | 5 |
| Gweinyddu busnes a'r gyfraith | 5 |
| Hamdden, twristiaeth a theithio | 4 |
| Gyrfaoedd mewn addysg a hyfforddiant | 3 |
| Peirianneg a gweithgynhyrchu | 3 |
| Y gwyddorau a mathemateg | 3 |

Nodyn: Cwestiwn ymateb lluosog. Mae'r tabl yn cynnwys pynciau a grybwyllwyd gan fwy na 3%

## 8.5 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Ar wahân i gynyddu cyflogau, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (26% rhwng pawb) eisiau eu datblygu eu hunain, helpu eu plant gyda'u dysgu, cyfarfod â phobl a gwella eu hyder yn ystod y flwyddyn nesaf. Roedd yn ddiddorol bod y dyheadau hyn yn bwysicach i ymatebwyr nag oedd nodau'n ymwneud â gwaith/gyrfa neu nodau yn ymwneud â dysgu/cymwysterau (soniodd rhwng 10% ac 20% am amcanion yn ymwneud â gwaith/gyrfa neu ddysgu/cymwysterau). Dywedodd un o bob pump (20%) nad oedd yr un o'r dyheadau ar y rhestr yn berthnasol iddynt hwy yn ystod y flwyddyn i ddod (roedd y ffigur yn uwch gyda'r grŵp oed 55+).

Gofynnwyd i bawb oedd heb fod yn dysgu yn ystod y flwyddyn, ar gyfer pob un o'u hamcanion, a allai cwrs o ddysgu fod yn help iddynt gyflawni pob amcan unigol. Mae'r canlyniadau'n dangos yn fras, fod rhai sydd heb fod yn dysgu yn fwy tebygol o weld cysylltiad rhwng dysgu a chael swydd newydd neu sicrhau newidiadau yn y swydd bresennol. Roedd llai ohonynt yn debygol o weld y cysylltiad gyda datblygiad personol a llai fyth yn gweld hyn yn ffordd o wella eu sefyllfa bresennol yn y gwaith.

Roedd yn ddiddorol gweld bod pobl sydd ddim yn dysgu ond sydd eisiau cwrdd â phobl a datblygu'n bersonol yn fwy tebygol o weld cysylltiad rhwng dysgu a datblygu gyrfa na rhwng dysgu â chyflawni'r amcanion hyn. Mae astudiaethau diweddar ymhlith dysgwyr, megis yr Arolwg Cenedlaethol Bodlonrwydd Dysgwyr yng Nghymru 2003, yn dangos bod hybu hyder a chwrdd â phobl yn ddau o'r effeithiau mwyaf a gafwyd.

[1] Canfu'r Arolwg Cenedlaethol Bodlonrwydd Dysgwyr yng Nghymru 2003 bod 63% o'r dysgwyr Addysg Bellach a ymunodd â'u cwrs er mwyn hybu eu datblygiad personol wedi gwneud hynny, ac roedd 68% o'r bobl oedd yn gobeithio cwrdd â phobl yn dweud fod hynny wedi helpu. Roedd y ffigurau'n debyg ar gyfer dysgwyr Addysg Barhaus i Oedolion.



**Siart 8.3: Pynciau yr hoffai ymatebwyr eu dysgu (yn ffurfiol neu'n anffurfiol)**

| | |
|---|---|
| Tech Gwyb/ Cyfrifiaduron | • Roedd mwy o ddiddordeb gan ymatebwyr mwy aeddfed (33% o'r grŵp oedran 55 + o gymharu â'r rhai 16 i 18 oed)<br>• Ymatebwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y cartref (35% o gymharu â 24% o'r rhai sy'n defnyddio'r Saesneg) |
| Iechyd, cymdeithasol a gofal plant | • Merched yn dipyn mwy tebygol na dynion (18% o gymharu â 4% o ddynion)<br>• Pobl ieuengach (yn lleiaf tebygol o fod yn 55+ oed, 3% o gymharu â 20% o'r rhai 16 – 18 oed)<br>• Grŵp cymdeithasol economaidd DE (roedd yr ymatebwyr yn dipyn mwy tebygol o fod yn y grŵp hwn nag yn AB neu C1)<br>• Yn fwy tebygol o fod wedi cael digwyddiad mawr yn eu bywyd (13% o gymharu â 7%) |
| Ieithoedd – ac eithrio Cymraeg a Saesneg | • Roedd gan ymatebwyr 55 + fwy o ddiddordeb na'r grwpiau oedran eraill (14% o gymharu â 5% o'r ymatebwyr 16 – 18 oed)<br>• Grŵp cymdeithasol economaidd AB (18% o gymharu â 4% o'r grŵp DE) |
| Crefftau, coginio a gwnio | • Roedd tipyn mwy o ddiddordeb gan ymatebwyr 55+ na rhai o grwpiau oedran eraill (17% o gymharu â dim yn y grŵp 16 i 18 oed a 2% o'r grŵp 19 i 24 oed)<br>• Ymatebwyr ar aelwydydd lle nad oes neb mewn gwaith (14% o gymharu â 6% o ymatebwyr o aelwydydd lle mae rhywun mewn gwaith)<br>• Grŵp cymdeithasol economaidd AB (12% o gymharu â 6% o'r grŵp DE) |

Sylfaen: Pawb oedd yn debygol o ddysgu (yn ffurfiol neu'n anffurfiol) (heb ei bwysoli = 1387; wedi ei bwysoli = 1445)

Roedd yn ddiddorol gweld bod pobl sydd ddim yn dysgu ond sydd eisiau cwrdd â phobl a datblygu'n bersonol yn fwy tebygol o weld cysylltiad rhwng dysgu a datblygu gyrfa na rhwng dysgu â chyflawni'r amcanion hyn. Mae astudiaethau diweddar ymhlith dysgwyr, megis yr Arolwg Cenedlaethol Bodlonrwydd Dysgwyr yng Nghymru 2003, yn dangos bod hybu hyder a chwrdd â phobl yn ddau o'r effeithiau mwyaf a gafwyd[1].

Felly roedd llawer o bobl oedd ddim yn dysgu yn anymwybodol o fanteision dysgu. Gan fod mwyafrif yr ymatebwyr eisiau gwella eu hyder a chwrdd â phobl, gallai fod yn werth dangos iddynt y gall dysgu eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

Mae un o bob tri (33%) o'r ymatebwyr yn debygol iawn o ymgymryd â dysgu ffurfiol ychwanegol yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae chwarter arall yn weddol debygol o ddilyn cwrs ffurfiol o ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf, felly dyna gyfanswm o 58% sy'n debygol o wneud hynny. Nid oedd y nifer yn dibynnu ar ryw'r ymatebwyr, ond yn fwy ar eu hoedran. Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o ymgymryd â dysgu, felly hefyd rhai mewn gwaith (llawn amser neu ran amser a phobl yn grŵp cymdeithasol economaidd AB, a phobl y bu digwyddiad mawr yn eu bywyd yn ddiweddar (er enghraifft cael swydd newydd neu ddechrau teulu) a phobl gyda chymwysterau uchel.

Roedd ychydig dros un o bob tri (34%) o'r rhai oedd ddim yn debygol o ymgymryd â dysgu yn y dyfodol yn ceisio gwella eu gwybodaeth neu sgiliau mewn rhyw ffordd arall. Mae hyn yn rhoi ffigur o 71% o bob ymatebydd a fydd yn ceisio dysgu rhywbeth newydd, yn ffurfiol neu'n anffurfiol yn ystod y tair blynedd nesaf.

Roedd gan yr ymatebwyr a oedd yn awyddus i ddatblygu (yn ffurfiol neu'n anffurfiol) fwy o ddiddordeb mewn:

| | % |
|---|---|
| TGCh/Cyfrifiaduron | 25 |
| Iechyd, cymdeithasol a gofal plant | 11 |
| Ieithoedd – heblaw'r Gymraeg | 9 |
| Crefftau (e.e. coginio, gwnio, crochenwaith, DIY) | 8 |
| Celfyddydau a'r cyfryngau | 6 |
| Dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol | 6 |
| Cymraeg | 5 |

# 9.0 SEGMENTU DYSGWYR AC ERAILL





## 9.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn gyflwyniad i segmentu dysgwyr ac eraill. Mae mwy o fanylion am y clystyrau mewn adroddiad ar wahân ynglŷn â segmentu, a fydd yn tynnu gwybodaeth o arolygiadau eraill hefyd, er enghraifft Sgiliau Dyfodol Cymru. Mae'r adran hon yn sôn am y ffordd yr aethpwyd ati i segmentu, ac yn dilyn gyda disgrifiad byr o bob segment a'r awgrymiadau sydd yn hynny ynglŷn â hybu dysgu.

## 9.2 Creu a defnyddio segmentu

Mae dadansoddi segmentau yn edrych ar y set data er mwyn sefydlu ym mhle mae gwahaniaethau yn agwedd gwahanol grwpiau o'r boblogaeth. Yr ydym yn ceisio dod o hyd i grwpiau o ymatebwyr sy'n dangos patrymau tebyg o safbwynt y newidynnau a fesurir. Mae'r penderfyniadau ynglŷn â pha newidynnau i'w defnyddio a faint ohonynt i'w defnyddio yn rhwym o effeithio ar ganlyniadau'r clystyru. Dylai fod gan glystyrau da fylchau mawr rhyngddynt, a dylai aelodau pob clwstwr fod yn agos at ei gilydd. Yn yr achos hwn diffiniwyd y segmentau o amgylch agweddau'r unigolyn tuag at ddysgu a datblygu.

Penderfynwyd y dylid cael segmentiad ar wahân ar gyfer dysgwyr a rhai oedd ddim yn dysgu. Y rheswm am hyn oedd y gallem yn y dyfodol fod eisiau cymhwyso'r segmentiadau ar gyfer setiau eraill o ddata, er enghraifft yr Arolwg Cenedlaethol o Fodlonrwydd Dysgwyr. I wneud hynny'n llwyddiannus bydd angen cadw'r ddwy boblogaeth (dysgwyr ac eraill) ar wahân.

Mae'r broses o segmentu'n cychwyn trwy ddadansoddi ffactorau. Mae hyn yn golygu edrych pa fath o newidynnau sy'n 'gweithio' gyda'i gilydd. Er enghraifft, os yw'r ymatebydd yn dweud ei fod eisiau gwella ei hunan hyder, yn yr enghraifft hon, maent hefyd yn debygol iawn o ddweud eu bod eisiau cyfarfod â phobl a'u bod eisiau datblygu fel person. Unwaith bod yr holl newidynnau wedi cael eu crynhoi trwy ddadansoddi ffactorau gallwn wedyn symud ymlaen at ddadansoddi clystyrau. Bydd dadansoddi clystyrau yn cynhyrchu gwahanol senarios a'n rheol ni ar hyn oedd cael nifer 'rhesymol' o glystyrau. Byddai gormod o glystyrau yn creu proffil rhy ddryslyd o'r boblogaeth, rhy ychydig ac ni fyddwn yn gallu cyfrif am yr holl wasanaethau rhwng grwpiau.

Yn yr achos hwn mae gennym segmentiad o chwe chlwstwr (neu grŵp) ar gyfer dysgwyr ac un segmentiad o bum clwstwr (neu grŵp) ar gyfer pobl sydd ddim yn dysgu.

### 9.2.1 Pam y byddwn yn creu segmentau?

Mae segmentu yn ffordd syml ac effeithiol iawn o ddeall poblogaeth benodol. Yn yr achos hwn poblogaeth sy'n seiliedig ar agweddau at ddysgu. Wrth ddefnyddio'r data gellir cael golwg holistig ar y boblogaeth honno a bwydo gwybodaeth i'r farchnad yr anelir ati neu ddefnyddio'r wybodaeth i greu mentrau newydd.

## 9.3 Diffiniadau

Yn y gwaith hwn:

Diffiniwyd **dysgwyr** fel:

- unigolion sydd wedi bod yn dysgu neu hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (ac eithrio pobl sydd DDIM OND wedi bod ar gwrs cyffredinol neu wedi derbyn hyfforddiant dan oruchwyliaeth wrth wneud y gwaith).
- unrhyw un oedd yn debygol (neu'n debygol iawn) o ymgymryd â dysgu yn ystod y tair blynedd nesaf.

Diffiniwyd **Eraill** fel:

- unrhyw un sydd HEB ymgymryd â dysgu na hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- unrhyw un sydd HEB fod ar gwrs cyffredinol yn y gwaith neu sy'n cael goruchwyliaeth wrth wneud eu gwaith. Mae cyrsiau cyffredinol yn cynnwys hyfforddiant gorfodol megis iechyd a diogelwch neu sefydlu staff.
- unrhyw un oedd yn annhebygol o ymgymryd ag unrhyw ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf.

## 9.4 Segmentu Dysgwyr

Cafodd y dysgwyr eu rhannu yn segmentau ar sail eu hymateb i'r cwestiynau canlynol:

Pethau yr hoffech eu gwneud yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf:

- Cael swydd
- Cael swydd gyda chyflogwr arall
- Newid y math o waith yr ydych yn ei wneud
- Cael cymhwyster cydnabyddedig
- Gallu gwneud fy swydd bresennol yn well
- Cael dyrchafiad
- Cael codiad cyflog
- Cael mwy o foddhad yn fy ngwaith
- Cael ar gwrs dysgu yn y dyfodol
- Datblygu fy hunan fel person
- Gwella fy hunan hyder
- Cwrdd â phobl
- Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref

Y graddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol:

- Mae dysgu yn bleser ynddo'i hun
- Rwy'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd
- Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfa yn eu hamser eu hun
- Nid oes digon o gymorth a chyngor ynglŷn â'r gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ei wneud
- Dwi ddim yn gweld pam y dylwn i dalu am ddysgu sydd a wnelo a'n gyrfa neu waith
- Byddwn yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth
- Doedd gen i mo'r cymhelliad i ddilyn cwrs
- Rwy'n adnabod llawer o bobl yn fy ardal i sy'n dysgu
- Nid oes gan weddill fy nheulu lawer o ddiddordeb mewn dysgu

Dynodwyd chwe grŵp o fewn y segmentau dysgwyr:

- **Grŵp 1** Dysgu er ei fwyn ei hun
- **Grŵp 2** Archwilio gyrfaoedd
- **Grŵp 3** Teimlo'n anghyflawn
- **Grŵp 4** Uchelgeisiol yn y gwaith
- **Grŵp 5** Eisiau atgyfnerthiad
- **Grŵp 6** Eisiau cymwysterau

### Grŵp 1: Dysgu er ei fwyn ei hun

Trosolwg: Roedd hwn yn grŵp mwy aeddfed ac o'r herwydd roeddent yn fwy tebygol na grwpiau eraill o fod wedi ymddeol ac heb blant ar yr aelwyd. Roedd y dysgwyr hyn yn hyderus ac heb gael eu gyrru'n ormodol gan ddatblygiad personol (hynny yw cwrdd â phobl). Roeddent yn dilyn cyrsiau nos ac heb fod â llawer o ddiddordeb mewn ennill cymwysterau. Roeddent yn ymgymryd â dysgu er mwyn eu pleser eu hun.

### Grŵp 2: Archwilio gyrfaoedd

Trosolwg: Roedd y grŵp yma'n ymddangos yn uchelgeisiol ac o ewyllys gref. Roeddent wedi digalonni ynglŷn â chyfleoedd i ddysgu yn y gwaith ac felly yn awyddus i newid eu hamgylchiadau. Roedd y grŵp hwn yn cynllunio i newid y math o waith yr oeddent yn ei wneud ac/neu eisiau swydd gyda chyflogwr arall. Roeddent yn ddysgwyr hyderus o symbyliad uchel ac yn mwynhau dysgu er ei fwyn ei hun. Yn ddiddorol, roeddent yn teimlo nad oedd cyngor a chymorth ar gael bob amser. Roeddent ychydig yn fwy tueddol o fod yn ddynion nag yn ferched. Roeddent yn debygol iawn o fod rhwng 25 a 44 oed. Roeddent yn un o'r grwpiau oedd fwyaf tebygol o fod wedi cychwyn teulu felly roedd ganddynt ymrwymiadau yn y cyfeiriad hwnnw.

### Grŵp 3: Teimlo'n anghyflawn

Trosolwg: Nid oedd y grŵp hwn wedi ymrwymo'n ormodol i ddysgu. Nid oeddent yn teimlo y dylai dysgwyr orfod talu am ddysgu ar gyfer eu gyrfa. Roeddent hefyd o'r farn na ddylech orfod dysgu yn eich amser eich hun os oedd y dysgu yn ymwneud â'ch gwaith, a chredent nad oedd digon o help a chymorth ar gael. Roedd llawer ohonynt oedd ddim yn ddysgwyr 'diweddar'. O ran eu cynlluniau at y dyfodol a'u demograffeg nid oedd dim ynglŷn â'r grŵp hwn a oedd yn gwneud iddynt sefyll allan, roedd yr ymatebion yn adlewyrchu proffil dysgwyr yn gyffredinol.





### Grŵp 4: Uchelgeisiol yn y gwaith

Trosolwg: Roedd y grŵp hwn eisiau 'mynd yn eu blaen' yn eu swydd bresennol/gyda'u cyflogwr cyfredol. Roeddent eisiau dyrchafiad, cael codiad cyflog a/neu wneud yn well yn eu gwaith. Yn wahanol i'r grŵp oedd yn archwilio gyrfa nid oedd newid gyrfa neu gyflogwr yn uchel ar eu rhestr. Maent wedi ymgymryd â llwyth enfawr o ddysgu, yn y swydd a thu allan (llawer o hyn yn cael ei ddarparu gan y cyflogwr). Roedd effaith y dysgu hwn ar eu cyflog wedi bod yn gadarnhaol ac wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu bodlonrwydd yn eu gwaith. Roeddent yn fwy tebygol o fod yn ddynion (rhwng 25 a 44 oed) gyda theulu.

### Grŵp 5: Eisiau atgyfnerthiad

Trosolwg: Datblygiad personol oedd yn gyrru'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn. Eu symbyliad oedd gwella hunan hyder, cwrdd â phobl a datblygu fel person. Roedd dysgu blaenorol wedi cyflawni'r amcanion hynny ac, efallai o ganlyniad, mae 45% yn debygol iawn o ddysgu eto yn ystod y flwyddyn nesaf. O gymharu â'r holl grwpiau eraill roeddent yn dipyn mwy tebygol o fod yn ferched, yn gweithio'n rhan amser neu'n edrych ar ôl y cartref/teulu ac yn gweithio yn y sector gwirfoddol.

### Grŵp 6: Eisiau cymwysterau

Trosolwg: Roedd y grŵp yma'n ifanc ac yn tueddu i weld dysgu yn ffordd o fyw. Roeddent yn cael eu symbylu gan yr awydd i ennill cymwysterau a chael swydd. Roedd dros saith o bob deg (71%) o'r grŵp yma yn ddiwaith ac yn chwilio am waith, mewn addysg llawn amser ac/neu'n gofalu am y cartref/teulu. Roedd ychydig dros eu hanner yn ferched (58%). Dyma'r grŵp ieuengaf gyda 22% ohonynt rhwng 16 – 18 oed a 28% rhwng 19 – 24 oed.

## 9.5 Segmentu pobl sydd ddim yn ddysgwyr

Cafodd y rhai oedd ddim yn ddysgwyr eu segmentu ar sail eu hymateb i'r cwestiynau canlynol:

Pethau yr hoffech eu gwneud yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf:

- Cael swydd
- Cael swydd gyda chyflogwr arall
- Newid y math o waith yr ydych yn ei wneud
- Cael cymhwyster cydnabyddedig
- Gallu gwneud fy swydd bresennol yn well
- Cael dyrchafiad
- Cael codiad cyflog
- Cael mwy o foddhad yn fy ngwaith
- Cael ar gwrs dysgu yn y dyfodol
- Datblygu fy hunan fel person
- Gwella fy hunan hyder
- Cwrdd â phobl
- Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref

Y graddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol:

- Mae dysgu yn bleser ynddo'i hun
- Rwy'n hyderus ynglŷn â dysgu sgiliau newydd
- Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfa yn eu hamser eu hun
- Nid oes digon o gymorth a chyngor ynglŷn â'r gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ei wneud
- Dwi ddim yn gweld pam y dylwn i dalu am ddysgu sydd a wnelo â fy ngyrfa neu fy ngwaith
- Byddwn yn teimlo'n ddieithr mewn dosbarth
- Does gen i mo'r cymhelliad i ddilyn cwrs
- Rwy'n adnabod llawer o bobl yn fy ardal i sy'n dysgu
- Nid oes gan weddill fy nheulu lawer o ddiddordeb mewn dysgu

Ffactorau sy'n eich atal rhag dysgu neu astudio pethau yn ystod y flwyddyn nesaf:

- Dim digon o amser
- Pwysau gwaith/oriau gwaith
- Ymrwymiadau teuluol/gofal plant gan gynnwys gofal henoed

- Diffyg hyder
- Teimlo fy mod yn rhy hen
- Nid yw dysgu/astudio yn berthnasol i mi
- Methu gweld y pwynt
- Ddim eisiau dysgu pethau newydd

Roedd pum grŵp yn y segmentau oedd ddim yn ddysgwyr:

- **Grŵp 1** Heb ei argyhoeddi
- **Grŵp 2** Uchelgeisiol ac abal
- **Grŵp 3** Materion o hyder
- **Grŵp 4** Teimlo'n rhy hen
- **Grŵp 5** Deall y gwerth, ond dim angen

### Grŵp 1: Heb ei argyhoeddi

Trosolwg: Roedd y grŵp hwn wedi torri eu calonnau'n lân gyda dysgu. Ni allent weld pwrpas dysgu gan eu bod o'r farn nad oedd yn berthnasol. Dywedodd 25% ohonynt eu bod yn rhy hen i ddysgu (er nad dyma'r grŵp hynaf yn y segmentiad). Nid oedd dyheadau yn bwysig iawn i'r grŵp hwn, dywedodd 68% nad oedd dim o'r dyheadau ar y rhestr yn berthnasol iddynt hwy. Roedd cyfran fawr o'r grŵp hwn yn perthyn i grŵp cymdeithasol economaidd DE (63%).

### Grŵp 2: Uchelgeisiol ac abal

Trosolwg: Roedd y rhain yn canolbwyntio ar wella'u rhagolygon yn y gwaith. Roeddent yn uchelgeisiol, eisiau dyrchafiad a chodiad cyflog a gwell boddhad yn eu gwaith. Gan hynny nid oedd datblygiad personol yn eu gyrru rhyw lawer. Ni theimlent fod amser nag oedran yn eu cyfyngu rhag dysgu. Roedd dros saith o bob deg (72%) yn ddynion. Dyma'r grŵp ieuengaf yn y segmentiad oedd ddim yn ddysgwyr (dim ond 23% oedd yn 55 oed a mwy). Roeddent dipyn yn fwy tebygol o fod yn gweithio'n llawn amser (64%). Roedd plant gan chwech o bob deg (60%) a dyna'r canran uchaf yn y grwpiau oedd ddim yn ddysgwyr.

### Grŵp 3: Materion o hyder

Trosolwg: Nid oedd y grŵp hwn yn ystyried dysgu yn ffordd o fyw (h.y. ffordd o gael cymhwyster neu gael swydd) ond roeddent eisiau datblygu eu hunain fel person (gwella eu hyder a chwrdd â phobl). Hyder oedd y mater allweddol i'r grŵp hwn ac roeddent yn llawer mwy tebygol nag eraill o deimlo diffyg hyder. Dyma'r grŵp oedd â'r mwyaf o ymatebwyr yn grŵp cymdeithasol economaidd DE (73%).

### Grŵp 4: Teimlo'n rhy hen

Trosolwg: Er bod gan y grŵp hwn rywfaint o ddiddordeb mewn datblygiad perrsonol yr oeddent hefyd yn debygol o fod wedi teimlo bod dysgu ddim ar eu cyfer nhw a dywedodd traean ohonynt (32%) eu bod yn rhy hen. Dyma'r grŵp hynaf ei aelodau (roedd 85% yn 55+). O ganlyniad roedd bron i dri chwarter y grŵp hwn (72%) wedi ymddeol. Nhw oedd leiaf tebygol o fod â phlant yn y cartref (83%). Dyma'r unig grŵp lle roedd mwy o ferched nag o ddynion (60% i 40%). Dyma'r grŵp oedd fwyaf tebygol o fod â phroblemau iechyd neu anabledd.

### Grŵp 5: Deall y gwerth, ond dim angen

Trosolwg: Roedd y grŵp hwn yn edrych ar ddysgu fel ffordd o fyw, fel ffordd o gyflawni nod trwy gael cymhwyster neu gael swydd. Ond nid oeddent yn canolbwyntio ar uchelgais gyrfaol adeg yr arolwg (cael dyrchafiad, gwell enillion neu foddhad yn y gwaith) ac nid oeddent yn gweld yr angen i ddatblygu eu hunain yn bersonol.

Mae manylion am bob un o'r clystyrau hyn wedi eu cynnwys mewn adroddiad segmentu sydd ar wahân i'r adroddiad hwn. Yn yr adroddiad hwn, mae'r segmentu yn berthnasol i:

- data y Panel Unigolion;
- data'r Arolwg Cenedlaethol Bodlonrwydd Dysgwyr yng Nghymru 2003 a;
- data Arolwg 2003 Sgiliau Dyfodol Cymru o Aelwydydd.

Trwy wneud hynny gellir cael gwell dealltwriaeth o nodweddion dysgwyr ac eraill, er mwyn gallu targedu mentrau marchnata ar gyfer y grwpiau hynny yn well.

# 10.0 ATODIAD





## 10.1 Atodiad A: Canllawiau i Ddehongli'r Data

Cafodd y sampl o unigolion ei bwysoli yn y cyfnod dadansoddi er mwyn sicrhau eu bod yn gynrychioliadol o unigolion yn ôl oedran, rhyw, statws cyflogaeth ac yn ôl perthyn neu beidio i ardaloedd cymunedau'n gyntaf. Roedd y pwysynnau a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

| Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf | % |
|---|---|
| Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf | 15 |
| Ardaloedd Eraill | 85 |

| Rhyw o fewn grŵp oedran | % |
|---|---|
| Dynion 16 – 34 | 15.5 |
| Dynion 35 – 54 | 17.3 |
| Dynion 55+ | 17.5 |
| Merched 16 – 34 | 15.4 |
| Merched 35 – 54 | 15.7 |
| Merched 55+ | 18.5 |
| Heb ddweud eu hoed | 0.1 |

| Rhyw o fewn statws cyflogaeth | % |
|---|---|
| Dynion yn gweithio llawn amser | 28.4 |
| Dynion ddim mewn gwaith llawn amser | 21.9 |
| Merched yn gweithio'n llawn amser neu ran amser | 25.9 |
| Merched ddim mewn gwaith | 23.7 |
| Heb ddweud | 0.1 |

Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos y sylfaen heb ei bwysoli ac wedi ei bwysoli. Y sylfaen heb ei bwysoli yw union nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda'r grŵp hwn o ymatebwyr. Felly mae'n well defnyddio'r sylfaen heb ei bwysoli wrth ddyfynnu ffigurau gan fod 'nifer y cyfweliadau wedi eu seilio ar bawb a fu'n gyfrannog mewn dysgu neu hyfforddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (heb gynnwys y rhai sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol)'.

Y sylfaen wedi ei bwysoli yw nifer y cyfweliadau, wedi ei bwysoli i adlewyrchu proffil y boblogaeth trwy Gymru. Mae'n well defnyddio'r sylfaen wedi ei bwysoli wrth ddyfynnu'r canlyniadau fel canran o boblogaeth Cymru, er enghraifft 'nid yw 47% o'r boblogaeth wedi bod yn ymwneud â hyfforddi neu ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (heb gynnwys y rhai sydd ddim ond wedi bod ar gwrs cyffredinol).

Mae cywirdeb yr amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ddata'r arolwg yn dibynnu ar ddau beth: yn gyntaf maint y sampl ac yn ail ar ganlyniadau'r arolwg. Er enghraifft, ar sail 2,009 cyfweliad, mae canlyniad o 50% yn golygu cyfeiliornad o +/- 2.2%. Felly os oedd 50% o'r ymatebwyr yn yr arolwg yn dweud eu bod yn cytuno bod dysgu yn bleser ynddo'i hun, gallai'r ffigur gwirioneddol ar gyfer y boblogaeth gyfan fod rhwng 47.8% a 52.2%. Roedd y cyfeiliornad yn gallu bod yn fwy yng nghanol y raddfa (hynny yw ar gyfer canlyniadau oddeutu 50%) ac yn llai ar dop a gwaelod y raddfa. Gyda chanlyniad o 10% (neu 90%) roedd cyfeiliornad posib o +/- 1.3. Felly os oedd 90% o ymatebwyr yn cytuno eu bod yn adnabod llawer o bobl yn eu hardal oedd yn dysgu, gallai'r canlyniad gwirioneddol fod rhwng 88.7% a 91.3%

Nid yw'n ddoeth dadansoddi is-grwpiau sy'n cynnwys llai na 100 o ymatebwyr. Y rheswm am hyn yw bod y cyfeiliornad ar sampl o lai na 100 yn +/- 10% neu fwy, fyddai'n gyfeiliornad rhy fawr i'w ddefnyddio fel amcangyfrif dibynadwy ar gyfer unigolion yn yr is-grwpiau hynny.

Wrth gymharu canlyniadau rhwng gwahanol is-grwpiau, ar sail samplau o 100 neu fwy, bydau gwahaniaeth o 12% (neu fwy) rhwng dau grŵp yn wastad o bwys ystadegol. Felly os oedd canlyniad o 50% ymhlith ymatebwyr a fu'n dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chanlyniad o 62% ymhlith ymatebwyr oedd heb wneud unrhyw ddysgu yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, byddai'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn dangos fod gwahaniaeth gwirioneddol yn y boblogaeth, ac nid dim ond oherwydd cyfeiliornad tebygol yr arolwg. Y mwyaf yw maint y sampl, y lleiaf sydd raid i'r gwahaniaeth fod er mwyn dangos gwahaniaeth gwirioneddol rhwng gwahanol grwpiau yn y boblogaeth lawn.

Oherwydd crynhoi ffigurau mae'n bosib bod rhai ffigurau yn y siartiau a'r tablau sydd ddim yn gwneud 100%. Mewn rhai achosion lle mae'r cyfanswm yn fwy na 100% roedd atebion lluosog yn cael eu caniatáu ac mae nodyn i gadarnhau hynny.

Defnyddiwyd y symbolau canlynol yn y tablau:

* i ddangos canran o lai na 0.5 y cant ond mwy na sero
– i dangos sero y cant

## 10.2 Atodiad B: Grŵpiau cymdeithasol economaidd

Yn yr adroddiad mae'r ymatebwyr yn cael eu disgrifio yn ôl eu grŵp Cymdeithasol Economaidd.

Mae'r dosbarthiad fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| AB: | Proffesiynol a Rheolaethol |
| C1: | Canolradd ac Iau heb fod yn weithwyr llaw |
| C2: | Gweithwyr llaw medrus |
| DE: | Gweithwyr llaw lled-fedrus neu heb sgiliau |